



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)

The National Assembly for Wales
(The Official Record)

Dydd Mercher 17 Mai 2000

Wednesday 17 May 2000

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to the Secretary for Health and Social Services
- 9 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16
Questions to the Secretary for Post-16 Education and Training
- 17 Cynnig o Gerydd
Censure Motion
- 28 Pwyntiau o Drefn
Points of Order
- 29 Penodi Archwilydd Cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru
Appointment of the Auditor of the Accounts of the Auditor General for Wales
- 32 Dirprwyo Swyddogaethau Gorchymyn Cymunedau Ewropeaidd Cymru
Delegation of Functions of the European Communities Wales Order
- 45 Gorchymyn Rhan 7 o dan Adran 59 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
The Part 7 Order under Section 59 of the Town and Country Planning Act 1990
- 65 Dyfodol y Gwasanaethau Dŵr yng Nghymru
The Future of the Water Utilities in Wales
- 99 Dadl Fer
Short Debate
- 111 Pwynt o Drefn
Point of Order

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to the Secretary for Health and Social Services

Lleihau Rhestrau Aros
Cutting Waiting Lists

Q1 Jonathan Morgan: Has the administration kept its manifesto commitment to cut waiting lists as a first step? (OAQ5089)

The Secretary for Health and Social Services (Jane Hutt): There was a fall between the waiting list high point in March 1998, when it was at 73,419 and March 1999, when the inpatients' day case waiting list fell to 65,315. Subsequently, the Assembly had to give priority to dealing with emergency and urgent cases and returning the NHS to financial sustainability. During that year, we increased the number of emergency cases that we treated by 1,800, which adversely effected waiting lists. As you know, Jonathan, we now have the extra money to enable us to do something about this—an additional £110 million has been made available in the health budget for Wales. Part of this was used to increase health authority allocations on 6 April by 9.4 per cent. There is some £86 million available for spending priorities. I was glad to announce this morning that £40 million will go straight to health authorities to tackle waiting times, waiting lists and the need to address emergency pressures. Challenging targets must be set and are being agreed with the NHS to make a difference in terms of our waiting lists and our intention to improve patient care in Wales.

Jonathan Morgan: From that answer, I assume that you will wish to revise your manifesto commitment and, in particular, delete the phrase 'as a first step'. The Secretary will be aware of the United Kingdom Government's claim today that waiting lists in England have been cut by 100,000 since the last election. Given that waiting lists in Wales are nearly 20 per cent higher than they were when Labour came to power in 1997, when do you propose to fulfil

C1 Jonathan Morgan: A yw'r weinyddiaeth wedi cadw'r ymrwymiad a wnaeth yn ei maniffesto i leihau rhestrau aros fel cam cyntaf? (OAQ5089)

Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt): Bu gostyngiad rhwng pwynt uchaf y rhestr aros ym Mawrth 1998, pan oedd yn 73,419 a Mawrth 1999, pan gwmpodd y rhestr aros ar gyfer cleifion mewnol ar achosion dydd i 65,315. Yn sgîl hyn, bu'n rhaid i'r Cynulliad roi blaenoriaeth i ymdrin ag achosion argyfwng a brys a sicrhau bod yr NHS yn dychwelyd i sefyllfa o gynaliadwyedd ariannol. Yn ystod y flwyddyn honno, cynyddasom nifer yr achosion brys yr oeddem yn eu trin o 1,800, a gafodd effaith niweidiol ar restrau aros. Fel y gwyddoch, Jonathan, mae gennym bellach yr arian ychwanegol i'n galluogi i wneud rhywbeth ynglŷn â hyn—rhyddhawyd £110 miliwn yn ychwanegol yn y gyllideb iechyd i Gymru. Defnyddiwyd rhan o'r arian hwn i gynyddu dyraniadau awdurdodau iechyd ar 6 Ebrill o 9.4 y cant. Mae tua £86 miliwn ar gael ar gyfer blaenoriaethau gwario. Yr oeddwn yn falch o gyhoeddi y bore yma y bydd £40 miliwn yn mynd yn syth i awdurdodau iechyd i fynd i'r afael ag amserau aros, rhestrau aros a'r angen i roi sylw i bwysau brys. Rhaid gosod targedau heriol ac maent yn cael eu cytuno gyda'r NHS i wneud gwahaniaeth i'n rhestrau aros a'n bwriad i wella gofal cleifion yng Nghymru.

Jonathan Morgan: O'r ateb hwnnw, tybiaf y byddwch yn dymuno diwygio'r ymrwymiad yn eich maniffesto ac, yn benodol, dileu'r cymal 'fel cam cyntaf'. Bydd yr Ysgrifennydd yn gwybod am honiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig heddiw bod rhestrau aros yn Lloegr wedi eu cwtogi o 100,000 ers yr etholiad diwethaf. O ystyried fod rhestrau aros yng Nghymru bron i 20 y cant yn uwch nag yr oeddent pan ddaeth Llafur i rym yn 1997, pryd y bwriadwch

your manifesto commitment?

Jane Hutt: We inherited waiting lists of 67,000 from your Government, Jonathan, so you must take responsibility for that high number. We also inherited the results of the internal market, which was a lack of investment from your Government in patient care and services in Wales. We are committed to fulfilling our manifesto commitments. With this new money, we have the opportunity to tackle waiting times and clinical priorities. It is important that the Health and Social Services Committee has had an influence on the way we tackle those. As the new money goes out, we will set clear new targets to bring the all-Wales level down and reduce lists below the 67,000, which we inherited from the Tory Government.

Rhodri Glyn Thomas: Mae Plaid Cymru wastad wedi cefnogi cyhoeddi amserau aros yn hytrach na rhestrau aros; dylai amserau aros gael eu seilio ar yr angen clinigol a chymdeithasol. Fodd bynnag, a ydych yn cytuno na fydd arian ynddo'i hun yn ateb y broblem, er bod angen buddsoddiad ychwanegol? Rhaid inni resymoli'r gwasanaeth a sicrhau bod y claf yn derbyn y ddarpariaeth orau bosibl yn y ffordd fwyaf effeithiol. Ar sail hynny, a wnaiff Jane ymuno â mi wrth groesawu datganiad prif weithredwr newydd Awdurdod Iechyd Dyfed Powys, sef er na fydd yn cau unrhyw ysbyty, y bydd yn edrych ar y gwasanaeth a gynigir gan bob ysbyty i geisio sicrhau bod y gwasanaeth hwnnw'n cael ei ddarparu mor effeithiol â phosibl?

Jane Hutt: Stuart Grey has made a positive start in his new job as chief executive of Dyfed Powys Health Authority, and I am sure that you will welcome his approach. It is important now that we have a planned approach to our health and social needs in Wales and that we plan the way we spend our money. In the Health and Social Services Committee today we talked about the importance of looking at the health improvement programmes as a way of

wireddu eich ymrwymiad maniffesto?

Jane Hutt: Etifeddasom restrau aros o 67,000 gan eich Llywodraeth, Jonathan, felly mae'n rhaid ichi gymryd cyfrifoldeb am y ffigur uchel hwnnw. Etifeddasom hefyd ganlyniadau'r farchnad fewnol, sef diffyg buddsoddiad ar ran eich Llywodraeth i wasanaethau a gofal cleifion yng Nghymru. Yr ydym wedi ymrwymo i wireddu ein hymrwymiaid maniffesto. Gyda'r arian newydd hwn, mae gennym gyfle i fynd i'r afael ag amserau aros a blaenoriaethau clinigol. Mae'n bwysig bod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael effaith ar y ffordd yr ydym yn mynd i'r afael â'r rheini. Wrth i'r arian newydd gael ei ddosbarthu, byddwn yn gosod targedau newydd clir i ostwng y lefel ar gyfer Cymru gyfan a lleihau rhestrau aros yn is na'r ffigur o 67,000 a etifeddasom gan y Llywodraeth Doriaidd.

Rhodri Glyn Thomas: Plaid Cymru has always supported publishing waiting times rather than waiting lists; waiting times should be based on the clinical and social need. However, do you agree that money in itself will not answer the problem, although additional investment is needed? We must rationalise the service and ensure that the patient receives the best possible provision in the most effective way. On that basis, will Jane join with me in welcoming the statement made by the new chief executive of Dyfed Powys Health Authority, namely that while he will not close any hospital, he will look at the service offered by each hospital to try to ensure that that service is being provided as efficiently as possible?

Jane Hutt: Mae Stuart Grey wedi cael dechrau cadarnhaol yn ei swydd newydd fel prif weithredwr Awdurdod Iechyd Dyfed Powys, ac yr wyf yn siŵr y byddwch yn croesawu ei ymagwedd. Mae'n bwysig yn awr ein bod yn delio â'n hanghenion cymdeithasol a iechyd yng Nghymru mewn dull wedi'i gynllunio a'n bod yn cynllunio'r ffordd yr ydym yn gwario ein harian. Yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol heddiw, siaradasom am

understanding how to allocate those important resources. These programmes must concentrate on tackling health inequalities and achieving targets, in terms of the trusts' performance in delivering the programmes' objectives. I welcome the points that were made, but we must use every penny that we have effectively. That means addressing waiting times, clinical priorities and booked emissions. It also means increased use of day care, which cuts down the waiting lists, and using preventative measures, as well as ensuring that there are physiotherapists in general practice, and good rehabilitation to ensure that we tackle the whole picture, not just the acute sector, in dealing with waiting lists, waiting times and clinical priorities.

bwysigrwydd edrych ar y rhaglenni gwella iechyd fel ffordd o ddeall sut i ddyrannu'r adnoddau pwysig hynny. Rhaid i'r rhaglenni hyn ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chyflawni targedau, yng nghyswllt perfformiad ymddiriedolaethau wrth gyflawni amcanion y rhaglenni. Croesawaf y pwyntiau a wnaethpwyd, ond rhaid inni ddefnyddio pob ceiniog sydd gennym yn effeithiol. Golyga hynny roi sylw i amserau aros, blaenoriaethau clinigol a dyddiadau rhyddhau wedi'u trefnu ymlaen llaw. Mae hefyd yn golygu cynyddu'r defnydd o ofal dydd, sydd yn lleihau rhestrau aros, a defnyddio mesurau ataliol, yn ogystal â sicrhau bod ffisiotherapyddion ar gael mewn meddygaethau teuluol, ac adferiad da i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r darlun cyfan, ac nid y sector aciwt yn unig, wrth ddelio â rhestrau aros, amserau aros a blaenoriaethau clinigol.

Prinder Nyrsys Nurse Shortages

Q2 William Graham: What action has the Secretary for Health and Social Services taken to address the shortage of nurses in Wales? (OAQ5084)

C2 William Graham: Pa gamau y mae'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u cymryd i roi sylw i broblem prinder nyrsys yng Nghymru? (OAQ5084)

Jane Hutt: There is a shortage of nurses in certain trusts in Wales, particularly in specialist areas. The Assembly is addressing those shortages. There is a 3.9 per cent vacancy rate currently, the equivalent to 150 full-time equivalent posts. That is not only in the acute sector but in health visiting, midwifery and the whole range of nursing. Recruitment into the profession, however, is buoyant with around eight applications for every student place: most schools have waiting lists.

Jane Hutt: Mae prinder nyrsys mewn rhai ymddiriedolaethau penodol yng Nghymru, yn enwedig mewn meysydd arbenigol. Mae'r Cynulliad yn rhoi sylw i'r prinder hwnnw. Ar hyn o bryd, mae gennym gyfradd swyddi gwag o 3.9 y cant, sydd yn cyfateb i 150 o swyddi sydd yn cyfateb i rai amser llawn. Mae'r swyddi gwag hynny nid yn unig yn y sector aciwt ond ym maes ymwelwyr iechyd, bydwreigiaeth a'r holl ystod o waith nyrsio. Fodd bynnag, mae'r gwaith o recriwtio pobl i'r proffesiwn yn galonogol gyda thau wyth o geisiadau ar gyfer pob lle i fyfyrwyr: mae gan y rhan fwyaf o ysgolion restrau aros.

William Graham: What proposals do you have to retain nurses in the profession?

William Graham: Pa gynigion sydd gennych i gadw nyrsys yn y proffesiwn?

Jane Hutt: This is an important point because we lose many nurses. I have just met with the Welsh Forum of the Joint Committee of Professional Nursing,

Jane Hutt: Mae hwn yn bwynt pwysig oherwydd yr ydym yn colli llawer o nyrsys. Yr wyf newydd gwrdd â Fforwm Cymreig Cydbwyllgor y Gymdeithas Nyrsio,

Midwifery and Health-Visiting Association. Retention is a critical part of the new strategy that we launched last year for human resources and realising potential. It is about ensuring that nurses get recognition and status, as well as having family-friendly policies and access to childcare and day care, as we discussed in this Chamber previously. It also means that we must recognise career development opportunities, and issues about recognition within the health service as a whole, as well as nurses' strategic contribution to our communities, and to many of our Assembly initiatives. We must keep them on board.

Jenny Randerson: Although the estimate for nursing vacancies in Wales is about 700, the Royal College of Nursing estimates that the real figure is nearer 2,000. If we take the official figure, the University Hospital of Wales accounts for 25 per cent of that 700. Do you not agree that this is an unacceptable situation for the people of my constituency and for Cardiff as a whole?

Jane Hutt: The situation is unacceptable. As I said, the shortage is particularly acute in certain trusts. It is a major problem in the Cardiff and Vale NHS Trust, which existed when I took up this post last year. There have been return-to-work strategies to encourage men, and particularly women, back into the profession. This also relates to William's question about retention. It is an issue of how we keep our nurses. I have made it clear that we should move towards conditions that are on nurses' terms, not just management's terms, so that if nurses can only work a certain number of hours a week, they should be given that opportunity. The human resources strategy that we are introducing, and which is now undergoing a process of consultation, will address many of these issues. The Assembly must send a clear message that we value nurses and their contribution, and that we listen to them. I have been talking to nurses today. How do we ensure that we keep them in the profession and that we recruit new nurses? It

Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd Proffesiynol. Mae cadw gweithwyr yn rhan hanfodol o'r strategaeth newydd a lansiwyd gennym y llynedd ar gyfer adnoddau dynol a gwireddu potensial. Mae a wnelo â sicrhau bod nyrsys yn cael cydnabyddiaeth a statws, yn ogystal â pholisïau sydd yn gyfeillgar i deuluoedd a chyfle i ddefnyddio gwasanaeth gofal plant a gofal dydd, fel y trafodasom yn y Siambr hon o'r blaen. Mae hefyd yn golygu bod yn rhaid inni gydnabod cyfleoedd i ddatblygu gyrfaedd, a chydabyddiaeth o fewn y gwasanaeth iechyd yn ei gyfanrwydd, yn ogystal â chyfraniad strategol nyrsys i'n cymunedau, ac i nifer o'n mentrau o fewn y Cynulliad. Rhaid inni eu cynnwys yn y gwaith.

Jenny Randerson: Er mai tua 700 yw nifer y swyddi nyrsio gwag a amcangyfrifir yng Nghymru, mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn amcangyfrif bod y ffigur gwirioneddol yn nes at 2,000. Os cymerwn y ffigur swyddogol, mae Ysbyty Prifysgol Cymru yn cyfrif am 25 y cant o'r 700 o swyddi hynny. Oni chytunwch fod hon yn sefyllfa annerbyniol i bobl f'etholaeth i ac i Gaerdydd yn gyffredinol?

Jane Hutt: Mae'r sefyllfa yn annerbyniol. Fel y dywedais, mae'r prinder yn arbennig o ddifrifol mewn rhai ymddiriedolaethau penodol. Mae'n broblem fawr yn Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro, a oedd yn bodoli pan gychwynnais yn y swydd hon y llynedd. Cafwyd strategaethau dychwelyd-i'r-gwaith i annog dynion, a menywod yn arbennig, yn ôl i'r proffesiwn. Mae hyn hefyd yn berthnasol i gwestiwn William ynglŷn â chadw gweithwyr. Sut yr ydym yn cadw ein nyrsys yw'r mater dan sylw. Yr wyf wedi ei gwneud yn glir y dylem symud tuag at amodau ar delerau nyrsys, nid ar delerau'r rheolwyr yn unig, felly os gall nyrsys weithio nifer penodol o oriau'r wythnos yn unig, dylent gael y cyfle i wneud hynny. Bydd y strategaeth adnoddau dynol yr ydym yn ei chyflwyno, ac sydd yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, yn rhoi sylw i lawer o'r materion hyn. Rhaid i'r Cynulliad gyfleu neges glir ein bod yn gwerthfawrogi nyrsys a'u cyfraniad, a'n bod yn gwrandao arnynt. Yr wyf wedi bod yn siarad â nyrsys

will mean encouraging our young people to go into nursing, but Cardiff and Vale must be the top priority.

2:10 p.m.

David Lloyd: Pan drafodwyd y ddogfen briffio ar y pwnc hwn yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yr oedd elfen o fodlonrwydd yn y papur ynglŷn â'r ffaith fod o leiaf 700 o swyddi gwag yn y sector nyrsio ac nad oedd ymgyrch yng Nghymru i recriwtio a chadw nyrsys. Mae ymgyrch penodol yng ngweddill ynysoedd Prydain. Beth yr ydych yn ei feddwl am y syniad o gael ymgyrch penodol yng Nghymru gan fod angen nyrsys arnom ni hefyd?

Jane Hutt: I hope that people were not happy with the briefing paper because we cannot be complacent about the situation in Wales. William Graham's question has put this issue on the agenda and we must address it. When we considered our priorities for the new money, workforce planning and development came through strongly. We did not have much time to discuss it this morning but it related to our training of nurses and doctors. We must ensure that it is a priority, not just for hospitals but for the community. We must encourage nurses to go into midwifery. I was told today by the professional organisation for midwives that there is a shortage of 160 midwives in Wales. We must ensure that we address this problem at the community and hospital levels and that applies to the trusts, which now have community as well as acute and specialist roles in terms of recruitment. Therefore, to answer Dai's question, I believe that we need a campaign to raise the profile of nursing and ensure that we retain and recruit our nurses in Wales.

heddiw. Sut yr ydym yn sicrhau ein bod yn eu cadw yn y proffesiwn a'n bod yn recriwtio nyrsys newydd? Bydd yn golygu annog ein pobl ifanc i fod yn nyrsys, ond rhaid i Gaerdydd a'r Fro fod yn brif flaenoriaeth.

David Lloyd: When the briefing document on this subject was discussed in the Health and Social Services Committee, there was an element of complacency in the paper regarding the fact that there were at least 700 vacant posts in the nursing sector and that there was no campaign in Wales to recruit and retain nurses. There is a specific campaign in the rest of the British Isles. What do you think about the idea of having a specific campaign in Wales because we also need nurses?

Jane Hutt: Gobeithiaf nad oedd pobl yn fodlon â'r papur briffio oherwydd ni allwn fod yn hunanfodlon ynglŷn â'r sefyllfa yng Nghymru. Mae cwestiwn William Graham wedi rhoi'r mater hwn ar yr agenda a rhaid inni roi sylw iddo. Pan ystyriasom ein blaenoriaethau ar gyfer yr arian newydd, daeth cynllunio a datblygu'r gweithlu i'r amlwg yn gryf. Nid oedd gennym lawer o amser i'w drafod y bore yma ond yr oedd yn ymwneud â'r hyfforddiant a roddwn i nyrsys a meddygon. Rhaid inni sicrhau ei fod yn flaenoriaeth, nid yn unig i ysbytai ond i'r gymuned. Rhaid inni annog nyrsys i fynd yn fydwragedd. Clywais heddiw gan y mudiad proffesiynol i fydwragedd ein bod 160 yn brin o fydwragedd yng Nghymru. Rhaid inni sicrhau ein bod yn rhoi sylw i'r broblem hon yn y gymuned ac mewn ysbytai ac mae hynny'n berthnasol i'r ymddiriedolaethau, sydd bellach yn chwarae rhan gymunedol yn ogystal ag aciwt ac arbenigol o safbwynt recriwtio. Felly, i ateb cwestiwn Dai, credaf fod angen ymgyrch arnom i godi proffil nyrsio a sicrhau ein bod yn cadw ac yn recriwtio ein nyrsys yng Nghymru.

Cyn Safle Ffatri Brambers Brambers Former Factory Site

Q3 Geraint Davies: Will Jane Hutt make a brief statement on her decision to reject the request by Pontypridd and Rhondda NHS

C3 Geraint Davies: A wnaiff Jane Hutt ddatganiad byr ar ei phenderfyniad i wrthod cais Ymddiriedolaeth NHS Pontypridd a'r

Trust to purchase the Brambers former factory site? (OAQ5085) [R]

Jane Hutt: Geraint and I have corresponded on this issue over the past weeks. The trust and Bro Taf Health Authority have asked the Assembly for permission to purchase this site. A full business case is needed to outline the plans for hospital and health development on that site and to demonstrate that it is the best location for the services that the Bro Taf Health Authority and the trust wish to provide. We have not yet given our agreement because we are waiting for that business case, but the authority assured us of its confidence that that site was the only suitable one for development in that area. To pursue this further, I have requested a meeting with the trust, health authority and the community health council to discuss this issue and I suggested that the trust pursue further discussions with Rhondda Cynon Taf Council, which owns this site.

Geraint Davies: I am disappointed that you have not been able to make a decision yet because the people of Rhondda have been waiting for a new hospital for almost 25 years. Two years ago we were offered a brand new hospital to replace Llwynypia, if we agreed to the closure of Treherbert and Porth hospitals. There is a desperate need to address the massive health divide in our communities. This is the only ideal site and the trust has the money to pay for it. We are not asking for money, all we want is your permission to go ahead and buy it. It would be disastrous if the NHS were to lose this site. Is it not sending a negative message on the attitude towards addressing health problems in the Valleys?

Jane Hutt: As you know Geraint, this former factory site is owned by Rhondda Cynon Taf Council and any decisions that we make regarding the site will not be political. We have to give permission based on thorough and robust business plans. Trusts

Rhondda i brynu hen safle ffatri Brambers? (OAQ5085) [R]

Jane Hutt: Mae Geraint a minnau wedi bod yn llythyr ynghylch y mater hwn dros yr wythnosau diwethaf. Mae'r ymddiriedolaeth ac Awdurdod Iechyd Bro Taf wedi gofyn i'r Cynulliad am ganiatâd i brynu'r safle hwn. Mae'n rhaid wrth achos busnes llawn i amlinellu'r cynlluniau ar gyfer datblygiad ysbyty ac iechyd ar y safle hwnnw ac i ddangos mai dyma'r lleoliad gorau i'r gwasanaethau y mae Awdurdod Iechyd Bro Taf a'r ymddiriedolaeth yn dymuno eu darparu. Nid ydym wedi cytuno i hyn eto oherwydd yr ydym yn aros am yr achos busnes hwnnw, ond mae'r awdurdod wedi ein sicrhau o'i ffydd mai'r safle hwnnw oedd yr unig safle addas i'w ddatblygu yn yr ardal honno. Er mwyn mynd â'r mater ymhellach, yr wyf wedi gofyn am gyfarfod gyda'r ymddiriedolaeth, yr awdurdod iechyd a'r cyngor iechyd cymuned i drafod y mater hwn ac awgrymais fod yr ymddiriedolaeth yn cynnal trafodaethau pellach gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf, sydd yn berchen y safle hwn.

Geraint Davies: Yr wyf yn siomedig nad ydych wedi gallu dod i benderfyniad eto oherwydd mae pobl y Rhondda wedi bod yn aros am ysbyty newydd ers bron i 25 mlynedd. Ddwy flynedd yn ôl, cynigiwyd ysbyty newydd sbon inni yn lle ysbyty Llwynypia, pe baem yn cytuno i gau ysbytai Treherbert a'r Porth. Mae angen dybryd i roi sylw i'r gagendor iechyd enfawr yn ein cymunedau. Dyma'r unig safle delfrydol ac mae'r arian gan yr ymddiriedolaeth i dalu amdano. Nid ydym yn gofyn am arian, y cyfan sydd arnom ei eisiau yw eich caniatâd i fwrw ymlaen i'w brynu. Byddai'n drychineb pa bai'r NHS yn colli'r safle hwn. Onid yw'n anfon neges negyddol ynglŷn â'r agwedd tuag at roi sylw i broblemau iechyd yn y Cymoedd?

Jane Hutt: Fel y gwyddoch Geraint, mae'r hen safle ffatri hwn yn eiddo i Gyngor Rhondda Cynon Taf ac ni fydd unrhyw benderfyniad gennym am y safle yn benderfyniad gwleidyddol. Rhaid inni roi caniatâd yn seiliedig ar gynlluniau busnes

cannot afford to buy land speculatively. We must ensure that there is a robust business case for its purchase. That is what we request and I have given you and the people of Rhondda and Rhondda Cynon Taff the assurance that I am looking at this urgently. Talking to GPs in that area is critical for primary care development. Bro Taf Health Authority and Pontypridd and Rhondda NHS Trust want to look at the best use of this land and the provision of a health facility in the Rhondda. That includes the provision of primary and intermediate care and the kind of services that the Rhondda community deserves and needs today. This will move on, Geraint.

trylwyr a chadarn. Ni all ymddiriedolaethau fforddio prynu tir ar hap. Rhaid inni sicrhau achos busnes cryf dros ei brynu. Dyna beth y gofynnwn amdano ac yr wyf wedi rhoi sicrwydd ichi a phobl y Rhondda a Rhondda Cynon Taf fy mod yn ystyried hyn fel mater o frys. Mae siarad â meddygon teulu yn yr ardal honno yn allweddol i ddatblygu gofal cynradd. Mae Awdurdod Iechyd Bro Taf ac Ymddiriedolaeth NHS Pontypridd a'r Rhondda yn dymuno ystyried y defnydd gorau o'r tir hwn a darparu cyfleuster iechyd yn y Rhondda. Mae hynny'n cynnwys darparu gofal cynradd a thros dro a'r math o wasanaethau y mae cymuned y Rhondda yn ei haeddu ac y mae arni eu hangen heddiw. Bydd hyn yn symud ymlaen, Geraint.

Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 Questions to the Secretary for Post-16 Education and Training

Y Brifysgol i Ddiwydiant The University for Industry

C1 Elin Jones: Pa rôl fydd gan y Cynulliad yn y broses o asesu a monitro cynnydd y Brifysgol i Ddiwydiant? (OAQ5127)

Q1 Elin Jones: What role will the Assembly have in the process of monitoring and assessing the progress of the University for Industry? (OAQ5127)

The Secretary for Post-16 Education and Training (Tom Middlehurst): Ufi Limited has opened a Wales office and has recently established a Wales advisory group to work in parallel with the Assembly and other public bodies to ensure an integrated approach to accessible learning across Wales. I will report regularly to the Post-16 Education and Training Committee on the development of Ufi in Wales and hold regular meetings with representatives from Ufi Limited to monitor and assess progress. A senior official from the Training and Education Department also represents the Assembly on the advisory group.

Yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 (Tom Middlehurst): Mae Ufi Cyfyngedig wedi agor swyddfa yng Nghymru ac wedi sefydlu grŵp ymgynghorol Cymru yn ddiweddar i weithio yn gyfochrog â'r Cynulliad a chyrrff cyhoeddus eraill i sicrhau ymagwedd integredig tuag at ddysgu sydd yn agored i bawb drwy Gymru. Byddaf yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 ynglŷn â datblygiad y Brifysgol i Ddiwydiant yng Nghymru ac yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda chynrychiolwyr Ufi Cyfyngedig i fonitro ac asesu cynnydd. Mae uwch swyddog o'r Adran Addysg a Hyfforddiant hefyd yn cynrychioli'r Cynulliad ar y grŵp ymgynghori.

Elin Jones: Mae'r broses o ariannu'r Brifysgol i Ddiwydiant yn debygol o newid yn y dyfodol agos o ganlyniad i leihad yng nghyfraniad yr Adran Addysg a Chyflogaeth yn Llundain. A wnewch fy sicrhau na fydd colegau Cymru yn gorfod dod o hyd i'r arian

Elin Jones: The process of financing the University for Industry is likely to change in the near future as a result of a reduction in the contribution of the Department of Education and Employment in London. Will you assure me that Welsh colleges will not

ychwanegol i dalu am y Brifysgol i Ddiwydiant, yn enwedig gan fod y cynllun yn cael ei redeg gan yr Adran Addysg a Chyflogaeth a'r Trysorlys ac, i bob pwrpas, yn torri ar draws yr hyn yr ydym wedi ceisio ei gyflawni yn y Cynulliad drwy ailstrwythuro addysg a hyfforddiant ôl-16?

Tom Middlehurst: I will try to give you an assurance, as far as I am able. The Assembly has made £500,000 available to the Further Education Funding Council to fund provision for the extra learners expected to be generated by Ufi Limited during this academic year. For the next academic year, the Funding Council has set aside about £500,000 for Ufi learners from within the Council's normal grants from the Assembly. I take note of your concerns and will address them. I am sure that we will return to this subject in another place, possibly the Committee.

Christine Humphreys: Can you tell us what plans there are to develop the Ufi and the Digital College in Wales through Objective 1 funding?

Tom Middlehurst: Ufi is rolling out an ambitious programme for Wales. You will be aware that the learning centre hopes are coterminous with the four regional committees and four regional economic fora in Wales. There is a consistency of structure and a considerable roll out of learning centres this year. I encourage all organisations involved in training and education to access the opportunities that Objective 1 now provides. We will be looking to them to submit proposals and Ufi Limited will not be slow to respond to that.

Alun Pugh: Do you have any plans to meet with Ufi Limited to address the shortage of Welsh medium materials in higher education in Wales?

Tom Middlehurst: I am eager to ensure that there is access for all people in Wales irrespective of their choice of language. Ufi

have to find the additional money to pay for the Ufi, especially as the scheme is run by the Department for Education and Employment and the Treasury and, to all purposes, goes against what we have tried to achieve in the Assembly by restructuring post-16 education and training?

Tom Middlehurst: Ceisiaf eich sicrhau, cyhyd ag y gallaf. Mae'r Cynulliad wedi rhyddhau £500,000 i'r Cyngor Cyllido Addysg Bellach i gyllido darpariaeth ar gyfer y dysgwyr ychwanegol y disgwylir i Ufi Cyfyngedig eu cynhyrchu yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Mae'r Cyngor Cyllido wedi neilltuo tua £500,000 ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf i ddysgwyr y Brifysgol i Ddiwydiant o'r grantiau arferol i'r Cyngor gan y Cynulliad. Nodaf eich pryderon a byddaf yn rhoi sylw iddynt. Yr wyf yn siŵr y byddwn yn dychwelyd at y pwnc hwn mewn lle arall, yn y Pwyllgor o bosibl.

Christine Humphreys: A allwch ddweud wrthym pa gynlluniau sydd i ddatblygu'r Brifysgol i Ddiwydiant a'r Coleg Digidol yng Nghymru drwy gyfrwng arian Amcan 1?

Tom Middlehurst: Mae'r Brifysgol i Ddiwydiant yn llunio rhaglen uchelgeisiol i Gymru. Byddwch yn gwybod fod y gobeithion am ganolfannau dysgu yn cydfynd â'r pedwar pwyllgor rhanbarthol a'r pedwar fforwm economaidd rhanbarthol yng Nghymru. Mae'r strwythur yn gyson ac mae nifer sylweddol o ganolfannau dysgu yn cael eu sefydlu eleni. Yr wyf yn annog pob sefydliad sydd yn ymwneud â hyfforddiant ac addysg i fanteisio ar y cyfleoedd y mae Amcan 1 bellach yn eu cynnig. Byddwn yn disgwyl iddynt hwy gyflwyno cynigion ac ni fydd Ufi Cyfyngedig yn araf yn ymateb i hynny.

Alun Pugh: A oes gennych unrhyw gynlluniau i gwrdd â Ufi Cyfyngedig i roi sylw i'r diffyg deunyddiau Cymraeg mewn addysg uwch yng Nghymru?

Tom Middlehurst: Yr wyf yn awyddus i sicrhau mynediad i bawb yng Nghymru waeth beth yw eu dewis iaith. Mae Ufi

Limited and the Welsh Language Board are addressing this matter. The Assembly will want to keep this under active review. I am certain that the Post-16 Education and Training Committee would want to ensure that we do not deny access to people irrespective of their language. We will keep that issue under constant review and I will address it with Ufi as a matter of some urgency. Ufi Limited is acutely aware of those needs and is addressing the issues.

Cyfyngedig a Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn rhoi sylw i'r mater hwn. Bydd ar y Cynulliad eisiau cadw golwg weithredol ar hyn. Yr wyf yn siŵr y bydd y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 eisiau sicrhau nad ydym yn gwrthod mynediad i bobl waeth beth yw eu hiaith. Byddwn yn cadw llygad cyson ar y pwnc hwnnw a byddaf yn rhoi sylw iddo gyda'r Brifysgol i Ddiwydiant fel mater o gryn frys. Mae Ufi Cyfyngedig yn hynod ymwybodol o'r anghenion hynny ac mae'n rhoi sylw i'r problemau.

Cyllid Refeniw ar gyfer Theatrau Revenue Funding for Theatres

Q2 Kirsty Williams: What percentage of those adjudicating on grant applications to the Arts Council of Wales for revenue funding for theatres are from Brecon and Radnor? (OAQ5133)

C2 Kirsty Williams: Pa ganran o'r bobl sydd yn cloriannu'r ceisiadau i Gyngor Celfyddydau Cymru am gyllid refeniw ar gyfer theatrau sydd yn dod o Frycheiniog a Maesyfed? (OAQ5133)

Tom Middlehurst: All decisions on revenue grants for regularly funded clients, including theatres, are taken at meetings of the full Arts Council. Regrettably, the Council has no members from Brecon and Radnor. Members of the Arts Council are appointed to take an all-Wales viewpoint and to bring their experience and expertise to bear when grant awards are considered. They are not appointed to act as delegates for certain areas. I am confident that the newly-constituted council will be sufficiently professional and objective to look after the needs of all of Wales between now and the time when further members are appointed.

Tom Middlehurst: Gwneir pob penderfyniad am grantiau refeniw i gleientau a gyllidir yn rheolaidd, gan gynnwys theatrau, yng nghyfarfodydd llawn Cyngor y Celfyddydau. Yn anffodus, nid oes gan y Cyngor aelodau o Frycheiniog a Maesyfed. Penodir aelodau Cyngor y Celfyddydau i sicrhau safbwynt sydd yn cwmpasu Cymru gyfan ac i ddefnyddio eu profiad a'u harbenigedd wrth ystyried grantiau. Nid ydynt yn cael eu penodi i weithredu fel dirprwyon i ardaloedd penodol. Yr wyf yn ffyddiog y bydd y cyngor, gyda'i gyfansoddiad newydd, yn ddigon proffesiynol a gwrthrychol i ofalu am anghenion pawb yng Nghymru rhwng nawr â'r adeg pan benodir aelodau pellach.

2:20 p.m.

Kirsty Williams: In your opinion, did that board act competently and professionally when it turned down an application by the Brecon Jazz Festival Committee for a one-off emergency grant of £10,000 to ensure that the Brecon Jazz Festival could go ahead this year? That festival is one of Wales's, if not Europe's, premier musical events and brings tremendous cultural and economic benefits not just to my constituency, but to the whole of Wales.

Kirsty Williams: Yn eich barn chi, a weithredodd y bwrdd hwnnw yn gymwys ac yn broffesiynol pan wrthododd gais gan Bwyllgor Gŵyl Jazz Aberhonddu am grant brys unwaith ac am byth o £10,000 i sicrhau y gellid bwrw ymlaen i gynnal Gŵyl Jazz Aberhonddu eleni? Mae'r ŵyl yn un o brif ddigwyddiadau cerddorol Cymru, os nad Ewrop, ac mae'n dod â manteision economaidd a diwylliannol enfawr nid yn unig i'm hetholaeth i, ond i Gymru gyfan.

Tom Middlehurst: I agree that the jazz festival is a worthy project and I wish it well. It is enormously successful. However, these matters are, rightly, for the Arts Council of Wales to decide upon. It must make the artistic judgments and assess grant applications on merit. I am not in a position to intervene in that process, because I am not aware of the circumstances that led to that decision. However, I share your opinion that it is a worthy event and I hope that it will continue to provide that much-needed extra dimension to social and cultural life in Wales.

Glyn Davies: I accept that you cannot have representatives from every constituency taking a view. However, will you guarantee that there will be a fair balance of people—with experience of rural areas in particular—on the board?

Tom Middlehurst: Yes. For that reason, I have chosen to make only eight appointments although there are 13 vacancies. We are seeking five further appointments to the Arts Council of Wales. I encourage candidates from north Wales, south-west Wales, Powys and the Valleys to come forward. I hope that they will do so urgently so as to give a good, broad spread of representation on the Arts Council of Wales, both geographically and in sectoral interests.

Pauline Jarman: It is clear from all this that adjudication decisions taken by public bodies need to be justified and explained to the organisations and individuals involved. The Arts Council neglected to do that recently when awarding its new writing franchise. No satisfactory explanation was given to Made in Wales, which lost out on that franchise. Will the Secretary ensure that the Arts Council of Wales and other public bodies improve their systems of clarifying decisions by calling on them to produce all relevant documentation relating to adjudication on request?

Tom Middlehurst: I share the view that the

Tom Middlehurst: Cytunaf fod yr ŵyl jazz yn brosiect gwerth chweil a dymunaf yn dda iddi. Mae'n llwyddiannus dros ben. Fodd bynnag, materion i Gyngor Celfyddydau Cymru benderfynu yn eu cylch yw'r rhain, ac felly y dylai fod. Rhaid iddo farnu ar sail artistig ac asesu ceisiadau grant yn ôl eu haeddiant. Nid wyf mewn sefyllfa i ymyrryd yn y broses honno, oherwydd nid wyf yn ymwybodol o'r amgylchiadau a arweiniodd at y penderfyniad hwnnw. Fodd bynnag, rhannaf eich barn ei fod yn ddigwyddiad teilwng a gobeithiaf y bydd yn parhau i gynnig y dimensiwn ychwanegol hwnnw y mae cymaint o'i angen ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol Cymru.

Glyn Davies: Derbynïaf na allwch gael cynrychiolwyr o bob etholaeth yn rhoi barn. Fodd bynnag, a wnewch warantu y bydd cydbwysedd teg o bobl—gyda phrofiad o ardaloedd gwledig yn benodol—ar y bwrdd?

Tom Middlehurst: Gwnaf. Dyna pam y dewisais wneud wyth penodiad yn unig er bod 13 swydd. Yr ydym yn aros am bum penodiad ychwanegol i Gyngor Celfyddydau Cymru. Yr wyf yn annog ymgeiswyr o ogledd Cymru, de-orllewin Cymru, Powys a'r Cymoedd i ymgeisio. Gobeithiaf y gwnânt hynny ar fyrder fel bod gennym gynrychiolaeth dda ac eang ar Gyngor Celfyddydau Cymru, o ran daearyddiaeth a buddiannau sectoraidd.

Pauline Jarman: Mae'n eglur o hyn oll bod yn rhaid i benderfyniadau cloriannu cyrff cyhoeddus gael eu cyfiawnhau a'u hegluro i'r mudiadau a'r unigolion dan sylw. Ni wnaeth Cyngor y Celfyddydau hynny yn ddiweddar wrth ddyfarnu ei fasnachfrait ysgrifennu newydd. Ni roddwyd eglurhad boddhaol i Made in Wales, a gollodd y fasnachfrait honno. A wnaiff yr Ysgrifennydd sicrhau bod Cyngor Celfyddydau Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yn gwella eu systemau egluro penderfyniadau drwy alw arnynt i ddangos yr holl ddogfennau perthnasol sydd yn ymwneud â'r broses gloriannu ar gais?

Tom Middlehurst: Rhannaf y farn y dylai

Arts Council should justify its decisions and give feedback to organisations about them. Whether it is appropriate to disclose the documentation is another matter. There may well be commercial interests to consider. However, I share the view that the Arts Council should be open and transparent in conducting its business. It needs credibility among its client group.

Cyngor y Celfyddydau gyfiawnhau ei benderfyniadau a rhoi adborth i fudiadau yn eu cylch. Mater arall yw a yw hi'n briodol datgelu'r dogfennau. Gallai bod buddiannau masnachol i'w hystyried. Fodd bynnag, yr wyf yn rhannu'r farn y dylai Cyngor y Celfyddydau fod yn agored a thryloyw yn ei drafodion busnes. Mae'n rhaid iddo sicrhau hygredd ymysg ei grŵp o gleientau.

Ffioedd Addysg Tuition Fees

Q3 Alun Cairns: What assessment has Tom Middlehurst made of the impact of tuition fees in Wales? (OAQ5119)

C3 Alun Cairns: I ba raddau y mae Tom Middlehurst wedi asesu effaith ffioedd dysgu yng Nghymru? (OAQ5119)

Tom Middlehurst: This ground has been well and truly covered on several occasions, as Alun knows. Responsibility for tuition fees and student support policy rests with the Department for Education and Employment. It is not a devolved matter. The Government believes that the higher education student support system works well and that the numbers going to university are holding up well. The Government made a commitment, however—and David Blunkett has delivered that commitment in several areas—to monitor the new funding arrangements. Several additional support measures have been put in place with the aim of providing more help to those students who have greater support needs.

Tom Middlehurst: Mae'r pwnc hwn wedi ei hen drin a'i drafod sawl gwaith o'r blaen, fel y gwyr Alun. Mae'r cyfrifoldeb dros ffioedd dysgu a pholisi cefnogi myfyrwyr yn eiddo i'r Adran Addysg a Chyflogaeth. Nid yw'n fater sydd wedi'i ddatganoli. Cred y Llywodraeth fod y system cefnogi myfyrwyr addysg uwch yn gweithio'n dda a bod y niferoedd sydd yn mynd i brifysgol yn cael eu cynnal yn dda. Fodd bynnag, ymrwymodd y Llywodraeth—ac mae David Blunkett wedi cyflawni'r ymrwymiad hwnnw mewn sawl maes—i fonitro'r trefniadau cyllido newydd. Rhoddwyd sawl mesur cefnogi ychwanegol mewn grym gyda'r nod o gynnig rhagor o gymorth i'r myfyrwyr hynny sydd â mwy o anghenion cefnogi.

Alun Cairns: Even though Tony Blair assured us before the last general election that Labour had no plans to introduce tuition fees for higher education, students in this country have been hit by a double whammy, with not only the introduction of tuition fees, but the abolishment of maintenance grants. The figures for—

Alun Cairns: Er i Tony Blair ein sicrhau cyn yr etholiad cyffredinol diwethaf nad oedd gan Lafur unrhyw fwriad i gyflwyno ffioedd dysgu ar gyfer addysg uwch, mae myfyrwyr yn y wlad hon wedi eu taro ddwywaith, nid yn unig pan gyflwynwyd ffioedd dysgu, ond hefyd pan ddiddymwyd grantiau cynnal. Mae'r ffigurau ar gyfer—

The Presiding Officer: Order. I would like a question, please.

Y Llywydd: Trefn. Hoffwn gwestiwn, os gwelwch yn dda.

Alun Cairns: The number of applications to higher education establishments has fallen this year for the second year running. What announcement can you make, Secretary, that will support that, and will you condemn the Government for introducing tuition fees?

Alun Cairns: Mae'r nifer sydd yn gwneud cais i sefydliadau addysg uwch wedi gostwng eleni am yr ail flwyddyn yn olynol. Pa gyhoeddiad allwch chi ei wneud, Ysgrifennydd, a fydd yn cefnogi hynny ac a wnewch gondemnio'r Llywodraeth am

gyflwyno ffioedd dysgu?

Tom Middlehurst: It is far too early to predict the likely number of students this year as we are in the early stages. I would reserve my judgment and I suggest that you do the same. The evidence from last year was that student numbers were holding up well. The Government's policy shares the cost of higher education fairly between students, their families and taxpayers. We should remember that taxpayers shoulder the major burden. Students from well-off families do not have to pay for students from less well-off families—they do not pay their tuition fees, as you well know—and all students benefit from a fairer system of repaying loans that relates payments directly to income. The system is working effectively.

Michael German: The Cubie report in Scotland is relevant to us in Wales, as we share the same concerns. The result of that report, which produced the same recommendations for the United Kingdom as a whole, was to end tuition fees. What are you prepared to do about student poverty? Are you prepared to introduce a residential bursary scheme as has been introduced in England so that young people in Wales will not be kept out of colleges because they cannot afford to go to them, particularly agricultural colleges in Wales?

Tom Middlehurst: As you well know, the Cubie report was commissioned by the Scottish Parliament and it is a matter for Scotland. That function has not been devolved to the National Assembly for Wales and, therefore, it has no relevance to our needs. We need to assess how we can best assist students into higher education. Several measures have been put in place to do that, such as the support arrangements that were rolled out by David Blunkett recently. They provide support for socially disadvantaged people and mature students. I welcome those decisions. It works well in Wales. However, I will take the opportunity to review the Assembly's discretion with regard to the use

Tom Middlehurst: Mae'n llawer rhy gynnar i ddarogan nifer tebygol y myfyrwyr eleni gan ein bod yn y cyfnod cynnar. Buaswn yn oedi cyn mynegi barn ac yn awgrymu eich bod chithau yn gwneud yr un peth. Y dystiolaeth y llynedd oedd fod niferoedd myfyrwyr yn cael eu cynnal yn dda. Mae polisi'r Llywodraeth yn rhannu cost addysg uwch yn deg rhwng myfyrwyr, eu teuluoedd a threthdalwyr. Dylem gofio mai trethdalwyr sydd yn ysgwyddo'r baich mwyaf. Nid oes raid i fyfyrwyr o deuluoedd breintiedig dalu am fyfyrwyr o deuluoedd llai breintiedig—nid ydynt yn talu eu ffioedd dysgu, fel y gwyddoch yn iawn—ac mae pob myfyriwr yn manteisio ar system decach o ad-dalu benthyciadau sydd yn gwneud cysylltiad uniongyrchol rhwng taliadau ac incwm. Mae'r system yn gweithio'n effeithiol.

Michael German: Mae adroddiad Cubie yn yr Alban yn berthnasol inni yng Nghymru, gan ein bod yn rhannu'r un pryderon. Canlyniad yr adroddiad hwnnw, a gynigiai'r un argymhellion ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan, oedd diddymu ffioedd dysgu. Beth yr ydych yn bwriadu ei wneud ynglŷn â thlodi ymysg myfyrwyr? A ydych yn barod i gyflwyno cynllun bwrsariaethau preswyl fel sydd wedi ei gyflwyno yn Lloegr fel na fydd pobl ifanc yng Nghymru yn cael eu cadw allan o golegau am na allant fforddio mynd iddynt, yn enwedig colegau amaethyddol yng Nghymru?

Tom Middlehurst: Fel y gwyddoch yn dda, comisiynwyd adroddiad Cubie gan Senedd yr Alban a mater i'r Alban ydyw. Ni chafodd y swyddogaeth honno ei datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac, felly, nid yw'n berthnasol i'n hanghenion. Mae'n rhaid inni asesu beth yw'r ffordd orau inni gynorthwyo myfyrwyr i fynd i mewn i addysg uwch. Rhoddwyd sawl mesur mewn grym i wneud hynny, fel y trefniadau cefnogi a gyhoeddwyd gan David Blunkett yn ddiweddar. Maent yn cefnogi pobl sydd yn wynebu anfantais gymdeithasol a myfyrwyr hŷn. Yr wyf yn croesawu'r penderfyniadau hynny. Mae'n gweithio'n dda yng Nghymru. Fodd bynnag, byddaf yn cymryd y cyfle i

of access funds, in providing additional support for potential higher education students.

Jocelyn Davies: We know from your many previous answers that student fees is not a matter for the Assembly. However, as the Post-16 Education and Training Committee is soon to review higher education in Wales, is the Secretary eager to use that review to get to grips with crucial issues including student finance?

Tom Middlehurst: The review of higher education in Wales will be an extremely important task for the Subject Committee and I am sure that the National Assembly for Wales looks forward to its report. Part of that review is to include the issue of student support and tuition fees. I look forward with interest to the outcome of that investigation.

adolygu disgresiwn y Cynulliad yng nghyswllt defnyddio cronfeydd mynediad, i roi cefnogaeth ychwanegol i ddarpar fyfyrwyr addysg uwch.

Jocelyn Davies: Gwyddom yn sgîl eich llu o atebion blaenorol nad yw ffioedd myfyrwyr yn fater i'r Cynulliad. Fodd bynnag, gan y bydd y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 yn adolygu addysg uwch yng Nghymru cyn bo hir, a yw'r Ysgrifennydd yn awyddus i ddefnyddio'r adolygiad hwnnw i fynd i'r afael â materion hanfodol gan gynnwys cyllid myfyrwyr?

Tom Middlehurst: Bydd adolygu addysg uwch yng Nghymru yn dasg hynod o bwysig i'r Pwyllgor Pwnc ac yr wyf yn siŵr fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn edrych ymlaen at ei adroddiad. Bydd rhan o'r adolygiad hwnnw yn cynnwys cefnogaeth i fyfyrwyr a ffioedd dysgu. Edrychaf ymlaen yn eiddgar at ganlyniad yr archwiliad hwnnw.

Cymorth i Brifysgolion Cymru Aid for Welsh Universities

Q4 Peter Rogers: What assistance is Tom Middlehurst providing to aid Welsh universities in the forthcoming research assessment exercise? (OAQ4974)

Tom Middlehurst: The research assessment exercise to which Peter refers—the last one was conducted in 1996 and it is a four yearly review—showed significant improvements, with increased high ratings in Wales. However, it has been a matter of longstanding concern that the level of research council income obtained by Welsh higher education institutions is lower than would be expected from the size of the sector and, indeed, the quality of its research output, with the consequent implications for research in Wales to compete nationally and internationally.

Peter Rogers: Will you comment on the proposed scheme to omit university departments from every other assessment if they are regularly rated at five or five star plus?

C4 Peter Rogers: Pa gymorth y mae Tom Middlehurst yn ei roi i brifysgolion Cymru ar gyfer yr ymarferiad asesu ymchwil sydd ar ddod? (OAQ4974)

Tom Middlehurst: Dangosai'r ymarferiad asesu ymchwil y cyfeiria Peter ato—cynhaliwyd y diwethaf yn 1996 a chaiff ei adolygu bob pedair blynedd—welliannau sylweddol, gyda rhagor o raddau uchel yng Nghymru. Fodd bynnag, bu pryder ers tro bellach bod lefel yr incwm a roddir gan y cyngor ymchwil i sefydliadau addysg uwch Cymru yn is nag a ddisgwylid o ystyried maint y sector ac, yn wir, ansawdd ei gynnyrch ymchwil, gyda'r goblygiadau sydd yn deillio o hynny i ymchwil yng Nghymru gystadlu yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Peter Rogers: A wnewch sylw ynglŷn â'r cynllun arfaethedig i hepgor adrannau prifysgol o bob ail asesiad os y rhoddir gradd pump neu bump serennog a mwy iddynt yn rheolaidd?

Tom Middlehurst: I referred to the improvement gains that have been made in Wales and they are significant. The number of departments in the University of Wales' colleges receiving top ratings, which is grade 5, has risen since 1992 from seven to 21. That is a substantial increase. Three of those have attracted the prestigious five star rating and that is to their enormous credit. Also, the number of departments achieving grade 4 has increased from 25 to 39. There are striking improvements in this area. We want to ensure that we receive a better proportion of the grant than we currently do from research councils; we currently receive less than 4 per cent. We want a proportion that is commensurate at least with the population of Wales in terms of the United Kingdom.

Phil Williams: I am sure that you are aware that almost all the major research institutes and laboratories supported by Government-funded research councils are in the south-east of England, which is a huge disadvantage to research groups in Welsh universities. No research council has ever taken the initiative to set up any major institute with its headquarters in Wales. As a result, we have a lower level of spending. Are you prepared to make a strong case to the Parliamentary Office of Science and Technology that in future this factor will be recognised in the location of new Government funded laboratories, with consideration given to locating in Wales? Will you also ensure that the Higher Education Funding Council for Wales is fully aware of this major handicap in assessing the results of the research assessment exercise?

2:30 p.m.

Tom Middlehurst: We need to learn the lessons of that review. I want to see major research institutions in Wales. We must prove our worth. I will press the case for Wales and on behalf of Wales. I welcome your comments today.

Tom Middlehurst: Cyfeiriaais at y gwelliannau a wnaethpwyd yng Nghymru ac maent yn sylweddol. Mae nifer yr adrannau yng ngholegau Prifysgol Cymru sydd yn derbyn y radd uchaf, sef gradd 5, wedi codi ers 1992 o saith i 21. Mae hyn yn gynydd sylweddol. Mae tri o'r rheini wedi ennill y radd pum seren mawr ei bri ac mae hynny'n glod mawr iddynt. Hefyd, mae nifer yr adrannau sydd yn ennill gradd 4 wedi cynyddu o 25 i 39. Gwelwyd gwelliannau syfrdanol yn y maes hwn. Mae arnom eisiau sicrhau ein bod yn derbyn cyfran well o grant cyngorau ymchwil nag yr ydym ar hyn o bryd; ar hyn o bryd yr ydym yn derbyn llai na 4 y cant. Mae arnom eisiau cyfran sydd yn gymesur o leiaf gyda phoblogaeth Cymru yng nghyswllt y Deyrnas Unedig.

Phil Williams: Yr wyf yn siŵr eich bod yn gwybod bod bron yr holl brif sefydliadau a labordai ymchwil a gefnogir gan gynghorau ymchwil a gyllidir gan y Llywodraeth wedi'u lleoli yn ne-ddwyrain Lloegr, sydd yn anfantais enfawr i grwpiau ymchwil ym mhrifysgolion Cymru. Ni fu unrhyw gyngor ymchwil erioed yn ddigon blaengar i sefydlu sefydliad mawr â'i bencadlys yng Nghymru. O ganlyniad, mae ein lefel gwariant yn is. A ydych yn barod i gyflwyno dadl gref i'r Swyddfa Wyddoniaeth a Thechnoleg yn San Steffan bod y ffactor hwn yn cael ei gydnabod yn y dyfodol wrth leoli labordai newydd a gyllidir gan y Llywodraeth, ac yr ystyrir lleoli yng Nghymru? A wnewch chi hefyd sicrhau bod Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn gwbl ymwybodol o'r anfantais fawr hon wrth asesu canlyniadau'r ymarferiad asesu ymchwil?

Tom Middlehurst: Mae'n rhaid inni ddysgu gwersi o'r adolygiad hwnnw. Yr wyf am weld sefydliadau ymchwil pwysig yng Nghymru. Mae'n rhaid inni brofi'n gwerth. Byddaf yn pwyso'r achos dros Gymru ac ar ran Cymru. Croesawaf eich sylwadau heddiw.

Cynnig o Gerydd Censure Motion

The Presiding Officer: We now move to a censure motion against the Secretary for Agriculture and Rural Development. I will limit each speech to five minutes.

Nick Bourne: I propose the motion in my name and the names of David Davies, Jonathan Morgan, Peter Rogers, Alun Cairns, William Graham, David Melding and Glyn Davies.

This Assembly censures the Assembly Secretary for Agriculture and Rural Development for her failure to address the concerns of the National Assembly for Wales, by failing to secure a GM-free environment

We have been here before. The Secretary for Agriculture and Rural Development has repeatedly let down Welsh farmers, the Assembly and Wales. It is time for her to go. Almost a year ago the Assembly voted for a moratorium on genetically modified releases in Wales on a motion I tabled—no growing of GM crops. What did she do to achieve this? Nothing.

We are all aware of the benefits of having a GM-free environment in Wales. The Agriculture and Rural Development Committee voted unanimously in favour of a GM-free Wales and Christine Gwyther said that she agreed. However, what did she do to achieve this? Nothing. She made trials all but inevitable by signing her approval of GM maize for trial in Wales. That was wrong. What is the point of having Subject Committees in the Assembly when their decisions on important issues are ignored by Assembly Secretaries?

She claims to have been led by the nose by her officials and her lawyers who told her

Y Llywydd: Symudwn yn awr at gynnig o gerydd yn erbyn yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Cyfyngaf bob araith i bum munud.

Nick Bourne: Cynigiaf y cynnig yn fy enw i ac yn enwau David Davies, Jonathan Morgan, Peter Rogers, Alun Cairns, William Graham, David Melding a Glyn Davies.

Bod y Cynulliad hwn yn ceryddu Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig am ei methiant i fynd i'r afael â phryderon Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy fethu â sicrhau amgylchedd heb gnydau a addaswyd yn enetig.

Yr ydym wedi bod yn y fan hon o'r blaen. Mae'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig wedi gadael ffermwyr Cymru, y Cynulliad a Chymru i lawr dro ar ôl tro. Mae'n amser iddi fynd. Bron i flwyddyn yn ôl pleidleisiodd y Cynulliad dros foratoriwm ar ryddhau hadau wedi'u haddasu'n enetig yng Nghymru mewn cynnig a gyflwynais i—na ddylid tyfu cnydau wedi'u haddasu'n enetig. Beth wnaeth hi i gyflawni hyn? Dim.

Yr ydym oll yn ymwybodol o fanteision amgylchedd heb gnydau a addaswyd yn enetig yng Nghymru. Pleidleisiodd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn unfrydol o blaid Cymru heb gnydau a addaswyd yn enetig a dywedodd Christine Gwyther ei bod yn cytuno. Fodd bynnag, beth wnaeth hi i gyflawni hyn? Dim. Sicrhodd fod treialon bron yn anochel drwy lofnodi ei chymeradwyaeth i'r treialon india-corn wedi'i addasu'n enetig yng Nghymru. Yr oedd hynny'n anghywir. Beth yw pwynt cael Pwyllgorau Pwnc yn y Cynulliad pan fo'u penderfyniadau am bynciau pwysig yn cael eu hanwybyddu gan yr Ysgrifenyddion Cynulliad?

Honna iddi gael ei harwain gerfydd ei thrwyn gan ei swyddogion a'i chyfreithwyr a

that Europe would not like us being GM free. That is not a proud boast but a sad admission of failure. It shows that she is not competent at her job.

Richard Edwards *rose*—

Nick Bourne: I am sorry, Richard. I anticipated that you would get up to help but I do not have enough time to take any interventions.

Richard Edwards: Point of order.

The Presiding Officer: I will take a point of order at the end of the debate.

Nick Bourne: It shows that she is not fulfilling her responsibilities and is unwilling to stand up for what Wales really wants. We want decisive action, something of which Christine Gwyther has proved that she is not capable. The Environment Commissioner in Europe this week stated that Wales could go it alone. I have had confirmation from the Austrian Embassy this morning that Austria has no field trials for GM crops. I believe the position is the same in Tuscany. The last time I looked they were in the European Union. Did she go to Brussels? No. Did she speak to Austria? No. Did she speak to Tuscany? No. She has signed us up unnecessarily to a policy that we do not want, a policy rural Wales does not want and a policy she says she does not want—quite a triple whammy.

We do not need a Secretary for Agriculture and Rural Development who sits in Cardiff routinely doing what officials tell her, whether the officials are here, in Westminster or in Europe. We need a tiger or tigress fighting for Wales. Through her incompetence and her unwillingness to fight Wales's corner we have now perhaps lost forever a GM-free Wales. What a legacy she will leave. Even at the eleventh hour she could have spoken to the farmer in Flintshire. Did she do so? No. Apparently, in the

ddywedodd wrthi na fyddai Ewrop yn hoffi inni fod yn rhydd rhag addasu genetig. Nid ymfrost balch yw hyn ond cyfaddefiad trist o fethiant. Dengys nad yw hi'n gallu gwneud ei swydd.

Richard Edwards *a gododd*—

Nick Bourne: Mae'n ddrwg gennyf, Richard. Rhagwelais y byddech yn codi i helpu ond nid oes gennyf ddigon o amser i dderbyn ymyriadau.

Richard Edwards: Pwynt o drefn.

Y Llywydd: Derbyniat bwynt o drefn ar ddiwedd y ddadl.

Nick Bourne: Dengys nad yw hi'n cyflawni ei chyfrifoldebau a'i bod yn amharod i sefyll dros yr hyn y mae Cymru wirioneddol ei eisiau. Mae arnom eisiau gweithredu pendant, rhywbeth y mae Christine Gwyther wedi profi na all ei gyflawni. Dywedodd Comisiynydd yr Amgylchedd yn Ewrop yr wythnos hon y gallai Cymru fynd ei ffordd ei hun. Yr wyf wedi derbyn cadarnhad gan Lysgenhadaeth Awstria y bore yma nad yw Awstria yn cynnal unrhyw dreialon yn y cae ar gyfer cynydau wedi'u haddasu'n enetig. Credaf mai'r un yw'r sefyllfa yn Nhwsгани. Y tro diwethaf imi edrych yr oeddent yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd. A aeth hi i Frwsel? Naddo. A siaradodd hi ag Awstria? Naddo. A siaradodd hi â Thwsгани? Naddo. Mae hi wedi ein clymu'n ddiangen wrth bolisi nad oes arnom mo'i eisiau, polisi nad yw'r Gymru wledig mo'i eisiau a pholisi y dywed hi nad oes arni mo'i eisiau—tipyn o goron driphlyg.

Nid oes angen Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig arnom sydd yn eistedd yng Nghaerdydd gan wneud yr hyn y dywed swyddogion wrthi am ei wneud fel mater o drefn, boed y swyddogion hynny yma, yn San Steffan neu yn Ewrop. Mae angen teigr, neu deigres arnom sydd yn ymladd dros Gymru. Drwy ei hanallu a'i hamharodrwydd i ymladd dros Gymru efallai ein bod bellach wedi colli am byth Gymru sydd yn rhydd rhag addasu genetig. Dyna ichi etifeddiaeth y bydd yn ei gadael ar ôl. Hyd yn oed ar yr

curious language of her department, this would have been persecution. How much longer do we have to endure this situation, this negligence and the bungling incompetence of the Secretary for Agriculture and Rural Development?

Let me turn briefly to the other parties: they only deserve a brief notice. I implore them to think again. That sad excuse for an opposition party—the Nationalists—apparently believe that censure motions strengthen the position of incompetent ministers and makes them immune from attack. Therefore, can we look forward to them tabling censure motions against ministers they believe to be competent? It beggars belief. They must think again. Failure to vote for this censure motion means just that: you do not censure the Secretary for Agriculture and Rural Development.

I also ask the Liberal Democrats to think again. They made their minds up yesterday on how to vote. I do not know how a serious political party can take nearly a week to decide on such a simple issue of principle. Perhaps in using the word 'serious', I have answered my own question. Censure motions exist as a means for Assembly Members to voice their dissatisfaction with an Assembly Secretary's performance. The nationalists and the Liberal Democrats have publicly stated that they feel that Christine Gwyther is incompetent. Why not do that through official channels by supporting this motion? Otherwise, we will have to tolerate this position indefinitely. We need a Secretary for Agriculture and Rural Development who can fight for Welsh farmers, fight for this Assembly and fight for Wales. Her reputation is in tatters. She should go and she should go now.

Jocelyn Davies: If the Welsh Conservatives think that they can persuade us to support them by trading insults, they will have to think again. The issue of genetically

unfed awr ar ddeg gallai fod wedi siarad â'r ffermwyr yn Sir y Fflint. A wnaeth hi hynny? Naddo. Yn ôl pob tebyg, yn iaith ryfedd ei hadran, byddai hyn wedi bod yn erledigaeth. Faint yn hwy sydd yn rhaid inni ddiodeff y sefyllfa hon, yr esgeulustod hwn ac anallu trwsogl yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig?

Gadewch imi droi yn gyflym at y pleidiau eraill: nodyn byr yn unig y maent yn ei haeddu. Pwysaf arnynt i ailfeddwl. Yn ôl pob tebyg, cred yr esgus tila am wrthblaid—y Cenedlaetholwyr—fod cynigion o gerydd yn cryfhau sefyllfa gweinidogion anghymwys a'u gwneud yn ddiogel rhag ymosodiadau. Felly, a allwn edrych ymlaen at eu gweld hwy yn cyflwyno cynigion o gerydd yn erbyn gweinidogion y credant sydd yn gymwys? Mae'n anghredadwy. Rhaid iddynt ailfeddwl. Mae methu â phleidleisio dros y cynnig o gerydd hwn yn golygu yn union hynny: nid ydych yn ceryddu'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.

Gofynnaf hefyd i'r Democratiaid Rhyddfrydol ailfeddwl. Penderfynasant ddoe sut yr oeddent am bleidleisio. Ni wn sut y gall plaid wleidyddol ddifrifol gymryd bron i wythnos i benderfynu ar fater o egwyddor mor syml. Efallai fy mod wedi ateb fy nghwestiwn fy hun wrth ddefnyddio'r gair 'difrifol'. Mae cynigion o gerydd yn bodoli fel ffordd i Aelodau'r Cynulliad leisio eu hanfodlonrwydd â pherfformiad un o Ysgrifenyddion y Cynulliad. Mae'r cenedlaetholwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi datgan yn gyhoeddus y teimlant fod Christine Gwyther yn anghymwys. Pam na wnânt hynny drwy'r sianelau swyddogol drwy gefnogi'r cynnig hwn? Fel arall, bydd yn rhaid inni ddiodeff y sefyllfa hon am gyfnod amhenodol. Mae angen Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig arnom a all ymladd dros ffermwyr Cymru, ymladd dros y Cynulliad hwn ac ymladd dros Gymru. Mae ei henw da yn llwch. Dylai fynd a dylai fynd yn awr.

Jocelyn Davies: Os cred Ceidwadwyr Cymru y gallant ein darbwyllo i'w cefnogi drwy fwrw sen arnom, bydd yn rhaid iddynt feddwl eto. Mae'r pwnc o organebau wedi'u

modified organisms has been a catalogue of disappointment and embarrassment for this Government. The latest episode with the Department of the Environment, Transport and the Regions and the company Aventis, which resulted in the planting of GM crops as part of trials in Flintshire continues the Government's bungling on the issue. It leaves us confused as to where the Government stands. Questions and uncertainties hang over the role of the DETR in this matter. The basic mistake of not knowing where the border lies between England and Wales is bizarre for one of the largest Government departments in Britain. Or is there a more sinister motive to its actions? Did it decide that trials could go ahead in Wales irrespective of the will of the Welsh Government, the Assembly and the Welsh public? Christine said recently that the DETR has to be reminded of devolution. Peter Law said that the DETR sometimes seem to feel that devolution is below their radar screens. On the issue of GMOs in Wales, the DETR has at best been incompetent and, at worst, it has shown arrogance and has deliberately ignored the Assembly's will. The actions of that department, however, do not excuse the failures of this Government. It should be a priority for the DETR to ensure that the Assembly's will is not dismissed and overlooked by other bodies.

In June 1999, when the majority of Assembly Members voted in favour of a motion to control the commercial release of GM crops, Christine said that she understood those concerns. She later reiterated her concerns in stronger language:

'I certainly have problems with GM, in that I think to have a GM-free Wales would be a wonderful opportunity for Welsh produce, and I have always made that quite clear'.

haddasu'n enetig wedi bod yn gyfres o siomedigaethau ac embaras i'r Llywodraeth hon. Mae'r bennod ddiweddaraf gydag Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau a'r cwmni Aventis, a arweiniodd at blannu cynydau wedi'u haddasu'n enetig fel rhan o dreialon yn Sir y Fflint yn parhau'r llanast y mae'r Llywodraeth yn ei wneud o'r mater. Mae'n ein gadael mewn penbleth ynglŷn â safbwynt y Llywodraeth. Mae cwestiynau ac amheuon yn codi ynghylch rôl Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau yn y mater hwn. Mae'r camgymeriad sylfaenol o beidio â gwybod lle mae'r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn un hynod i un o'r adrannau Llywodraeth mwyaf ym Mhrydain. Neu a oes cymhelliad mwy sinistr i'w gweithredoedd? A benderfynodd y gallai'r treialon fynd rhagddynt yng Nghymru er gwaethaf ewyllys Llywodraeth Cymru, y Cynulliad a'r cyhoedd yng Nghymru? Dywedodd Christine yn ddiweddar bod yn rhaid atgoffa Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau o ddatganoli. Dywedodd Peter Law yr ymddengys weithiau bod yr adran honno yn teimlo bod datganoli islaw lefel eu sgrîn radar. Ynglŷn ag organebau wedi'u haddasu'n enetig yng Nghymru, mae Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau wedi bod ar y gorau yn anghymwys ac, ar y gwaethaf, mae wedi bod yn drahaus ac wedi anwybyddu ewyllys y Cynulliad yn fwriadol. Fodd bynnag, nid yw gweithredoedd yr adran yn esgusodi methiannau'r Llywodraeth hon. Dylai fod yn flaenoriaeth i Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau sicrhau nad yw ewyllys y Cynulliad yn cael ei ddiystyru a'i anwybyddu gan gyrff eraill.

Ym Mehefin 1999, pan bleidleisiodd y rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad o blaid cynnig i reoli rhyddhau cynydau wedi'u haddasu'n enetig yn fasnachol, dywedodd Christine ei bod yn deall y pryderon hynny. Ategodd ei phryderon yn nes ymlaen mewn iaith gryfach:

'Yn sicr mae gennyf broblemau gyda chnydau wedi'u haddasu'n enetig, yn yr ystyr y credaf y byddai sicrhau Cymru sydd yn rhydd o gnydau wedi'u haddasu'n enetig yn

gyfle rhagorol i gynnyrch Cymru, ac yr wyf bob amser wedi gwneud hynny'n gwbl glir'.

It was not clear enough for the DETR. To give the impression that we can create a GM-free Wales now is so superficial as to be silly. Shortly after that declaration, she decided to ignore the Agriculture and Rural Development Committee's advice despite requesting it. She decided that the GM maize, Chardon LL, should be placed on the national seed list. She gave that approval because she felt that the seed was safe on environmental and health grounds. She said that her decision was based on scientific fact. It is rather ironic that these trials involve that same seed. If the seed is scientifically safe, why are these trials taking place? Are there continuing doubts? The truth is that we do not know what the impact of this crop will be on the environment. If Christine is truly of the opinion that the seed is totally safe to the environment and to human health, why is she so reluctant for a trial to go ahead? There is hypocrisy in the fact that she believes the seed is safe but is only willing for our English neighbours to take the risk of growing it. That makes us bad neighbours and has racist connotations.

Not all of this is entirely Christine's fault. This latest episode has shown more incompetence on the DETR's part than anybody else. However, it seems that the Government is in a policy vacuum over the issue of GMOs. I am sorry that the First Secretary has more pressing business elsewhere today than to defend his Secretary for Agriculture and Rural Development. The Government has yet to explain how the placing of a GM seed on the national list and allowing GM field trials affects our long term sustainable farming strategy of promoting Welsh food products as being natural, safe and environmentally friendly. It is time for the Government to clarify its position. Plaid Cymru does not regard it as a censure matter. Censure motions are serious and should be used sparingly. When a

Nid oedd yn ddigon clir i Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau. Mae'r syniad o roi'r argraff y gallwn greu Cymru sydd yn rhydd rhag addasu genetig bellach mor arwynebol nes ei fod yn hurt. Yn fuan wedi'r datganiad hwnnw, penderfynodd anwybyddu cyngor y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig er iddi ofyn amdano. Penderfynodd y dylid rhoi'r india-corn wedi'i addasu'n enetig, Chardon LL, ar y rhestr hadau genedlaethol. Cymeradwyodd hynny oherwydd teimlai fod yr hedyn yn ddiogel o safbwynt iechyd a'r amgylchedd. Dywedodd fod ei phenderfyniad yn seiliedig ar ffeithiau gwyddonol. Mae ychydig yn eironig bod y treialon hyn yn cynnwys yr un hedyn. Os yw'r hedyn yn wyddonol ddiogel, pam fod y treialon hyn yn digwydd? A oes amheuan yn parhau? Y gwir yw nad ydym yn gwybod beth fydd dylanwad y cnwd hwn ar yr amgylchedd. Os yw Christine wirioneddol o'r farn fod yr hedyn yn gwbl ddiogel i'r amgylchedd ac i iechyd pobl, pam ei bod mor gyndyn i'r treial ddigwydd? Mae'r ffaith ei bod yn credu bod yr hedyn yn ddiogel ond ei bod ond yn barod i'n cymdogion yn Lloegr gymryd y risg o'i dyfu yn rhagrithiol. Mae hynny'n ein gwneud yn gymdogion gwael ac mae iddo oblygiadau hiliol.

Nid ar Christine y mae'r bai i gyd am hyn. Mae'r bennod ddiweddaraf hon wedi dangos mwy o fethiant ar ran Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau nag unrhyw un arall. Fodd bynnag, ymddengys bod y Llywodraeth mewn gwagle polisi dros organebau wedi'u haddasu'n enetig. Mae'n ddrwg gennyf fod gan y Prif Ysgrifennydd fusnes pwysicach yn rhywle arall heddiw nag amddiffyn ei Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Mae'r Llywodraeth eto i egluro sut mae rhoi hedyn wedi'i addasu'n enetig ar y rhestr genedlaethol a chaniatáu treialon cae i gnydau wedi'u haddasu'n enetig yn effeithio ar ein strategaeth ffermio cynaliadwy tymor hir i hybu cynnyrch bwyd Cymru fel cynnyrch naturiol, diogel ac amgylchedd-garedig. Mae'n amser i'r Llywodraeth wneud ei safbwynt yn glir. Ni

censure motion is passed, we expect the relevant Secretary to accept the verdict with dignity. I am concerned that censure should not be used to grab headlines. That distracts from the real issues and harms the public perception of the Assembly. We will not support the censure motion today. We call on the Government to make a statement on its position on genetically modified organisms to clear up any ambiguity.

chred Plaid Cymru ei fod yn fater ar gyfer cyflwyno cerydd. Mae cynigion o gerydd yn faterion difrifol a dylid eu defnyddio'n gynnil. Pan fo cynnig o gerydd yn cael ei basio, disgwylwn i'r Ysgrifennydd perthnasol dderbyn y dyfarniad gydag urddas. Yr wyf yn awyddus i sicrhau nad yw cynigion o gerydd yn cael eu defnyddio i dynnu sylw penawdau'r papurau newydd. Mae hynny'n tynnu sylw oddi wrth y gwir faterion ac yn niweidio argraff y cyhoedd o'r Cynulliad. Ni fyddwn yn cefnogi'r cynnig o gerydd heddiw. Galwn ar y Llywodraeth i wneud datganiad ynglŷn â'i safiad parthed addasu genetig er mwyn dileu unrhyw amwysedd.

2:40 p.m.

Michael German: I have five of these speeches: a filing cabinet full of censures and no confidence debates. I looked at them this morning and it is hard to come up with anything new to say. At least I am no different from Nick Bourne.

Michael German: Mae gennyf bump o'r areithiau hyn: cwpwrdd ffeilio yn llawn o gynigion o gerydd a dadleuon o ddiffyg hyder. Edrychais arnynt y bore yma ac mae'n anodd canfod unrhyw beth newydd i'w ddweud. O leiaf nid wyf yn wahanol i Nick Bourne.

This minority Government is not good at listening or standing up for Wales. The political instincts of Cabinet members have been found wanting repeatedly. Their actions defy justification and their incompetence is legendary, even beyond these borders. However, we have established that already. Christine Gwyther is still in charge of Welsh agriculture by dint of an astonishing affront to democracy. The motion we adopted in October has not been rescinded. What are the Conservatives adding to this debate? They are jumping on a GM bandwagon to grab a headline or two, with nothing new to say and nothing constructive to offer.

Nid yw'r Llywodraeth leiafrifol hon yn dda am wrando ar Gymru na dadlau ei hachos. Mae greddfau gwleidyddol aelodau'r Cabinet wedi bod yn eisiau dro ar ôl tro. Mae eu gweithredoedd yn amhosib eu cyfiawnhau a'u methiannau yn chwedlonol, hyd yn oed y tu hwnt i'r ffiniau hyn. Fodd bynnag, yr ydym wedi sefydlu hynny eisoes. Mae Christine Gwyther yn dal i fod â gofal dros amaethyddiaeth Cymru er sarhad rhyfeddol i ddemocratiaeth. Nid yw'r cynnig a dderbyniasom ym mis Hydref wedi ei ddiddymu eto. Beth mae'r Ceidwadwyr yn ei ychwanegu at y ddadl hon? Maent yn canlyn y llif addasiadau genetig er mwyn ennill pennawd neu ddau mewn papur newydd, heb unrhyw beth newydd i'w ddweud a dim adeiladol i'w gynbig.

We have a clear choice today about which way the Assembly wishes to go—in footballing terms, a choice whether to play the man or the ball, the policy or the person. There is no doubt that Christine should resign. However, Liberal Democrats prefer to tackle the issue. Nick Bourne avoids tackling the issue because, in Government, his

Mae gennym ddewis eglur heddiw ynglŷn â'r llwybr y dymuna'r Cynulliad ei ddilyn—mewn termau pêl-droed, dewis chwarae'r dyn neu chwarae'r bêl, y polisi neu'r person. Nid oes amheuaeth na ddylai Christine ymddiswyddo. Fodd bynnag, mae'n well gan y Democratiaid Rhyddfrydol fynd i'r afael â'r mater. Mae Nick Bourne yn osgoi mynd

Conservative colleagues did nothing to slow down the development of GM technology. They did nothing to recognise public concern. They were too busy building bypasses and prosecuting environmentalists. They failed to check multinationals such as Monsanto and Aventis. In fact, they flung open the door, arguing in Europe against the need for GM food labelling, depriving the public of their right to buy GM-free products while allowing British supermarkets to be flooded with GM cheese, purée and soya. I am surprised that they have not yet called for GM detention camps for bogus vegetables seeking asylum. More importantly, the Conservatives did nothing to prevent companies like Monsanto from patenting the terminator gene, which is designed for profit at the expense of life.

However, I welcome the Conservatives' common sense conversion on this issue. I applaud their aspiration for a GM-free Wales. I only wish that they had realised this four years ago, before the issue hit the headlines, before it was too late and before we had GM soya in almost every supermarket in the land. The UK's Conservative Government had the chance to make a stand at that time. We no longer have the option of a GM-free environment, as this motion states. We can ban the crops, which the Liberal Democrats in Wales are intent on doing. However, we can not turn back the clock. This motion does not recognise that simple fact. The Liberal Democrats do not accept this political opportunism. The handling of the Flintshire crop trial is unacceptable in anyone's eyes. Christine must take her fair share of the blame. However, the Assembly cannot forget that the villain of this piece is John Prescott, a man who, like all good Tories, never believed in devolution or proportional representation. He does not want the Assembly to work. He has breached his concordat with the Assembly by failing to notify or consult us about these trials. He is paying for them, monitoring them and authorising them without justification. After

i'r afael â'r mater oherwydd, pan oeddent mewn Llywodraeth, ni wnaeth ei gyd-Geidwadwyr unrhyw beth i arafu datblygiad technoleg addasu genetig. Ni wnaethant unrhyw beth i gydnabod pryder y cyhoedd. Yr oeddent yn rhy brysur yn adeiladu ffyrdd osgoi ac yn erlyn amgylcheddwyr. Methasant ag ymchwilio i gwmnïau amlwladol megis Monsanto ac Aventis. Yn wir, agorasant y drws led y pen, gan ddadlau yn Ewrop yn erbyn yr angen i labelu bwyd wedi'i addasu'n enetig, ac amddifadu'r cyhoedd o'r hawl i brynu cynnyrch heb ei addasu'n enetig tra'n caniatáu i archfarchnadoedd Prydain lenwi i'r ymylon â chaws, piwrî a soia wedi'u haddasu'n enetig. Synnaf nad ydynt wedi galw am wersylloedd carchar addasiadau genetig i lysiau ffug sydd yn ceisio lloches. Yn bwysicach, ni wnaeth y Ceidwadwyr unrhyw beth i atal cwmnïau fel Monsanto rhag rhoi patent y genyn dibennu sydd wedi'i gynllunio i elwa ar draul bywyd.

Fodd bynnag, croesawaf dröedigaeth y Ceidwadwyr at synnwyr cyffredin ar y mater hwn. Cymeradwyaf eu dyhead am Gymru sydd yn rhydd o addasu genetig. Ni allaf ond dymuno y byddent wedi sylweddoli hyn bedair blynedd yn ôl, cyn i'r mater daro penawdau'r papurau newydd, cyn ei bod yn rhy hwyr a chyn bod gennym soia wedi'i addasu'n enetig ym mron pob archfarchnad yn y wlad. Cafodd Llywodraeth Geidwadol y DU gyfle i wneud safiad ar yr adeg honno. Nid yw'r dewis o amgylchedd heb organebau wedi'u haddasu'n enetig yn agored inni bellach, fel y dywed y cynnig hwn. Gallwn wahardd y cnydau, fel y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru yn benderfynol o'i wneud. Fodd bynnag, ni allwn droi'r cloc yn ôl. Nid yw'r cynnig hwn yn cydnabod y ffaith syml honno. Nid yw'r Democratiaid Rhyddfrydol yn derbyn yr ymdrech hon i elwa'n wleidyddol. Mae'r modd y deliwyd â threialon cnydau Sir y Fflint yn annerbyniol yn ôl safonau unrhyw un. Rhaid i Christine dderbyn ei chyfran o'r bai. Fodd bynnag, ni all y Cynulliad anghofio mai'r drwg yn y caws yw John Prescott, dyn na chredodd erioed, fel pob Tori da, mewn datganoli na chynrychiolaeth gyfrannog. Nid yw eisiau i'r Cynulliad weithio. Mae wedi torri ei goncordat gyda'r Cynulliad drwy fethu â'n

devolution, this cannot be acceptable.

Christine, your challenge is to make good where you have failed, to stand up for the express wishes of the Assembly and to recognise that this is about politics and not about the law. If you support the motion that we will press through this Chamber next week, you will show your colleagues in Whitehall that the Assembly is not prepared to be undermined any more.

The Secretary for Agriculture and Rural Development (Christine Gwyther): I thank the speakers for their mixed contributions. A few decent things came out of the speeches, but not from Nick Bourne. I thank Rhodri Morgan for allowing me to respond to this censure motion. It is important that I do so. I will begin by setting the record straight. A couple of people in the second row have said on their rounds of television and radio stations that I led them up the garden path and used my considerable powers of persuasion and skills of rhetoric to mislead them into believing that the Assembly can guarantee a GM-free Wales. It is sad, is it not? In fact, Llywydd, the contrary is true, as anyone whose memory has not been genetically modified will know. I have consistently advised the Assembly that the powers to allow us to make the Welsh environment GM-free do not exist. A couple of speakers have mentioned the debate that we had on 29 June 1999. The Assembly debated a motion tabled in the name of Nick Bourne stating that Wales should take the lead in the control of genetically modified organisms and the commercial release of genetically modified crops. During that debate, I told Members—and I quote from the Official Record, as it is important that we do—

‘it would not be possible to impose a general moratorium on GM crops in Wales’.

I am not sure which part of that sentence

hysbysu o'r treialon hyn nac ymgynghori â ni yn eu cylch. Mae'n talu amdanynt, yn eu monitro ac yn eu hawdurdodi heb gyfiawnhad. Ar ôl datganoli, ni all hyn fod yn dderbyniol.

Christine, eich her chi yw unioni'r sefyllfaoedd lle'r ydych wedi methu, dadlau dros ddymuniadau'r Cynulliad a chydabod fod hyn yn ymwneud â gwleidyddiaeth ac nid â'r gyfraith. Os cefnogwch y cynnig y byddwn yn ei wthio drwy'r Siambr hon yr wythnos nesaf, byddwch yn dangos i'ch cydweithwyr yn Whitehall nad yw'r Cynulliad yn barod i gael ei danseilio rhagor.

Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther): Diolchaf i'r siaradwyr am eu cyfraniadau cymysg. Deilliodd rhai sylwadau teilwng o'r areithiau, ond nid gan Nick Bourne. Diolchaf i Rhodri Morgan am ganiatáu imi ymateb i'r cynnig hwn o gerydd. Mae'n bwysig fy mod yn gwneud hynny. Dechreuaf drwy gywiro'r ffeithiau. Mae ambell un o'r ail res wedi dweud ar deledu a radio imi eu camarwain a defnyddio fy mhwerau darbwyllo a'm sgiliau rhethregol sylweddol i'w camarwain i gredu y gall y Cynulliad warantu Cymru sydd yn rhydd o addasu genetig. Onid yw hynny'n drist? Mewn gwirionedd, Llywydd, y gwrthwyneb sydd yn wir, fel y gŵyr unrhyw un nad yw ei gof wedi ei addasu'n enetig. Yr wyf wedi dweud yn gyson wrth y Cynulliad nad ydym yn meddu ar y pwerau i'n caniatáu i wneud amgylchedd Cymru yn rhydd rhag addasu genetig. Mae ambell i siaradwr wedi sôn am y ddadl a gawsom ar 29 Mehefin 1999. Trafododd y Cynulliad gynnig a gyflwynwyd yn enw Nick Bourne yn datgan y dylai Cymru gymryd yr awenau o safbwynt rheoli organebau wedi'u haddasu'n enetig a rhyddhau cnydau wedi'u haddasu'n enetig yn fasnachol. Yn ystod y ddadl honno, dywedais wrth yr Aelodau—a dyfynnaf o'r Cofnod Swyddogol, fel mae'n bwysig inni ei wneud—

‘ni fyddai modd gorfodi moratoriwm cyffredinol ar gnydau a addaswyd yn enetig yng Nghymru’.

Nid wyf yn sicr pa ran o'r frawddeg a oedd

people found difficult to grasp. I repeat for Nick's benefit that I said that it would *not* be possible to impose a general moratorium on GM crops in Wales. That is the point that I made and I have had to repeat it over and over for Nick Bourne's benefit.

This point has consistently been made in papers and verbally to the Agriculture and Rural Development Committee. On 15 December, it was placed in a Committee paper, helpfully set out, according to Friends of the Earth, that it would not be possible. Furthermore, the Committee was informed in March that this particular form of GM maize—and it is coincidental that the two crops are the same—has a Part C European-wide approval. Therefore, it can be legally grown by Aventis across the European Union.

Mike German touched on why the crop can be legally grown, but I will go through it again. The key GM Directive on releases to the environment, Directive 90/220, was negotiated by the Conservative Government under Mrs Thatcher in 1990. It is this Conservative negotiated directive that provides a legal basis for marketing consent to be valid at the European level. There is more. This seed received its marketing approval from Europe in 1998. You may think that that is a Labour problem. However, the UK had informed the Commission on 25 July 1996—under a Conservative administration, Nick—that the UK had no objection to T25 being placed on the European market, including Wales and the rest of the UK. Let us get our history right. It is as a consequence of this decision by the last Conservative Government that neither UK Government Ministers nor I have the legal power to prevent the commercial release of this seed. I want it to be widely recognised that the only reason that these seeds are not sold more widely in the UK is because the present Government negotiated a voluntary agreement with the companies to ensure that no crops will be commercially marketed until farm-scale evaluations have been conducted.

yn peri anhawster i bobl. Ate gaf er budd Nick imi ddweud *na* fyddai modd gorfodi moratoriwm cyffredinol ar gnydau a addaswyd yn enetig yng Nghymru. Dyna'r pwynt a wneuthum ac yr wyf wedi gorfod ei ailadrodd dro ar ôl tro er budd Nick Bourne.

Gwnaethpwyd y pwynt hwn yn gyson mewn papurau ac yn eiriol i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Ar 15 Rhagfyr, dywedwyd yn un o bapurau'r Pwyllgor, wedi ei nodi mewn ffordd ddefnyddiol, yn ôl Cyfeillion y Ddaear, na fyddai'n bosibl. Yn ogystal, dywedwyd wrth y Pwyllgor ym mis Mawrth bod y ffurf benodol hon o india-corn wedi'i addasu'n enetig—a chyd-ddigwyddiad ydyw fod y ddau gnwd yr un fath—wedi derbyn cymeradwyaeth Rhan C ledled Ewrop. Felly, gellir ei dyfu yn gyfreithlon gan Aventis drwy'r Undeb Ewropeaidd.

Cyfeiriodd Mike German yn fyr at pam y gellir tyfu'r cnwd yn gyfreithlon, ond af drwyddo eto. Negodwyd Cyfarwyddeb allweddol ynghylch rhyddhau organebau wedi'u haddasu'n enetig i'r amgylchedd, Cyfarwyddeb 90/220, gan y Llywodraeth Geidwadol dan Mrs Thatcher yn 1990. Y gyfarwyddeb hon a negodwyd gan y Ceidwadwyr sydd yn rhoi'r sylfaen gyfreithiol i ganiatâd marchnata i fod yn ddilys ar lefel Ewropeaidd. Ond nid dyna'i gyd. Cafwyd cymeradwyaeth i farchnata'r hedyn hwn gan Ewrop yn 1998. Efallai y credwch mai problem Llafur ydyw. Fodd bynnag, yr oedd y DU wedi dweud wrth y Comisiwn ar 25 Gorffennaf 1996—o dan weinyddiaeth Doriaidd, Nick—nad oedd gan y DU unrhyw wrthwynebiad i roi T25 ar y farchnad Ewropeaidd, gan gynnwys Cymru a gweddill y DU. Gadewch inni fod yn gywir ynglŷn â'r hanes. O ganlyniad i'r penderfyniad hwn gan y Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf nad oes gan Weinidogion Llywodraeth y DU na minnau bŵer cyfreithlon i atal rhyddhau'r hedyn hwn yn fasnachol. Yr wyf am iddo gael ei gydnabod gan bawb mai'r unig reswm nad yw'r hadau hyn yn cael eu gwerthu'n ehangach yn y DU yw oherwydd i'r Llywodraeth bresennol negodi cytundeb gwirfoddol gyda'r cwmnïau i sicrhau na fydd

unrhyw gnydau yn cael eu marchnata'n fasnachol hyd nes y cynhelir gwerthusiadau ohonynt ar raddfa fferm.

I am happy to accept responsibility for my actions as the Assembly Secretary for Agriculture and Rural Development. However, if all that the Tories want to do is yet again play the blame game, they must accept responsibility for their party's actions while in Government. This leads me to the real reason for having a censure motion again. Do they not become more tedious as the months go by? We are having a full debate on the GM issue next week and we can deal with all the detail and the legal arguments then. It is important that we do that. Nick and your little group, you are perfectly entitled to criticise me as the Assembly Secretary for Agriculture and Rural Development. You are perfectly entitled to call into question my confidence and ability. That is your right as Assembly Members. It is also your right to disagree with my views and to vote against my decisions. However, this continual, opportunistic abuse of the censure motion to pursue a personal vendetta undermines the Assembly's credibility and standing. That could be your reason, Nick. Strangely enough, perhaps that is your intention. I do not know what your motivation is by tabling this censure motion, but I know that it damages this institution.

I do not mind your personal insults and nasty sneers. I do not even mind the institutionalised misogyny of the Tory group, because I genuinely believe that you cannot help it. If you want, you can do this all over again. I will be back next week and the week after and the week after that. If you truly believe that these debates represent profitable use of the Assembly's time, then carry on, Nick, as you are now. I would rather spend my time working for the people of Wales. I know that that is what the people of Wales want me to do and that is what I intend to do.

Yr wyf yn fodlon derbyn cyfrifoldeb dros fy ngweithredoedd fel Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Fodd bynnag, os mai'r cyfan mae'r Torïaid am ei wneud yw chwarae gemau o fwrw bai, rhaid iddynt dderbyn cyfrifoldeb dros weithredoedd eu plaid tra'r oedd mewn grym yn y Llywodraeth. Daw hyn â mi at y gwir reswm dros gynnig arall o gerydd. Onid ydynt yn mynd yn fwy blinderus wrth i'r misoedd fynd yn eu blaenau? Mae gennym ddadl lawn am addasu genetig yr wythnos nesaf a gallwn drin yr holl fanylion a'r dadleuon cyfreithiol bryd hynny. Mae'n bwysig ein bod yn gwneud hynny. Nick a'ch grŵp bychan, mae gennych berffaith hawl i fy meirniadu i fel Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig y Cynulliad. Mae gennych berffaith hawl i fwrw amheuaeth ar fy hyder a'm gallu. Dyna'ch hawl fel Aelodau'r Cynulliad. Mae gennych hefyd hawl i anghytuno â'm barn a phleidleisio yn erbyn fy mhenderfyniadau. Fodd bynnag, mae'r camddefnydd parhaus, manteisiol, hwn o'r cynnig o gerydd er mwyn bodloni fendeta personol yn tanseilio statws a hygredd y Cynulliad. Efallai mai dyna'ch rheswm, Nick. Yn rhyfedd ddigon, efallai mai dyna'ch bwriad. Ni wn beth sydd yn eich cymell i gyflwyno'r cynnig hwn o gerydd, ond gwn ei fod yn niweidiol i'r sefydliad hwn.

Nid oes ots gennyf am eich sarhau personol a'ch gwawdio cas. Nid oes ots gennyf hyd yn oed am gasineb sefydliadol y grŵp Torïaidd tuag at wragedd, oherwydd credaf yn ddiwyll nad oes gennych help am hynny. Os dymunwch, gallwch wneud hyn i gyd eto. Byddaf yn ôl yr wythnos nesaf a'r wythnos wedyn a'r wythnos wedi hynny. Os credwch mewn gwirionedd bod y dadleuon hyn yn gwneud defnydd buddiol o amser y Cynulliad, yna bwriwch ymlaen, Nick, fel yr ydych. Byddai'n well gennyf dreulio fy amser yn gweithio dros bobl Cymru. Gwn mai dyna mae pobl Cymru am imi ei wneud a dyna y bwriadaf ei wneud.

2:50 p.m.

*Cynnig: O blaid 8, Ymatal 21, Yn erbyn 26.
Motion: For 8, Abstain 21, Against 26.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, David
Davies, Glyn
Graham, William
Melding, David
Morgan, Jonathan
Rogers, Peter

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Jane Davidson
Davies, Andrew
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Marek, John
Middlehurst, Tom
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Bates, Mick
Black, Peter
Dafis, Cynog
Davies, Geraint
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
German, Michael
Hancock, Brian
Humphreys, Christine
Jarman, Pauline
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Randerson, Jenny
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Motion rejected.

Gwrthodwyd y cynnig.

Pwyntiau o Drefn Points of Order

Richard Edwards: I raise a point of order under Standing Order No. 7.8 relating to offensive, discriminatory conduct. Both the substance of Professor Bourne's comments and his repeated abuse of the censure motion are tantamount to bullying. This is cowardly and misogynist and, even worse, it is part of a deliberate strategy to bring the entire Assembly into disrepute by a group that is hell-bent on destroying it.

Jocelyn Davies: Point of order. Nick Bourne insisted on calling us the nationalists, only because we were not supporting his motion. He is not supposed to refer to other parties other than by the party name, which in this case is Plaid Cymru—The Party of Wales.

The Presiding Officer: On the second matter I have, on a number of occasions at the request of all party groups, expressed the view that party groups should be described by the names to which they are referred in their registration and as groups in this Assembly. With regard to Standing Order No. 7.8 and the related protocol on the conduct of Members in the Chamber, I listened carefully to today's debate and I did not feel that anything was said that was outwith that protocol, otherwise I would have interrupted at that point. I will consider the record and if I feel that there are matters, on reflection, which were contrary to the protocol on conduct I will refer to them and make a further statement.

The Business Secretary (Andrew Davies): Point of order. As I said in my business statement yesterday, I intended to make a statement to the Assembly this afternoon on the handling of subordinate legislation. Due to the pressure of business this afternoon I have decided to withdraw that statement and I will re-table it for next week.

The Presiding Officer: I am grateful to you in view of the pressure on time.

Richard Edwards: Codaf bwynt o drefn dan Reol Sefydlog Rhif 7.8 ynghylch ymddygiad sarhaus gwahaniaethol. Mae sylwedd sylwadau yr Athro Bourne a'i gamddefnydd mynych o'r cynnig o gerydd yn gyfystyr â bwlio. Mae hyn yn llwfr ac yn wreig-gasaol, a hyd yn oed yn waeth na hynny, mae'n rhan o strategaeth fwriadol i ddwyn anfri ar y Cynulliad cyfan gan grŵp sydd yn benderfynol o'i ddinistrio.

Jocelyn Davies: Pwynt o drefn. Mynnai Nick Bourne ein galw yn genedlaetholwyr, am y rheswm syml nad oeddem yn cefnogi ei gynnig. Nid yw i fod i gyfeirio at bleidiau eraill heblaw wrth enw'r blaid, sef yn yr achos hwn Plaid Cymru—The Party of Wales.

Y Llywydd: Parthed yr ail fater yr wyf, ar sawl achlysur ar gais pob grŵp pleidiol, wedi mynegi'r farn y dylid disgrifio grwpiau pleidiol yn ôl yr enwau a ddefnyddir wrth eu cofrestru ac fel grwpiau yn y Cynulliad hwn. O safbwynt Rheol Sefydlog Rhif 7.8 a'r protocol cysylltiedig ar ymddygiad Aelodau yn y Siambr, gwrandewais yn astud ar y ddadl heddiw ac ni themlais y dywedwyd unrhyw beth a oedd y tu hwnt i'r protocol hwnnw, neu byddwn wedi torri ar draws bryd hynny. Byddaf yn mynd ati i ystyried y cofnod ac os teimlaf fod materion, o edrych yn ôl, a oedd yn mynd yn groes i'r protocol ynglŷn ag ymddygiad byddaf yn cyfeirio atynt ac yn gwneud datganiad pellach.

Y Trefnydd (Andrew Davies): Pwynt o drefn. Fel y dywedais yn fy natganiad busnes ddoe, bwriadwn wneud datganiad i'r Cynulliad y prynhawn yma ynglŷn â thrin is-ddeddfwriaeth. Yn sgîl pwysau busnes y prynhawn yma penderfynais dynnu'r datganiad hwnnw yn ôl a byddaf yn ei ailgyflwyno ar gyfer yr wythnos nesaf.

Y Llywydd: Yr wyf yn ddiolchgar ichi o ystyried y pwysau ar amser.

Penodi Archwilydd Cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru
Appointment of the Auditor of the Accounts of the Auditor General for Wales

Janet Davies: I propose that

the Assembly, in accordance with section 94(1) of the Government of Wales Act 1998 appoint Owen, Thomas and Co. as the auditors of the accounts of the Auditor General for Wales. A copy of the letter inviting tenders and the Specification and Conditions of Contract for Services was laid in the Table Office on 10 May 2000.

Under section 94(1) of the Government of Wales Act 1998, the Assembly has to appoint an auditors of the accounts of the Auditor General for Wales. This function cannot be delegated and is therefore a decision for the whole of the Assembly. As Chair of the Audit Committee I have had the pleasure of working with the Auditor General for Wales, Sir John Bourn. I am grateful to Andrew Davies for offering me the opportunity to propose this motion. The office of the Auditor General for Wales came into existence on 1 June 1999 and is an appointment of the Crown. The Auditor General for Wales is responsible for auditing the accounts of the Assembly and the Assembly sponsored public bodies and for carrying out examinations into the economy, efficiency and effectiveness with which the Assembly and its sponsored bodies have used their resources in discharging their functions.

In this respect, the Auditor General for Wales's role and responsibilities are similar to those of the Comptroller and Auditor-General for England. In the Government of Wales Act 1998 arrangements were made for the National Audit Officer to assist the Auditor General in carrying out this function. The Auditor General reports his findings to the Assembly and these reports are considered by the Audit Committee, which ensures that proper and thorough scrutiny is given to all aspects of the Assembly's expenditure. Although the Auditor General remains scrupulously independent, the Audit Committee has been fully consulted about his programme of work for 2000-01 and subsequent years. Details of that programme have been published on the Assembly's

Janet Davies: Cynigiaf fod

y Cynulliad, yn unol ag adran 94(1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penodi Owen, Thomas and Co. i archwilio cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru. Gosodwyd copi o'r llythyr yn gwahodd tendrau, a'r Fanyleb ac Amodau'r Contract ar gyfer y Gwasanaethau yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai 2000.

Dan adran 94(1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, rhaid i'r Cynulliad benodi archwilydd ar gyfer cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ni ellir dirprwyo'r swyddogaeth hon ac mae felly'n benderfyniad ar gyfer y Cynulliad cyfan. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio cefais y pleser o gydweithio ag Archwilydd Cyffredinol Cymru, Syr John Bourn. Yr wyf yn ddiolchgar i Andrew Davies am gynnig y cyfle hwn imi gynnig y cynnig hwn. Daeth swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru i rym ar 1 Mehefin 1999 a'r Goron sydd yn penodi i'r swydd. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am archwilio cyfrifon y Cynulliad a chyrrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ac ymchwilio i gynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y modd mae'r Cynulliad a'r cyrrff y mae'n eu noddi wedi defnyddio eu hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Yn hyn o beth, mae rôl a chyfrifoldebau Archwilydd Cyffredinol Cymru yn debyg i rai Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Lloegr. Yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998 gwnaethpwyd trefniadau i'r Swyddog Archwilio Cenedlaethol helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn adrodd ar ei ganfyddiadau i'r Cynulliad a chaiff yr adroddiadau hyn eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio, sydd yn sicrhau yr archwilir pob agwedd ar wariant y Cynulliad yn briodol ac yn drylwyr. Er bod yr Archwilydd Cyffredinol yn parhau i fod yn gydwybodol annibynnol, ymgynghorwyd yn llawn â'r Pwyllgor Archwilio ynglŷn â'i raglen waith ar gyfer 2000-01 a'r blynyddoedd dilynol. Cyhoeddwyd manylion y rhaglen honno ar

intranet.

The Assembly also agrees the Auditor General's budget, which in 2000-01 is £1,961,000. I am confident that the savings in public expenditure that he is able to identify through his work will far exceed that sum. The Audit Committee has already received and considered the Auditor General's report 'Protecting and Conserving the Built Heritage in Wales', the further education sector, a report on an irregular payment made to a former assistant director of the National Museums and Galleries of Wales, the NHS Wales's accounts and, last week, the Welsh Development Agency merger and its support for indigenous business.

Investigations planned for this term include ones on Coleg Gwent and the Cardiff Bay barrage. In the longer-term, there will be an examination of a variety of topics, including the Assembly's accommodation arrangements, drug-prescribing, initiatives to alleviate homelessness and rooflessness and the administration of European Union funds, which I hope will provide us with useful lessons for the administration of the next round of such funds.

The reports that the Audit Committee has produced so far, with the assistance of the Auditor General, have enabled us to identify and make recommendations about several important issues of value for money, financial propriety and regularity that are relevant to the whole of the public sector in Wales. In the autumn, a Plenary debate will be held on the reports laid before the Assembly by the Audit Committee during the previous 12 months. I will not, therefore, go into detail about that part of the Committee's work and programme.

Even the Auditor General must be subject to audit. The appointment of his auditors is for an initial three years, commencing with the financial year 1999-2000. It will be renewable for a further two years at the Assembly's discretion. The audit work will cover that year and lead to an audit opinion

fewnrwyd y Cynulliad.

Mae'r Cynulliad hefyd yn cytuno ar gyllideb yr Archwilydd Cyffredinol, sydd yn £1,961,000 ar gyfer 2000-01. Yr wyf yn hyderus y bydd yr arbedion y gall eu nodi mewn gwariant cyhoeddus drwy ei waith yn dod i gyfanswm llawer mwy na'r swm hwnnw. Mae'r Pwyllgor Archwilio eisoes wedi derbyn ac ystyried adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol 'Gwarchod a Chadw'r Dreftadaeth Adeiledig yng Nghymru', y sector addysg bellach, adroddiad ar daliad anghyson a wnaethpwyd i un o gyn gyfarwyddwyr cynorthwyol Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru, cyfrifon NHS Cymru ac, yr wythnos diwethaf, uniad Awdurdod Datblygu Cymru a'i gefnogaeth i fusnesau cynhenid.

Mae'r archwiliadau sydd ar y gweill ar gyfer y tymor hwn yn cynnwys rhai ar Goleg Gwent a morglawdd Bae Caerdydd. Yn y tymor hwy, caiff amrywiol bynciau eu harchwilio, gan gynnwys trefniadau llety y Cynulliad, rhagnodi cyffuriau, cynlluniau i leihau nifer y digartref a phobl heb do uwch eu pennau a gweinyddu cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd, a fydd, gobeithiaf, yn rhoi gwersi defnyddiol inni ynglŷn â gweinyddu cylch nesaf y cronfeydd hynny.

Mae'r adroddiadau a gynhyrchodd y Pwyllgor Archwilio hyd yma, gyda chymorth yr Archwilydd Cyffredinol, wedi'n galluogi i nodi a gwneud argymhellion yng nghyswllt sawl mater pwysig fel gwerth am arian, cywirdeb a chysondeb ariannol sydd yn berthnasol i'r sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru. Yn yr hydref, cynhelir dadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr adroddiadau a roddwyd gerbron y Cynulliad gan y Pwyllgor Archwilio yn ystod y 12 mis blaenorol. Nid af i fanylder felly am y rhan honno o waith a rhaglen y Pwyllgor.

Rhaid i hyd yn oed yr Archwilydd Cyffredinol fod yn ddarostyngedig i archwiliad. Caiff ei archwilwyr eu penodi yn gyntaf am dair blynedd, gan ddechrau yn y flwyddyn ariannol 1999-2000. Bydd modd ei adnewyddu am ddwy flynedd arall yn ôl doethineb y Cynulliad. Bydd y gwaith

on the Office of the Auditor General for Wales's accounts. A copy of the certified audited accounts, together with the auditors' report on them, will be laid before the Assembly in accordance with section 94 of the Government of Wales Act 1998.

The appointment has been subject to a procurement exercise undertaken on the Assembly's behalf by Assembly officials and has been completed in accordance with Assembly procurement procedures. A selection of registered company auditors from across Wales was invited to tender. A copy of the letter inviting tenders, the specification and the conditions of contract for services was laid in the Table Office. Members have therefore had an opportunity to view those and I am sure that they have all done so.

Evaluation of the tenders has been carried out and it is recommended that Owen, Thomas and Company be appointed. The criteria used to evaluate the tenders included value for money, previous experience in the central Government or public sector and the company's approach to financial and regularity audit. The evaluation concluded that the tender received from Owen, Thomas and Company provided the best value for money in that it provided the lowest cost contract with the highest number of days allocated to the audit. As Chair of the Audit Committee, I am always glad to see proposals coming forward that combine the best value for money and the lowest possible cost. I am pleased to propose this motion.

archwilio yn cynnwys y flwyddyn honno ac yn arwain at farn archwilio ynglŷn â chyfrifon Swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru. Bydd copi o'r cyfrifon wedi'u harchwilio a'u hardystio, ynghyd ag adroddiad yr archwilywr arnynt, yn cael ei roi gerbron y Cynulliad yn unol ag adran 94 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Bu'r penodiad yn ddarostyngedig i ymarferiad caffael a gynhaliwyd ar ran y Cynulliad gan swyddogion y Cynulliad ac mae wedi ei gwblhau yn unol â gweithdrefnau caffael y Cynulliad. Gwahoddwyd detholiad o archwilywr cwmni cofrestredig o bob rhan o Gymru i gyflwyno tendr. Gosodwyd copi o'r llythyr gwahodd tendrau, y manylebion ac amodau'r contract gwasanaethau yn y Swyddfa Gyflwyno. Mae'r Aelodau felly wedi cael cyfle i edrych arnynt ac yr wyf yn siŵr eu bod i gyd wedi gwneud hynny.

Mae'r tendrau wedi eu cloriannu ac argymhellir penodi Owen, Thomas and Company. Yr oedd y meini prawf a ddefnyddiwyd i gloriannu'r tendrau yn cynnwys gwerth am arian, profiad blaenorol mewn Llywodraeth ganolog neu'r sector cyhoeddus ac agwedd y cwmni tuag at archwilio ariannol a rheoleiddiol. Daeth y cloriannu i'r casgliad mai'r tendr a dderbyniwyd gan Owen, Thomas and Company a roddai'r gwerth gorau am arian ac mai hwnnw a roddai'r contract isaf ei gost gyda'r nifer mwyaf o ddyddiau wedi ei neilltuo i'r archwiliad. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, yr wyf bob amser yn falch o weld cynigion yn dod gerbron sydd yn cyfuno'r gwerth gorau am arian gyda'r gost isaf bosibl. Yr wyf yn falch o gynnig y cynnig hwn.

Cynnig: O blaid 50, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Motion: For 50, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Cairns, Alun

Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
German, Michael
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Morgan, Jonathan
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Richards, Rod
Rogers, Peter
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Motion adopted.

Derbyniwyd y cynnig.

3:00 p.m.

**Dirprwyo Swyddogaethau Gorchymyn Cymunedau Ewropeaidd Cymru
Delegation of Functions of the European Communities Wales Order**

The Presiding Officer: I have selected amendments 1 and 3 in the name of Ieuan Wyn Jones, amendment 2 in the name of Alun Cairns and amendment 4 in the name of Mike German.

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1 a 3 yn enw Ieuan Wyn Jones, gwelliant 2 yn enw Alun Cairns a gwelliant 4 yn enw Mike German.

The Business Secretary (Andrew Davies): I propose that

Y Trefnydd (Andrew Davies): Cynigiau fod

the Assembly, acting under Section 62(1)(b) of the Government of Wales Act 1998, resolves to delegate to the Assembly First Secretary all of its functions in or under the Structural Funds (National Assembly for Wales) Regulations 2000 SI 2000/906 (laid in the Table Office on 10 May 2000) and under Instruments of Designation (laid in the Table Office on 10 May 2000) made by respectively the Secretary of State for Trade and Industry and by the Minister of Agriculture, Fisheries and Food.

The Secretary of State for Trade and Industry made the regulations on 30 March 2000. By virtue of the Regulations and Instruments of Designation made by the Department of Trade and Industry and the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food, the Assembly is empowered to administer these statutory functions in Wales. The regulations enable the Assembly to exercise certain functions in relation to the structural funds. The relevant structural funds are the European regional development fund, the financial instrument for fisheries guidance and the guidance section of the European agricultural guidance and guarantee fund. We have not been able to include the European social fund because we have not yet agreed the underlying policy with the Department for Education and Employment. A further instrument will need to be made, if and when we agree with DfEE, of transfer of responsibility of the European social fund.

The purpose of the motion is to seek the Assembly's agreement on the functions contained in the Structural Funds (National Assembly for Wales) Regulations 2000—

Phil Williams: Given that the commitment to take over European social fund was given at the beginning of 1997, can you say what sort of timescale we can envisage for the transfer of responsibility and budget under European social fund?

Andrew Davies: I cannot give a precise reply, Phil, because the negotiations are ongoing with DfEE. However, I will make

y Cynulliad, gan weithredu o dan Adran 62(1)(b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad holl swyddogaethau'r Cynulliad yn ôl neu o dan Reoliadau Cronfeydd Strwythurol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2000 OS 2000/906 a wnaethpwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant (gosodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai 2000) ac o dan yr Offerynnau Dynodiad a wnaethpwyd gan y Gweinidog Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd.

Gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant y rheoliadau ar 30 Mawrth 2000. Yn rhinwedd y Rheoliadau a'r Offerynnau Dynodiad a wnaethpwyd gan yr Adran Masnach a Diwydiant a'r Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, mae gan y Cynulliad bŵer i weinyddu'r swyddogaethau statudol hyn yng Nghymru. Mae'r rheoliadau yn galluogi'r Cynulliad i arfer rhai swyddogaethau penodol sydd yn ymwneud â'r cronfeydd strwythurol. Y cronfeydd strwythurol perthnasol yw cronfa ddatblygu ranbarthol Ewrop, yr offeryn ariannol ar gyfer canllawiau i bysgodfeydd ac adran ganllawiau cronfa gwarantu a chanllawiau amaethyddol Ewrop. Nid ydym wedi gallu cynnwys cronfa gymdeithasol Ewrop oherwydd nid ydym eto wedi cytuno ar y polisi sylfaenol gyda'r Adran Addysg a Chyflogaeth. Bydd yn rhaid llunio offeryn pellach, os a phryd y cytunwn gyda'r Adran Addysg a Chyflogaeth, i drosglwyddo cyfrifoldeb cronfa gymdeithasol Ewrop.

Diben y cynnig yw ceisio cytundeb y Cynulliad ar y swyddogaethau a geir yn Rheoliadau Cronfeydd Strwythurol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2000—

Phil Williams: O ystyried bod yr ymrwymiad i gymryd y cyfrifoldeb dros gronfa gymdeithasol Ewrop wedi ei wneud ar ddechrau 1997, a allwch ddweud pa fath o amserlen y gellir ei rhagweld ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldeb a chyllideb cronfa gymdeithasol Ewrop?

Andrew Davies: Ni allaf roi ateb manwl, Phil, oherwydd bod y negodiadau yn parhau gyda'r Adran Addysg a Chyflogaeth. Fodd

enquiries with the First Secretary and officials and let you know the latest position.

The delegation will be made in the knowledge that those functions will be further delegated to the appropriate Assembly Secretaries and, where necessary, officials.

I turn to the amendments. Four amendments were tabled to this motion. I fully recognise the concerns that are reflected in the amendments and agree with the sentiment that lies behind them. Accountability to Plenary and Subject Committees is at the heart of how the National Assembly works. The amendments reflect this view and repeat the necessary and proper safeguards contained in the Government of Wales Act 1998 and our Standing Orders.

I turn to Ieuan Wyn Jones's amendment 1. Obviously, inserting the word 'national' does not make any difference to the substance or effect of the motion. It has become the accepted convention to abbreviate 'National Assembly for Wales' to 'National Assembly' and, on that basis, I am happy to support this amendment.

Ieuan's amendment 3 would require the First Secretary to report annually to Plenary on the exercise of these powers. I strongly endorse the principle that Assembly Secretaries should be fully accountable to Plenary and the Assembly, but the amendment is unnecessary. While I sympathise with the underlying principle, I do not believe that the amendment adds anything in practice to the principle and practice of accountability. The Government of Wales Act and Standing Orders require all Cabinet members to be accountable to Plenary via Assembly questions, in debate and in the Subject Committees' work. There is no need to wait a year for this, and Members can table a question or motion at any time.

bynag, holaf y Prif Ysgrifennydd a'r swyddogion a rhoi gwybod ichi am y sefyllfa ddiweddaraf.

Bydd y dirprwyo yn digwydd gan wybod y bydd y swyddogaethau hynny yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Ysgrifenyddion Cynulliad priodol a, lle bo'n ofynnol, i swyddogion.

Trof at y gwelliannau. Cyflwynwyd pedwar gwelliant i'r cynnig hwn. Yr wyf yn llwyr gydnabod y pryderon a adlewyrchir yn y gwelliannau a chytunaf â'r teimlad y tu ôl iddynt. Mae atebolrwydd i'r Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau Pwnc yn ganolog i'r ffordd mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio. Mae'r gwelliannau yn adlewyrchu'r farn hon ac yn ategu'r amddiffynfeydd angenrheidiol a phriodol sydd yn rhan o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a'r Rheolau Sefydlog.

Trof at welliant 1 Ieuan Wyn Jones. Yn amlwg, nid yw ychwanegu'r gair 'cenedlaethol' yn gwneud unrhyw wahaniaeth i sylwedd nac ystyr y cynnig. Mae wedi dod yn arfer derbyniol i fyrhau 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru' yn 'Cynulliad Cenedlaethol' ac, ar y sail honno, yr wyf yn hapus i gefnogi'r gwelliant hwn.

Byddai gwelliant 3 Ieuan yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Ysgrifennydd adrodd bob blwyddyn i'r Cyfarfod Llawn ynglŷn ag arfer y pwerau hyn. Cefnogaf yn gryf yr egwyddor y dylai Ysgrifenyddion y Cynulliad fod yn gwbl atebol i'r Cyfarfod Llawn a'r Cynulliad, ond mae'r gwelliant yn ddiangen. Er fy mod yn cydymdeimlo â'r egwyddor sydd wrth wraidd y gwelliant, ni chredaf fod y gwelliant yn ychwanegu unrhyw beth ymarferol at egwyddor atebolrwydd na'r broses o'i arfer. Mae Deddf Llywodraeth Cymru a'n Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o'r Cabinet fod yn atebol i'r Cyfarfod Llawn drwy gyfrwng cwestiynau'r Cynulliad, mewn dadleuon ac yng ngwaith y Pwyllgorau Pwnc. Nid oes angen aros blwyddyn am hyn, a gall yr Aelodau gyflwyno cwestiynau neu gynigion ar unrhyw adeg.

This is the first time that the Assembly has considered such a provision. Why should these functions be the subject of an annual report when the First Secretary, my Cabinet colleagues and I are accountable for all others in the usual way? Therefore, I hope that Ieuan will not press for a vote.

Alun Cairns's amendment 2 and Michael German's amendment 4 seek to restate the role of Subject Committees. I agree that Assembly Secretaries should work with Committees in exercising all their functions. However, the amendments are unnecessary, as Standing Order No. 9.7 already requires this accountability. There is no need to reiterate that each time functions are delegated. Amendment 4 is also concerned with the pre-eminence of the full Assembly's authority. This is enshrined in section 62(8) of the Government of Wales Act, and it is not necessary to state it each time a delegation is made. We should remember that the delegation is just that. It allows Assembly Secretaries to exercise functions on behalf of the whole Assembly. A robust system of accountability is fundamental to that, and the Government of Wales Act and our Standing Orders rightly provide that framework of accountability. While I share the sentiments behind these amendments, I do not feel that they are all necessary.

Ieuan Wyn Jones: Cynigiau welliant 1.

Ar linell 1, yn lle 'Cynulliad', rhodder
'Cynulliad Cenedlaethol'.

Cynigiau hefyd welliant 3.

Ar ddiwedd y cynnig, dileer yr atalnod llawn ac ychwaneger:

a bod y Prif Ysgrifennydd yn adrodd bob blwyddyn i'r Cynulliad Cenedlaethol sut mae ef/hi wedi arfer y pwerau dirprwyedig.

Diolchaf i Andrew Davies am ddelio mor llawn â'r gwelliannau, sydd o gymorth wrth inni fynd â'r drafodaeth yn ei blaen. Yr wyf yn falch ei fod yn cefnogi fy ngwelliant 1.

Dyma'r tro cyntaf i'r Cynulliad ystyried darpariaeth o'r fath. Pam dylai'r swyddogaethau hyn fod yn ddarostyngedig i adroddiad blynyddol pan fo'r Prif Ysgrifennydd, fy nghyd-Aelodau yn y Cabinet a minnau yn atebol i bob un arall yn y ffordd arferol? Gobeithiaf felly na fydd Ieuan yn pwysu am bleidlais.

Mae gwelliant 2 Alun Cairns a gwelliant 4 Michael German yn ceisio ailddatgan rôl y Pwyllgorau Pwnc. Cytunaf y dylai Ysgrifenyddion y Cynulliad weithio gyda Phwyllgorau wrth arfer eu holl swyddogaethau. Fodd bynnag, mae'r gwelliannau yn ddiangen, gan fod Rheol Sefydlog Rhif 9.7 eisoes yn gofyn am yr atebolrwydd hwn. Nid oes angen ailadrodd hynny bob tro y dirprwyir swyddogaethau. Mae a wnelo Gwelliant 4 hefyd â rhagoriaeth awdurdod y Cynulliad llawn. Diogelir hyn yn adran 62(8) Deddf Llywodraeth Cymru, ac nid oes angen ei ddatgan bob tro y dirprwyir swyddogaethau. Dylem gofio mai dyna'n union yw dirprwyo. Mae'n caniatáu i Ysgrifenyddion y Cynulliad arfer swyddogaethau ar ran y Cynulliad cyfan. Mae system atebolrwydd gref yn sylfaenol i hynny, ac mae Deddf Llywodraeth Cymru a'n Rheolau Sefydlog yn cynnig yn briodol y strwythur atebolrwydd hwnnw. Er fy mod yn rhannu'r teimladau y tu ôl i'r gwelliannau hyn, teimlaf nad oes mo'u hangen i gyd.

Ieuan Wyn Jones: I propose amendment 1.

In line 1 replace 'Assembly' with
'National Assembly'.

I also propose amendment 3.

At end of motion remove full stop and add:

and that the First Secretary reports annually to the National Assembly how he/she has exercised these delegated powers.

I thank Andrew Davies for dealing so fully with the amendments, which assists us as we move the discussion forward. I am pleased that he supports my amendment 1. On my

Ynglŷn â'm gwelliant 3, mae hi'n bwysig pan fo'r Cynulliad yn trosglwyddo cyfrifoldeb penodol o dan y Gorchymynion hyn i'r Prif Ysgrifennydd—ac os ydym wedi rhoi'r hawl iddo—ei fod yn adrodd yn ôl yn benodol inni ar y modd y gweithredodd ar hynny. Gwn y gallwn ofyn cwestiynau a chael datganiad, ond y mae wedi cael hawl gennym o dan y Gorchymyn hwn, felly mae'n iawn iddo adrodd yn ôl ar sut y gweithredodd yn benodol ar hynny. Gwnaf y pwynt hwnnw ac yr wyf am wthio'r gwelliant i bleidlais.

Yn ail, mae hi'n ddiddorol y trafodir y Gorchymyn hwn gan y Cynulliad ym mis Mai tra bo rhaglenni'r gronfa strwythurol wedi bod yng Nghymru ers mis Ionawr. Mae hyn yn profi'r pwynt ein bod yn hwyr yn ystyried y mater hwn o gofio bod bron i bum mis wedi mynd heibio ers i'r gronfa fod yn agored, neu y bu'r potensial iddi fod yn agored, yng Nghymru. Mae pwynt pwysig yma, a gobeithiaf y gall Andrew ateb y cwestiwn sylfaenol hwn wrth grynhoi, os caiff gyfle, neu o leiaf drwy ysgrifennu atom. A fydd Cymru yn gallu rhoi ceisiadau yn uniongyrchol o dan y Gorchymyn hwn am fenthyciadau o'r Banc Buddsoddiadau Ewropeaidd? Mae cwestiynau wedi codi ynglŷn â'n gallu i wneud hynny, a'r awgrym yw na fyddem.

Yn ôl cyfarfod o fforwm Ewrop y Cynulliad yng Nghaerdydd ddydd Gwener diwethaf, galwodd cynrychiolwyr o'r banc ar sefydliadau ac awdurdodau ar bob lefel yng Nghymru i ystyried ymgeisio am fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae hynny yn groes i'r awgrym blaenorol. Beth yn union yw'r sefyllfa? Bydd hynny yn bwysig i bobl wrth baratoi eu cynlluniau. Yn ogystal â hyn, mae'r banc hwn yn ffynhonnell bosibl at gyfrannu cyllid cyfatebol i brosiectau o dan y cronfeydd strwythurol, megis yng nghydestun Amcan 1. Mae'n bwysig, felly, inni gael ateb i'r cwestiwn hwnnw.

Pwysaf ymhellach ar Andrew Davies ynglŷn â'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd sydd yn aros gyda'r Adran Addysg a Chyflogaeth. Mae'n bwysig o ran cynllunio yng Nghymru i wybod yn union ble y safwn ar y mater

amendment 3, it is important that when the Assembly transfers a specific responsibility under these Orders to the First Secretary—and if we have given him the right—that he should report back specifically to us on the way that he acted on that. I know that we can ask questions and have a statement, but he has been given powers by us under this Order and therefore it is right that he should report back on how he has acted specifically on that. I make that point and I will push the amendment to a vote.

Secondly, it is interesting that the Assembly is discussing this Order in May while the structural fund programmes have been in Wales since January. That proves the point that we are tardy in considering this matter bearing in mind that nearly five months have passed since the fund opened, or there has been potential for it to be open, in Wales. There is an important point here, and I hope that Andrew will be able to answer this fundamental question in his summary, if he has a chance, or at least by writing to us. Will Wales be able to submit bids directly under this Order for loans from the European Investment Bank? Questions have arisen about our ability to do so, and the suggestion is that we would not.

According to a meeting of the Assembly's European forum in Cardiff last Friday, representatives from the bank called on organisations and authorities on every level in Wales to consider applying for loans and investments. That is contrary to the previous suggestion. What exactly is the situation? That will be important for people as they prepare their plans. In addition, this bank is a possible source for contributing match funding to projects under the structural funds, as in the context of Objective 1. It is important, therefore, that we have an answer to that question.

I press Andrew Davies further on the European structural funds that remain with the Department for Education and Employment. It is important from the point of view of planning in Wales to know exactly

hwn. Os na all Andrew roi ateb inni heddiw, gofynnaf iddo wneud hynny yn gymharol fuan. Mae'n amserol ein bod yn trafod y mater hwn pan fo swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel yn cael ei hagor a Des Clifford yn dechrau ar ei swydd newydd yn bennaeth y gynrychiolaeth. Dymunwn yn dda i Des yn y swydd honno. Yr wyf yn hyderus y bydd llais Cymru yn gryfach oherwydd ei fod yno.

Jonathan Morgan: I propose amendment 2 in the name of Alun Cairns.

After 'Minister of Agriculture Fisheries and Food' insert:

and agrees to fully consult the respective Subject Committees in exercising the functions above.

I listened to what the Business Secretary had to say on the principle of committees being consulted. We believe, however, that that principle needs to be reinforced at every available opportunity, and certainly in something as large-scale as European structural funds. We have tabled amendment 2 because, while these technical regulations form the framework of the Assembly's authority in this area, several aspects of the structural funds will underpin the work of most of our Subject Committees. It will be important for the committees to be able to review certain aspects of the structural funds in the light of their own objectives and of the performance of those programmes and projects as and when they get off the ground.

3:10 p.m.

I point Members towards two Articles—Article 26 of the 1993 regulations and Article 15 of the 1999 regulations. Article 26 mentions the appraising, evaluating and monitoring operations. It would be beneficial for committees to have some authority in revealing how structural funds have had an impact in those relevant areas, particularly evaluating and monitoring. Much information comes back every year from the monitoring procedures that have been put in place for many years, and those monitoring

where we stand on this issue. If Andrew is unable to give us an answer today, I ask that he do so relatively soon. It is timely that we are discussing this issue when the Assembly's office in Brussels is being opened and Des Clifford is starting in his new post as head of the representation. We wish Des well in that post. I am confident that Wales's voice will be stronger because he is there.

Jonathan Morgan: Cynigiau welliant 2 yn enw Alun Cairns.

Ar ôl 'y Gweinidog Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd', ychwaneger:

ac yn cytuno i ymgynghori'n llawn â'r Pwyllgorau Pwnc perthnasol wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Gwrandewais ar yr hyn a oedd gan y Trefnydd i'w ddweud am yr egwyddor o ymgynghori â phwyllgorau. Fodd bynnag, credwn fod yn rhaid atgyfnerthu'r egwyddor ar bob cyfle, ac yn sicr gyda rhywbeth ar raddfa mor fawr â chronfeydd strwythurol Ewrop. Yr ydym wedi cyflwyno gwelliant 2 oherwydd, er bod y rheoliadau technegol hyn yn ffurfio'r fframwaith ar gyfer awdurdod y Cynulliad yn y maes hwn, bydd sawl agwedd ar y cronfeydd strwythurol yn sylfaen i waith y rhan fwyaf o'r Pwyllgorau Pwnc. Bydd yn bwysig i'r pwyllgorau allu adolygu rhai agweddau penodol ar y cronfeydd strwythurol yng ngoleuni eu hamcanion eu hunain a pherfformiad y rhaglenni a'r prosiectau hynny fel a phryd y cânt eu gweithredu.

Cyfeiriaf yr Aelodau at ddwy Erthygl—Erthygl 26 rheoliadau 1993 ac Erthygl 15 rheoliadau 1999. Mae Erthygl 26 yn crybwyll y camau gwerthuso, arfarnu a monitro. Byddai'n fuddiol i bwyllgorau feddu ar rywfaint o awdurdod o safbwynt datgelu sut mae cronfeydd strwythurol wedi dylanwadu ar y meysydd perthnasol hynny, yn arbennig o safbwynt arfarnu a monitro. Daw llawer o wybodaeth yn ôl bob blwyddyn yn sgîl y trefniadau monitro sydd wedi bod ar waith ers llawer blwyddyn, a gall y trefniadau

procedures can start to display how structural funds are working in Wales and which projects are successful in achieving their original aims and objectives. That would be beneficial from a Subject Committee perspective.

Article 15 of the 1999 regulations mentions preparing plans for submission to the European Commission. The reason that I have flagged this one up is quite simple. If one looks at the overall objectives linked to single programming documents and operational programmes, the Post-16 Education and Training Committee, for example, offered comments on those aspects relating to the Objective 3 scheme. Bearing in mind the linkage between the objectives of Subject Committees and the single programming document and operational programmes, it is only natural that committees would wish to be consulted in the future. Also, relating to the financial tables, if one looks at the allocations, particularly for human resource development, and linking that in to some of the objectives of the Post-16 Education and Training Committee, for example, it is only natural to assume that the Committee would wish to have an input into that. There are, therefore, at least two articles of the regulations that have been devolved to the Assembly that relate directly to the work of Subject Committees. That is why we have tabled this amendment, and I urge Members to support it.

In supporting Ieuan Wyn Jones's comments on the negotiations with the Department for Education and Employment over the managing authority payment and audit of ESF, I note that these negotiations need to be brought to a rapid conclusion. We are now five months into the first year and businesses and the public sector need to know where the authority for this scheme will lie—whether it will continue to lie with the Department for Education and Employment or whether it will be devolved to the Assembly. I hope that that will come to a speedy conclusion. We would be grateful if the Business Secretary could ensure that those negotiations are completed quickly. I urge all Members to support amendment 2 as it stands.

monitro hynny ddechrau dangos sut mae'r cronfeydd strwythurol yn gweithio yng Nghymru a pha brosiectau sydd yn llwyddo i gyflawni eu nodau a'u hamcanion gwreiddiol. Byddai hynny'n fuddiol o safbwynt y Pwyllgorau Pwnc.

Mae Erthygl 15 rheoliadau 1999 yn crybwyll paratoi cynlluniau ar gyfer cyflwyno ceisiadau i'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae fy rheswm dros sôn am hyn yn ddigon syml. Os edrychwch ar yr amcanion cyffredinol sydd yn gysylltiedig â dogfennau rhaglennu sengl a rhaglenni gweithrediadol, cynigiodd y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16, er enghraifft, sylwadau ar yr agweddau hynny a oedd yn gysylltiedig â chynllun Amcan 3. Gan gofio'r cysylltiad rhwng amcanion y Pwyllgorau Pwnc a'r ddogfen rhaglennu sengl a'r rhaglenni gweithrediadol, nid yw ond yn naturiol i'r pwyllgorau ddymuno bod yn rhan o'r broses ymgynghori yn y dyfodol. Yn ogystal, ynglŷn â'r tablau ariannol, os edrychwch ar y dyraniadau, yn benodol ar gyfer datblygu adnoddau dynol, a chysylltu hynny â rhai o amcanion y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16, er enghraifft, nid yw ond yn naturiol tybio y byddai'r Pwyllgor yn dymuno cyfrannu at hynny. Felly, mae o leiaf ddwy erthygl o'r rheoliadau sydd wedi'u datganoli i'r Cynulliad yn ymwneud yn uniongyrchol â gwaith y Pwyllgorau Pwnc. Dyna pam yr ydym wedi cyflwyno'r gwelliant hwn, a phwysaf ar yr Aelodau i'w gefnogi.

Wrth gefnogi sylwadau Ieuan Wyn Jones am y negodiadau gyda'r Adran Addysg a Chyflogaeth ynglŷn â thaliad awdurdod rheoli ac archwilio'r gronfa gymdeithasol Ewropeaidd, nodaf fod yn rhaid dirwyn y negodiadau hyn i ben ar fyrder. Yr ydym yn awr bum mis i mewn i'r flwyddyn gyntaf ac mae'n rhaid i fusnesau yn y sector preifat wybod pwy fydd ag awdurdod dros y cynllun hwn—a fydd yn parhau yn nwylo'r Adran Addysg a Chyflogaeth neu a fydd yn cael ei ddatganoli i'r Cynulliad. Gobeithiaf y daw i gasgliad cyflym. Buasem yn ddiolchgar pe gallai'r Trefnydd sicrhau bod y negodiadau hynny yn cael eu cwblhau'n fuan. Pwysaf ar yr holl Aelodau i gefnogi gwelliant 2 fel y saif.

Michael German: I propose amendment 4. Add at the end of the motion:

Nothing in this motion will have the effect of reducing the pre-eminence of the authority of the full Assembly or of reducing the role of the Assembly Committees in the exercise of the above functions.

We will be supporting all the amendments. It is important that the Assembly should pass all the amendments, otherwise we will not re-state the view that this Assembly has a priority in making and determining policy for the Government of Wales.

I suppose that Andrew's view—I do not know whether he will reflect on this when he responds—is based on the fact that the Cabinet goes away and does things and will come back and tell us what they have done. 'Holding to account' were the words that he used. We are looking at more than holding the Executive to account—it is determining the shape and direction of the Assembly's policy. One reason that these amendments are on the agenda, and that they are there so powerfully, is because we need recognition, and we want to re-state the recognition, of the minority Government position in the Assembly. It is not just about holding the Government to account.

Some of you may remember that we debated this matter last year when we were asked to send all the powers to the First Secretary. After a month of deliberation we came back and the Assembly passed a resolution—that is important—saying that nothing in the delegations would override the absolute priority and the exercise of power by the full Assembly. I repeat that because those of you who remember will note that during the course of the last ten months or so, there have been many occasions when resolutions have been passed by this Assembly in Plenary session that have not yet been taken up by the administration or put through in the Assembly's work. I reminded you yesterday of 'Betterwales.com', in which—in the document that has been produced—there is

Michael German: Cynigiau welliant 4. Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig:

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn gostwng awdurdod y Cynulliad llawn neu'n cyfyngu ar swyddogaeth Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y pwerau uchod.

Byddwn yn cefnogi'r holl welliannau. Mae'n bwysig i'r Cynulliad basio'r holl welliannau neu ni fyddwn yn ailddatgan y farn bod gan y Cynulliad hwn flaenoriaeth o ran llunio a phennu polisiau ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Tybiaf fod barn Andrew—ni wn a fydd yn pwysu a mesur ar hyn pan fydd yn ymateb—wedi ei seilio ar y ffaith bod y Cabinet yn mynd i ffwrdd ac yn gwneud pethau ac y bydd yn dod yn ôl i ddweud wrthym beth mae wedi ei wneud. 'Dal i gyfrif' oedd y geiriau a ddefnyddiodd. Yr ydym yn awyddus i weld rhywbeth amgenach na dal y Weithrediaeth i gyfrif—mae'n pennu ffurf a chyfeiriad polisiau'r Cynulliad. Un rheswm dros roi'r gwelliannau hyn ar yr agenda, a'u bod yno mor rymus, yw oherwydd bod arnom angen cydnabyddiaeth, ac yr ydym eisiau ailddatgan y gydnabyddiaeth, i sefyllfa y Llywodraeth leiafrifol yn y Cynulliad. Nid oes a wnelo â dal y Llywodraeth i gyfrif yn unig.

Bydd rhai ohonoch yn cofio inni ddadlau'r mater hwn y llynedd pan ofynnwyd inni anfon yr holl bwerau i'r Prif Ysgrifennydd. Ar ôl misoedd o bwysu a mesur daethom yn ôl a phasiodd y Cynulliad benderfyniad—sydd yn bwysig—yn dweud na fyddai unrhyw beth yn y swyddogaethau a ddirprwywyd yn bwysicach na blaenoriaeth absoliwt na phroses arfer pŵer y Cynulliad llawn. Ailadroddaf hyn oherwydd bydd y rhai hynny ohonoch sydd yn cofio yn nodi y gwelwyd sawl achlysur yn ystod y deg mis diwethaf neu fwy lle pasiwyd penderfyniadau gan y Cynulliad hwn yn y Cyfarfod Llawn nad yw'r weinyddiaeth wedi eu dilyn eto neu heb eu cyflawni yng ngwaith y Cynulliad. Fe'ch atgoffais ddoe am 'Gwelwecymru.com', lle na cheir—yn y ddogfen a gynhyrchwyd—

no recognition of the five amendments that were passed by the Assembly in Plenary session. I ask the Presiding Officer and anybody else who is concerned by this to try to gather together all the Assembly's resolutions and check that they have been put into action by the Executive. My amendment 4 sends the administration a timely reminder that this Assembly, in its Plenary form, cannot be forgotten and that what we request and pass represents a majority view and the will of the people of Wales and should therefore be exercised. My amendment is much more about holding the Executive to account and setting the direction that this Assembly wants. I concur with Jonathan's view that there are issues relating to the Committees, and that those Committees must be involved. The structural funds are discussed by the Economic Development Committee. It would not be surprising if the Post-16 Education and Training Committee wanted a stronghold on what happens to the European social fund because it is about human resource development. The way that is delivered would be of interest to it, therefore it is important that there is a synergy. We may be missing that at the moment.

Finally, the debate on the European social fund has been going on for some time. However, it is not just about additionality and public expenditure survey cover, which is what I think the Executive is discussing with the Government. I would be grateful for clarification from Andrew on the nature of that debate because there is a second issue to address on match funding. It has always been assumed that match funding for the European social fund would be found from within our budget. In previous years, the European social fund match funding for Wales has come from within the block grant for Wales. We face that position this year and in the coming years. Institutions will now be asked to double the amount of match funding that they will provide. It is essential that we have new match funding that is in addition to the block grant. That additional money should not just cover the European funding that is coming into Wales under these programmes and under the European social fund, it should

unrhyw gydnabyddiaeth i'r pum gwelliant a basiwyd gan y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn. Gofynnaf i'r Llywydd ac unrhyw un arall sydd yn pryderu am hyn geisio casglu holl benderfyniadau'r Cynulliad ynghyd a gweld a ydynt wedi eu gweithredu gan y Weithrediaeth. Mae fy ngwelliant 4 yn nodyn amserol i atgoffa'r weinyddiaeth na ellir anghofio am y Cynulliad hwn yn ei ffurf Llawn, a bod yr hyn y gofynnwn amdano ac a basiwn yn cynrychioli barn y mwyafrif ac ewyllys pobl Cymru ac y dylai felly gael ei weithredu. Mae a wnelo fy ngwelliant â llawer mwy na dal y Weithrediaeth i gyfrif a gosod y llwybr y dymuna'r Cynulliad hwn ei ddilyn. Cytunaf â barn Jonathan bod materion i'w hystyried ynglŷn â'r Pwyllgorau, a bod yn rhaid cynnwys y Pwyllgorau hynny. Mae'r cronfeydd strwythurol yn cael eu trafod gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd. Ni fyddai'n syndod pe bai'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 yn dymuno cael llaw gadarn ar yr hyn sydd yn digwydd i gronfa gymdeithasol Ewrop oherwydd mae'n ymwneud â datblygu adnoddau dynol. Byddai'r ffordd y caiff ei gyflwyno o ddiddordeb iddo, ac felly mae'n bwysig sicrhau synergedd. Efallai ein bod yn ddiffygiol yn hynny o beth ar hyn o bryd.

Yn olaf, mae'r ddadl am gronfa gymdeithasol Ewrop wedi bod yn mynd rhagddi ers peth amser. Fodd bynnag, nid oes a wnelo ag ychwanegolrwydd a sicrwydd arolwg gwariant cyhoeddus yn unig, sef yr hyn, yn fy marn i, y mae'r Weithrediaeth yn ei drafod gyda'r Llywodraeth. Buaswn yn falch pe bai Andrew yn egluro natur y ddadl honno oherwydd bod ail fater i roi sylw iddo sydd yn ymwneud ag arian cyfatebol. Tybiwyd erioed y byddai arian cyfatebol ar gyfer cronfa gymdeithasol Ewrop yn cael ei ganfod o goffrau'n cyllideb ni. Yn y blynyddoedd a fu, mae arian cyfatebol cronfa gymdeithasol Ewrop ar gyfer Cymru wedi dod o'r grant bloc i Gymru. Yr ydym yn wynebu'r sefyllfa honno eleni ac yn y blynyddoedd i ddod. Gofynnir yn awr i sefydliadau ddyblu'r arian cyfatebol y byddant yn ei gynnig. Mae'n hanfodol ein bod yn cael arian cyfatebol newydd sydd yn ychwanegol at y grant bloc. Ni ddylai'r arian ychwanegol hwnnw gynnwys y cyllid o Ewrop sydd yn dod i

also include the amount needed to provide sufficient match funding. More of the match funding figure for the European social fund comes from the public sector, which is why it is essential that that part of the debate is undertaken. I hope that Andrew Davies will be able to tell us where we are with that debate at the moment. Perhaps he will be prepared to give the Assembly, or at least the Economic Development Committee, news of the development of the discussions between the Government of Wales and the UK Government.

Andrew Davies: I said in my opening remarks that, in principle, I had no problem with the amendments and that, as an Executive, we are agreed on and committed to accountability. However, we do not feel that there is any need to specify or support the wording in the motions. On Ieuan's question about the application process for funds, as I said in answer to Phil's intervention, I will clarify the information and the First Secretary or I will get back to you.

On Mike's questions, I do not think that it is appropriate for me to comment on the negotiations between this administration and Westminster departments and the wider structural funds issue, which also relates to the comprehensive spending review. Those debates will be heard and those questions asked on other occasions. This motion relates to the delegation of powers, therefore I ask the Assembly to oppose the amendments. The important thing is that we support the delegation of powers.

mewn i Gymru yn sgîl y rhaglenni hyn yn unig ac o dan gronfa gymdeithasol Ewrop, dylai hefyd gynnwys y swm sydd ei angen i gynnig arian cyfatebol digonol. Daw mwy o'r swm cyfatebol ar gyfer cronfa gymdeithasol Ewrop o'r sector cyhoeddus, a dyna pam ei bod yn hanfodol mynd i'r afael â'r rhan honno o'r ddadl. Gobeithiaf y gall Andrew Davies ddweud wrthym ble'r ydym yn sefyll gyda'r ddadl honno ar hyn o bryd. Efallai y bydd yn barod i roi newyddion i'r Cynulliad, neu o leiaf i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd, am ddatblygiadau'r trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Andrew Davies: Dywedais yn fy sylwadau agoriadol nad oes gennyf, mewn egwyddor, unrhyw broblem gyda'r gwelliannau a'n bod, fel Gweithrediaeth, yn gytûn ac yn ymrwymedig ynglŷn ag atebolrwydd. Fodd bynnag, ni theimlwn fod angen nodi na chefnogi geiriad y cynigion. Ynghylch cwestiwn Ieuan am y broses o ymgeisio am arian, fel y dywedais wrth ateb ymyriad Phil, byddaf yn cadarnhau'r wybodaeth a bydd y Prif Ysgrifennydd neu minnau yn rhoi ateb ichi.

Ynglŷn â chwestiynau Mike, ni chredaf ei bod yn briodol imi wneud sylw ar y negodiadau rhwng y weinyddiaeth hon ac adrannau San Steffan a mater ehangach cronfeydd strwythurol, sydd hefyd yn berthnasol i'r adolygiad gwariant cynhwysfawr. Caiff y dadleuon hynny eu clywed a'r cwestiynau hynny eu gofyn ar adegau eraill. Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â dirprwyo pwerau, felly gofynnaf i'r Cynulliad wrthwynebu'r gwelliannau. Y peth pwysig yw ein bod yn cefnogi dirprwyo pwerau.

*Gwelliant 1: O blaid 44, Ymatal 0, Yn erbyn 1.
Amendment 1: For 44, Abstain 0, Against 1.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Cairns, Alun

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Thomas, Gwenda

Chapman, Christine
 Dafis, Cynog
 Davies, Andrew
 Davies, David
 Davies, Glyn
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Davies, Ron
 Essex, Sue
 Evans, Delyth
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Graham, William
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Halford, Alison
 Hancock, Brian
 Hart, Edwina
 Humphreys, Christine
 Hutt, Jane
 Jarman, Pauline
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Peter
 Lloyd, David
 Marek, John
 Melding, David
 Middlehurst, Tom
 Morgan, Jonathan
 Randerson, Jenny
 Rogers, Peter
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wigley, Dafydd
 Williams, Kirsty
 Williams, Phil

Amendment adopted.

Derbyniwyd y gwelliant.

3:20 p.m.

Gwelliant 2: O blaid 27, Ymatal 0, Yn erbyn 18.

Amendment 2: For 27, Abstain 0, Against 18.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Cairns, Alun
 Dafis, Cynog
 Davies, David
 Davies, Glyn
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 German, Michael
 Graham, William
 Hancock, Brian
 Humphreys, Christine
 Jarman, Pauline
 Jones, Elin

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
 Butler, Rosemary
 Chapman, Christine
 Davies, Andrew
 Davies, Ron
 Essex, Sue
 Evans, Delyth
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Halford, Alison
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Law, Peter

Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Lloyd, David
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Randerson, Jenny
 Rogers, Peter
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wigley, Dafydd
 Williams, Kirsty
 Williams, Phil

Middlehurst, Tom
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda

Amendment adopted.

Derbyniwyd y gwelliant.

Gwelliant 3: O blaid 27, Ymatal 0, Yn erbyn 20.

Amendment 3: For 27, Abstain 0, Against 20.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Cairns, Alun
 Dafis, Cynog
 Davies, David
 Davies, Geraint
 Davies, Glyn
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 German, Michael
 Graham, William
 Hancock, Brian
 Humphreys, Christine
 Jarman, Pauline
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Lloyd, David
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Randerson, Jenny
 Rogers, Peter
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wigley, Dafydd
 Williams, Kirsty
 Williams, Phil

Barrett, Lorraine
 Butler, Rosemary
 Chapman, Christine
 Davies, Andrew
 Davies, Ron
 Essex, Sue
 Evans, Delyth
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Halford, Alison
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Law, Peter
 Marek, John
 Middlehurst, Tom
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda

Amendment adopted.

Derbyniwyd y gwelliant.

Amendment 4: O blaid 28, Ymatal 0, Yn erbyn 20.

Gwelliant 4: For 28, Abstain 0, Against 20.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Cairns, Alun
 Dafis, Cynog
 Davies, David
 Davies, Geraint

Barrett, Lorraine
 Butler, Rosemary
 Chapman, Christine
 Davies, Andrew
 Davies, Ron
 Essex, Sue
 Evans, Delyth

Davies, Glyn
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 German, Michael
 Graham, William
 Hancock, Brian
 Humphreys, Christine
 Jarman, Pauline
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Ieuan Wyn
 Lloyd, David
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Randerson, Jenny
 Rogers, Peter
 Sinclair, Karen
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wigley, Dafydd
 Williams, Kirsty
 Williams, Phil

Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Halford, Alison
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Law, Peter
 Marek, John
 Middlehurst, Tom
 Pugh, Alun
 Thomas, Gwenda

Amendment adopted.

Derbyniwyd y gwelliant.

Amended motion:

Cynnig wedi'i ddiwygio:

The National Assembly, acting under Section 62(1)(b) of the Government of Wales Act 1998, resolves to delegate to the Assembly First Secretary all of its functions in or under the Structural Funds (National Assembly for Wales) Regulations 2000 SI 2000/906 (laid in the Table Office on 10 May 2000) and under Instruments of Designation (laid in the Table Office on 10 May 2000) made by respectively the Secretary of State for Trade and Industry and by the Minister for Agriculture, Fisheries and Food and agrees to fully consult the respective Subject Committees in exercising the functions above, and that the First Secretary reports annually to the National Assembly how he/she has exercised these delegated powers;

Y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Adran 62(1)(b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad holl swyddogaethau'r Cynulliad yn ôl neu o dan Reoliadau Cronfeydd Strwythurol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2000 OS 2000/906 a wnaethpwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant (gosodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai 2000) ac o dan yr Offerynnau Dynodiad a wnaethpwyd gan y Gweinidog Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ac yn cytuno i ymgynghori'n llawn â'r Pwyllgorau Pwnc perthnasol wrth arfer y swyddogaethau uchod, a bod y Prif Ysgrifennydd yn adrodd bob blwyddyn i'r Cynulliad Cenedlaethol sut mae ef/hi wedi arfer y pwerau dirprwyedig;

Nothing in this motion will have the effect of reducing the pre-eminence of the authority of the full Assembly or of reducing the role of the Assembly Committees in the exercise of the above functions.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn gostwng awdurdod y Cynulliad llawn neu'n cyfyngu ar swyddogaeth Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y pwerau uchod.

*Cynnig wedi'i ddiwygio: O blaid 47, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
 Amended motion: For 47, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
 Bates, Mick

Black, Peter
 Bourne, Nick
 Butler, Rosemary
 Cairns, Alun
 Chapman, Christine
 Dafis, Cynog
 Davies, Andrew
 Davies, David
 Davies, Geraint
 Davies, Glyn
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Davies, Ron
 Essex, Sue
 Evans, Delyth
 German, Michael
 Graham, William
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Hancock, Brian
 Hart, Edwina
 Humphreys, Christine
 Hutt, Jane
 Jarman, Pauline
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Peter
 Lloyd, David
 Marek, John
 Melding, David
 Middlehurst, Tom
 Morgan, Jonathan
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Rogers, Peter
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wigley, Dafydd
 Williams, Kirsty
 Williams, Phil

Amended motion adopted.

Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.

Gorchymyn Rhan 7 o dan Adran 59 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
The Part 7 Order under Section 59 of the Town and Country Planning Act 1990

Elin Jones: I propose that

Elin Jones: Cynigiaf fod

the Assembly resolves to instruct the Assembly Secretary for the Environment, Planning and Transport to bring forward a draft Order under section 59 of the Town and Country Planning Act 1990. The objectives to be achieved by this Order are:

y Cynulliad yn penderfynu cyfarwyddo Ysgrifennydd y Cynulliad yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ac i gyflwyno Gorchymyn drafft dan adran 59 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Yr amcanion i'w cyflawni gan y Gorchymyn hwn yw:

to enable economic diversification of agricultural buildings which have been in

galluogi arallgyfeirio economaidd ar gyfer adeiladau amaethyddol sydd wedi cael eu

agricultural use for 5 years or more by amending the Town and Country Planning (General Permitted Development) Order 1995;

to confer permitted development rights on agricultural land comprising an agricultural unit of at least 5 hectares so that existing agricultural buildings on the land can be redeployed by i) applying the uses which fall within Class B1 of the Town and Country Planning (Use Classes) Order 1987 and ii) allowing modifications and limited extensions to those buildings as necessary for such redeployment.

To say that I was caught by surprise when my name was drawn out of the first Assembly ballot for subordinate legislation would be an understatement. I have only ever won one raffle. At the age of 10, I correctly guessed the name of a doll in a chapel vestry competition in Lampeter. The doll had been made by my friend's mother. My friend had told me the doll's name, Olwen, in advance.

Surprise at the ballot result was quickly followed by a period of denial that eventually led into a period combining creative and practical thought with some damage limitation tactics. Be warned therefore the next winner of the ballot—for it will not be me—that time creeps up on you.

The motion I propose today seeks your support to instruct the Assembly Secretary to bring forward a piece of subordinate legislation to be debated in further detail in this Chamber. It amends planning legislation to promote economic development in rural areas and to support farm diversification and opportunities. That would be done by extending committed development rights to agricultural buildings in use for five years or more. In reaching this point today, I have received considerable support and advice from officials in Sue Essex's department, in the Office of the Presiding Officer and from my researcher, Haf Roberts. We have spent periods during the last two months in the

defnyddio i ddibenion amaethyddol ers 5 mlynedd neu fwy trwy ddiwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad a Ganiateir yn Gyffredinol) 1995;

Rhoi hawliau datblygiadau a ganiateir ar dir amaethyddol sydd yn cynnwys uned amaethyddol o 5 hectar o leiaf er mwyn i adeiladau amaethyddol cyfredol ar y tir allu cael eu defnyddio trwy i) cymhwyso'r defnydd a ddaw dan Ddosbarth B1 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 a ii) caniatáu addasiadau ac estyniadau cyfyngedig i'r adeiladau hynny yn ôl y gofyn ar gyfer defnydd o'r fath.

Pan dynnwyd fy enw o bleidlais gyntaf y Cynulliad ar is-ddeddfwriaeth yr oedd yn syndod imi a dweud y lleiaf. Dim ond unwaith erioed yr enillais raffl. Pan oeddwn yn 10 mlwydd oed, dyfelais enw doli yn gywir mewn cystadleuaeth yn festri capel yn Llanbedr-pont-Steffan. Mam fy ffrind oedd wedi gwneud y ddoli. Yr oedd fy ffrind wedi dweud enw'r ddoli, Olwen, wrthyf ymlaen llaw.

Yn syth ar ôl y syndod ynglŷn â chanlyniad y bleidlais, daeth cyfnod o wadu a arweiniodd yn y pen draw at gyfnod o gyfuno syniadau creadigol ac ymarferol gyda thactegau 'gwneud y gorau'. Fe'ch rhybuddiaf felly, enillydd nesaf y bleidlais—oherwydd nid y fi fydd hi—fod amser yn dod ar eich gwarthaf yn bur sydyn.

Mae'r cynnig a gynigiaf heddiw yn ceisio eich cefnogaeth i gyfarwyddo Ysgrifennydd y Cynulliad i gyflwyno darn o is-ddeddfwriaeth i'w drafod ymhellach mewn manylder yn y Siambr hon. Mae'n diwygio deddfwriaeth cynllunio er mwyn hybu datblygiad economaidd mewn ardaloedd gwledig i gefnogi cyfleoedd ac arallgyfeirio ar ffermydd. Byddai hynny'n digwydd drwy ymestyn hawliau datblygu ymrwymedig i gynnwys adeiladau amaethyddol sydd wedi eu defnyddio am bum mlynedd neu fwy. Wrth gyrraedd y pwynt hwn heddiw, yr wyf wedi derbyn llawer o gefnogaeth a chynngor gan swyddogion yn adran Sue Essex, yn Swyddfa'r Llywydd a chan fy ymchwilydd,

confusing corridors of subordinate legislation and in the depths of Standing Orders. It is not my intention to illustrate the agricultural or wider rural crisis this afternoon. This is well known to all of us. Many have articulated and pontificated those arguments from this spot over the past year. I want to outline the benefits that will accrue from this subordinate legislation and how it can contribute to creating the kind of community in which I wish to work and live.

I have always believed that rural development is about creating economic and social opportunities in rural areas. It is not about preserving the past or protecting man-made or person-made interference. Our beautiful landscape is important to us in Wales, especially in attracting tourists. People cannot live and work on the covers of tourist board brochures and rural Wales cannot become one big tourist amenity. The Museum of Welsh Life, St Fagans, performs the function of preserving our past. We need to create a future.

This legislation stems from the need to create economic development opportunities in rural areas and not just, as in recent public policy, in towns such as Aberystwyth, Carmarthen and Newtown—where pressure on land for development is now high—but also in outlining rural areas such as Pontrhydfendigaid, Ffostrasol and Dinas Mawddwy. The legislation would also ease diversification possibilities on farms and this is an important additional benefit of its introduction. I do not believe for a second that it will be a major inroad into the current agricultural crisis but, it will reduce unnecessary obstacles facing on-farm diversification. In turn this will provide much needed support to farmers.

Sbardun ychwanegol i'r ddeddfwriaeth hon oedd cyflwyniad argyhoeddedig gan John Hopkins mewn sesiwn meic agored i Bwyllgor Rhanbarth y Canolbarth yn

Haf Roberts. Treuliasom gyfnodau yn ystod y ddau fis diwethaf ymysg coridorau dryslyd is-ddeddfwriaeth a dyfnderoedd y Rheolau Sefydlog. Nid wyf yn bwriadu rhoi darlun o'r argyfwng amaethyddol na'r argyfwng gwledig ehangach y prynhawn yma. Gwyddom oll amdano yn dda amdano. Mae llawer wedi mynegi a doethinebu y dadleuon hynny o'r fan hon dros y flwyddyn ddiwethaf. Yr wyf am amlinellu'r manteision a fydd yn deillio o'r is-ddeddfwriaeth hon a sut y gall gyfrannu at greu'r math o gymuned y dymunaf weithio a byw ynddi.

Yr wyf wedi credu erioed bod a wnelo datblygu gwledig â chreu cyfleoedd economaidd a chymdeithasol mewn ardaloedd gwledig. Nid oes a wnelo â chadw'r gorffennol fel yr oedd na gwarchod ymyrraeth gan ddyn neu bobl. Mae ein tirwedd brydferth yn bwysig inni yng Nghymru, yn arbennig o safbwynt denu twristiaid. Ni all pobl fyw a gweithio ar gloriau pamffledi'r bwrdd croeso ac ni all y Gymru wledig ddatblygu'n un cyfleustra mawr i dwristiaid. Mae Amgueddfa Werin Cymru, San Ffagan, yn sicrhau cadwraeth ein gorffennol. Mae'n rhaid inni greu dyfodol.

Deillia'r ddeddfwriaeth o'r angen i greu cyfleoedd datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig nid yn unig, fel mewn polisi cyhoeddus diweddar, mewn trefi fel Aberystwyth, Caerfyrddin a'r Drenwydd—lle mae pwysau trwm bellach ar dir i'w ddatblygu—ond hefyd o ran amlinellu ardaloedd gwledig fel Pontrhydfendigaid, Ffostrasol a Dinas Mawddwy. Byddai'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn haws i bobl arallgyfeirio ar ffermydd ac mae hyn yn fantais ychwanegol bwysig sydd yn deillio o'i gyflwyno. Ni chredaf am eiliad y bydd yn ffordd sylweddol o ennill tir ym mrwydr yr argyfwng presennol mewn amaethyddiaeth ond, bydd yn lleihau llesteiriau diangen sydd yn rhwystro pobl rhag arallgyfeirio ar ffermydd. Yn ei dro, bydd hyn yn cynnig cefnogaeth mawr ei hangen i ffermwyr.

An additional boost to this legislation was John Hopkins's convincing presentation in an open mike session to the Mid Wales Regional Committee at Brecon last

Aberhonddu fis Rhagfyr diwethaf. Cyflwynodd John Hopkins ddadl gref dros hwyluso'r canllawiau a'r broses ar gyfer addasu adeiladau fferm gwag i fod o ddefnydd economaidd amgenach. Yng nghanol y ddadl bresennol ar rôl a phwrpas pwyllgorau rhanbarthol, yr oedd yn werth gwrandio ar gyflwyniad John Hopkins. Efallai iddo chwarae rhan mewn cyflwyno darn o ddeddfwriaeth maes o law.

Mae'r ardal o gwmpas Aberhonddu mewn parc cenedlaethol. Cynigir yr is-ddeddfwriaeth hon ar gyfer Cymru gyfan. Ni ddylid eithrio pobl a chymunedau Brycheiniog, Penfro ac Eryri yn gyfan gwbl o'r posibilïad o gynyddu'r cyfleon gwaith yn yr ardaloedd hynny. Nid gwarchodfeydd cenedlaethol mohonynt wedi'r cyfan, ond parciau cenedlaethol. Byddwn yn barod i edrych ar y manylion o lunio cymalau ychydig yn wahanol ar gyfer parciau cenedlaethol yn ystod y broses o ddrafftio'r ddeddfwriaeth, pe bai hynny'n angenrheidiol.

Peter Black: You have raised the point of national parks. Given your party's commitment to the environment, how do you feel that this will impact on areas of outstanding natural beauty, in particular, and given the fact that you were effectively bypassing the planning process, what will be the role of statutory consultees such as CADW in the conversion of what may be historic bonds?

Elin Jones: Yr hyn y ceisiaf ei wneud yn y drafodaeth heddiw yw edrych ar egwyddor y mater hwn. Byddwn yn barod i gynnwys ardaloedd o brydferthwch naturiol arbennig yn fy sylwadau ynglŷn â llunio cymalau ychydig yn wahanol mewn deddfwriaeth yn ymwneud â pharciau cenedlaethol. Gallwn edrych ar hynny yn y broses o lunio'r ddeddfwriaeth yn ei manylder.

Y cwestiwn y mae'n rhaid inni ei ofyn wrth ystyried y cynnig hwn yw a garwn ardal wledig yn llawn adfeilion adeiladau fferm, sydd yn perthyn i batrwm amaethyddol a fu, neu glosydd fferm yn fwrlwm o weithgaredd economaidd amaethyddol neu amgen. Mewn

December. John Hopkins presented a strong argument for facilitating the guidelines and the process for converting empty farm buildings and putting them to alternative economic use. In the midst of the current discussion on the role and purpose of regional committees, it was worth listening to John Hopkins's presentation. It may have played a role in the introduction of a piece of legislation in due course.

The area surrounding Brecon lies within a national park. This subordinate legislation is proposed for the whole of Wales. The people and communities of Brecknockshire, Pembrokeshire and Snowdonia should not be entirely excluded from the possibility of increased employment opportunities in those areas. They are not national reserves after all, but national parks. I would be willing to look at the details of drawing up slightly different clauses for national parks during the process of drafting the legislation, if that were necessary.

Peter Black: Yr ydych wedi crybwyll parciau cenedlaethol. Ag ystyried ymrwymiad eich plaid i'r amgylchedd, pa effaith y teimlwch y bydd hyn yn ei gael ar ardaloedd o brydferthwch naturiol eithriadol, yn benodol, ac o ystyried eich bod i bob pwrpas yn osgoi mynd drwy'r broses gynllunio, beth fydd rôl y grwpiau statudol yr ymgynghorir â hwy fel CADW yn y broses o addasu yr hyn a allai fod yn rhwymau hanesyddol?

Elin Jones: What I am trying to achieve in today's discussion is to consider the principle of this matter. I would be willing to include areas of outstanding natural beauty in my comments regarding drawing up slightly different clauses in legislation relating to national parks. We can look at that in the process of drafting the legislation in detail.

The question that we must ask in considering this motion is whether we want a rural area full of farm building ruins, which belongs to an agricultural pattern of the past, or vibrant farmyards full of economic agricultural or other activity. In a rural area, do we want

ardal wledig, a ydym eisiau cyfleon gwaith o fewn cyrraedd i bentrefi cefn gwlad neu a ydym eisiau gweld pawb yn teithio 10 neu 20 milltir i'w gwaith yn y dref agosaf mewn car? Golyga hynny deithio mewn car i'r rhan fwyaf gan fod trafndiaeth gyhoeddus mor anobeithiol yng nghefn gwlad.

work opportunities within reach of rural villages or do we want to see everybody travelling 10 or 20 miles to work in the nearest town by car? It means travelling by car for most people as public transport is so hopeless in rural areas.

3:30 p.m.

Hyd yn oed gyda'r ewyllys orau yn y byd, byddai'n anodd darparu trafndiaeth gyhoeddus ddigonol yng nghefn gwlad.

Even with the best will in the world, it would be difficult to provide adequate public transport in rural areas.

Yr wyf yn hyderus fod y cynnig hwn yn cydymffurfio â'r egwyddor o gynaliadwyedd, sydd wrth wraidd gwaith y Cynulliad hwn.

I am confident that this motion conforms to the principle of sustainability, which lies at the heart of this Assembly's work.

Mae'r patrwm ffermio wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Y mae'r hen ysguboriau, stablau, beudai a'r cytiau moch yn ddiangen. Nid oes lle yn yr ysgubor i'r 'big bale silage' ac nid oes lle yn y beudy i'r parlwr llaeth newydd. Heb eu defnyddio, bydd yr adeiladau hyn yn dirywio a dadfeilio'n gyflym. Mae'r cynnig yn gofyn am ddeddfwriaeth a fydd yn caniatáu i'r adeiladau hyn gael eu datblygu ar gyfer gweithgaredd economaidd amgenach—ar gyfer defnydd B1 yn unig, sef swyddfeydd, gweithdai, stordai a diwydiant ysgafn.

The pattern of farming has changed substantially over recent years. The old barns, stables, cowsheds and pigsties are no longer required. There is no room in the barn for the big bale silage and there is no room in the cowshed for the new milking parlour. Without use, these buildings will deteriorate and quickly fall into ruin. The motion asks for legislation that will allow these buildings to be developed for alternative economic activity—for B1 use only, namely for offices, workshops, storehouses and light industry.

Ystyriais gynnwys defnydd preswyl, ond gadewais hynny, gan y byddai wedi arwain at drafodaeth ychwanegol. Mae potensial enfawr mewn edrych ar hen glosydd fferm fel stadau bach o dri neu bedwar tŷ, gan drosi'r beudai yn dai, ond dadl arall yw honno i'w thrafod ar ddiwrnod arall. Cyfyng felly yw cyrhaeddiad y cynnig ond cyraeddadwy gobeithio—

I considered including residential use, but I omitted that, because it would have led to additional discussion. There is huge potential in looking at old farmyards as small estates of three or four houses, converting the cowsheds into houses, but that is another debate to be discussed on a different day. The motion is therefore limited in its scope but it is achievable I hope—

Christine Chapman: This affects rural areas to a great extent, but some of us who are Assembly Members in urban areas, also have a lot of agricultural land in our constituencies. What guarantees are there that the issue of rights of way and public footpaths, many of which cross agricultural land, would be considered? As you said, people could cross land where there are disused barns. What if we put up fences and, possibly, a golf course or a hotel, what could

Christine Chapman: Mae hyn yn effeithio ar ardaloedd gwledig i raddau helaeth, ond mae gan rai ohonom sydd yn Aelodau o'r Cynulliad mewn ardaloedd trefol, hefyd lawer o dir amaethyddol o fewn ein hetholaethau. Pa sicrwydd sydd y byddai hawliau tramwy a llwybrau cyhoeddus, sydd yn aml yn croesi tir amaethyddol, yn cael eu hystyried? Fel y dywedoch, gallai pobl groesi dros dir lle mae hen ysgubor yn sefyll. Beth pe baem yn codi ffensys ac, o bosibl, gwrs

you do about that?

golff neu westy, beth allech chi ei wneud am hynny?

Elin Jones: Ni fydd y ddeddfwriaeth hon yn caniatáu cyrsiau golff. Fodd bynnag, dywedaf o ran egwyddor, na fydd yr hyn a gyflwynaf heddiw yn effeithio ar unrhyw fath o hawl i fynediad i gerdded ar hyd llwybrau cyhoeddus. Os rhywbeth, bydd yn ychwanegu at hynny, gan y bydd pobl yn teithio trwy glosydd fferm a bydd mwy o drafnidiaeth pobl yng nghefn gwlad.

Elin Jones: This legislation will not allow golf courses. However, I say in principle, that what I present today will not affect any right of access to walk along public footpaths. If anything, it will add to that, because people will pass through farmyards and there will be more people traffic in rural areas.

Mae'r cynnig hefyd yn sicrhau, drwy ddweud bod angen i'r adeilad fferm fodoli ers pum mlynedd, na all unrhyw un ddefnyddio'r hawl newydd hon i'r perwyl o osgoi'r system gynllunio yn unig.

The motion also ensures, by stating that the farm building must have existed for five years, that people cannot use this new right for the sole purpose of avoiding the planning system.

Y dilema mawr o gyflwyno'r cynnig hwn yw ai drwy ddeddfwriaeth y dylid ceisio cyflawni'r nod neu drwy ganllawiau cynllunio. Mae'r canllawiau eisoes yn ffafrio addasu hen adeiladau fferm ar gyfer defnydd economaidd arall. Fodd bynnag, yn aml, mae'r realiti yn bell o'r canllawiau, oherwydd bod y canllawiau'n agored bob amser i ddehongliad amrywiol. Canfyddiad y ffermwr, beth bynnag am y canllawiau, yw bod y broses gynllunio yn milwrio'n erbyn datblygu ar glos fferm.

The big dilemma in presenting this motion is whether we should try to achieve the goal by legislation or by planning guidance. The guidance already favours converting old farm buildings for other economic use. However, often, the reality is far from the guidance, because the guidance is always open to different interpretation. The farmer's perception, whatever the guidance, is that the planning process militates against development on farmyards.

Drwy gyd-ddigwyddiad llwyr, ar y nos Wener y cyflwynais y cynnig hwn, agorais fferm fêl a medd yng Nghei Newydd yn fy etholaeth. Yr oedd y broses yr oedd y ffermwr hwnnw wedi mynd trwyddi i gael caniatâd cynllunio i addasu adeilad fferm i weithdy gwneud medd wedi parhau dros ddwy flynedd, gyda rhwystrau o'r adran gynllunio ar hyd y ffordd. Mae hyn o fewn cyngor sir sydd yn hanesyddol wedi cefnogi datblygiadau yng nghefn gwlad neu ddatblygiadau byngalos o leiaf.

By pure coincidence, on the Friday night that I tabled this motion, I opened a honey and mead farm in New Quay in my constituency. The process that that farmer had gone through to gain planning permission to convert a farm building into a workshop for making mead had lasted over two years, with obstacles from the planning department along the way. That is in a county council that has historically supported developments in rural areas or bungalow developments at least.

Erbyn hyn, mae'r fferm fedd yn enghraifft ddeniadol o ymdrech un ffermwr i ymestyn y gweithgaredd economaidd ar ei fferm. Efallai y dylwn fod wedi dod â photel o fedd i chi i gyd er mwyn eich darbwyllo o hyn.

The mead farm is now an attractive example of one farmer's effort to expand the economic activity on his farm. Perhaps I should have brought you all a bottle of mead to convince you of this.

Mwy o enghreifftiau fel hyn sydd eu hangen a llai o rwystrau. Mae cefnogaeth gyffredinol

More examples like this are required and fewer obstacles. There is general support for

i'r egwyddor o gefnogi defnydd economaidd amgenach o hen adeiladau fferm. Mae'r drafodaeth bresennol yn y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar arallgyfeirio yn profi hyn. Yn ogystal, mae'r ddwy undeb amaethyddol a Chymdeithas y Tirfeddianwyr Gwledig yn cefnogi'r cynnig hwn.

Gellid cyflawni rhywfaint o gynnwys y cynnig drwy ganllawiau cynllunio cryfach, ac maent yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd deddfwriaeth yn sail gadarnach i'r egwyddor, gan leihau'r posibilrwydd iddo gael ei gamddehongli gan unrhyw adran gynllunio. Gobeithiaf y bydd adolygiad y canllawiau yn gallu ymestyn yr amcanion y tu ôl i'r cynnig i ddefnydd helaethach eto o hen adeiladau fferm maes o law.

Nid osgoi'r broses ymgynghori ar y canllawiau yw fy mwriad. Sgîl-effaith anorfod unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth gan Aelod unigol yw y gall dorri ar draws cynlluniau a phrosesau sydd ar waith gan y Llywodraeth neu Bwyllgor Cynulliad. Nid yw'r darn hwn o ddeddfwriaeth yn torri ar draws amcanion y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, a byddai, wrth ei lunio, yn destun i ymgynghoriad yn yr un modd â'r canllawiau cynllunio.

Croesawaf awydd Glyn Davies yn ei welliant i symud ymlaen yn gyflym â'r gwaith hwn a dehonglaf hynny fel cefnogaeth. Edrychaf ymlaen i glywed barn Aelodau eraill o'r Cynulliad. Fy mwriad cychwynnol wrth feddwl am ddarn o ddeddfwriaeth i'w gyflwyno oedd canfod un a fyddai yn newid bywyd pobl Cymru gyfan er gwell ac am byth. Buan iawn y sylweddolais pa mor amhosibl oedd fy nod a pha mor gyfyng yw'r cyfle. Heddiw, cyflwynaf is-ddeddfwriaeth sydd yn berthnasol a phwysig i'm hetholaeth ac etholaethau gwledig eraill ac a fydd yn cynnig cyfleon economaidd ychwanegol i rai pobl mewn rhai meysydd. Mae'n ddarn o ddeddfwriaeth sydd yn tyfu allan o werthoedd fy mhlaid ond, yn bwysicach yn yr achos hwn, o'm daliadau fy hun.

the principle of supporting alternative economic use of old farm buildings. The current discussion in the Agriculture and Rural Development Committee on diversification proves this. Also, both agriculture unions and the Country Landowners Association support this motion.

Some of the motion's contents could be achieved by stronger planning guidelines, and they are being reviewed at the moment. However, legislation will be a firmer basis for the principle, reducing the possibility of it being misinterpreted by any planning department. I hope that the review of the guidelines can extend the objectives behind the motion to even further use of old farm buildings in due course.

It is not my intention to bypass the consultation process on the guidelines. The inevitable side-effect of any piece of legislation by an individual Member is that it can interfere with plans and processes that are being implemented by the Government or an Assembly Committee. This piece of legislation does not interfere with the objectives of the Agriculture and Rural Development Committee and would be, while being drawn up, subject to consultation in the same way as the planning guidelines.

I welcome Glyn Davies's desire in his amendment to move ahead swiftly with this work and I interpret that as support. I look forward to hearing the views of other Assembly Members. My initial aim in thinking of a piece of legislation to present was to find one that would change the lives of the people of Wales as a whole for the better and forever. I soon realised how impossible my aim was and how restricted the opportunity is. Today, I am presenting subordinate legislation that is relevant and important to my constituency and to other rural constituencies and that will offer additional economic opportunities to some people in some fields. It is a piece of legislation that grows out of the values of my party but, more importantly in this case, out of my own beliefs.

I began this speech by referring to my doll, Olwen, which I won in a raffle 20 years ago. I still have the doll. Supporting my motion today could mean that the benefits of the first ballot of subordinate legislation will also be around in 20 years' time, by democratic process this time and not by innocent cheating. I ask Members to support this motion.

The Presiding Officer: In view of time constraints, I ask Members, apart from the Assembly Secretary, to limit their remarks to about three minutes.

Glyn Davies: I propose amendment 1. After 'Planning Act 1990' insert

and because of the current crisis in rural Wales, that this Order is brought forward with the utmost urgency.

I wholly agree with Elin Jones's proposal. I agree with her synopsis of role development and I also heard the presentation by John Hopkins. It is now over 20 years, probably about the time when Elin was winning her doll, that I first put my name forward for election to the then Montgomeryshire District Council. In those days, I was a much less rounded politician than I am now. Brash, perhaps, would have been a fair description. I stood as an independent, as Conservatives quite often do, challenging the council chairman. The main flank of my campaign was that the planning authorities should be abolished and that people should be allowed to build whatever and wherever they wanted. However, like most politicians, I adjusted my position after being elected, although there must have been some general support for the underlying principle of what I was saying, as I was soon elected to the planning committee as its chairman, where I remained for the next six years.

Today, I accept that there is a role for planning, although I still lean towards the libertarian interpretation. Therefore, I am supporting the thrust of Elin Jones's argument, although I accept that, in some

Dechreuais yr araith hon drwy gyfeirio at fy noli, Olwen, a enillais mewn raffl 20 mlynedd yn ôl. Mae'r ddoli honno'n dal gennyf. Gallai cefnogi fy nghynnig heddiw olygu bod manteision y bleidlais gyntaf ar is-ddeddfwriaeth hefyd yn dal gyda ni ymhen 20 mlynedd, y tro hwn drwy gyfrwng proses ddemocrataidd ac nid drwy dwyll diniwed. Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r cynnig hwn.

Y Llywydd: Yn sgîl y prinder amser, gofynnaf i'r Aelodau, ar wahân i'r Ysgrifennydd Cynulliad, gyfyngu eu sylwadau i dua tri munud.

Glyn Davies: Cynigiaf welliant 1. Ar ôl 'Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990' ychwaneger

ac oherwydd yr argyfwng presennol yng nghefn gwlad Cymru, bod y gorchymyn hwn yn cael ei gyflwyno yn ddiymdroi.

Cytunaf yn llwyr â chynnig Elin Jones. Cytunaf â'i chrynodeb o hanfod datblygu rôl a chlywais innau hefyd y cyflwyniad gan John Hopkins. Mae bellach yn 20 mlynedd a mwy, tua'r adeg yr enillodd Elin ei doli mae'n debyg, ers imi roi fy enw gerbron ar gyfer etholiad Cyngor Dosbarth Maldwyn fel yr oedd bryd hynny. Yn y dyddiau hynny, yr oeddwn yn wleidydd llawer llai crwn nag yr ydwyf heddiw. Byddai hyf, efallai yn ddisgrifiad teg. Sefais fel ymgeisydd annibynnol, fel y gwna Ceidwadwyr yn aml, i herio cadeirydd y cyngor. Prif fyrdwn fy ymgyrch oedd y dylid diddymu awdurdodau cynllunio ac y dylai pobl gael adeiladu beth bynnag y dymunent ym mhle bynnag y dymunent. Fodd bynnag, fel sawl gwleidydd, newidiais fy safbwynt ar ôl cael fy ethol, er mae'n rhaid fod rhywfaint o gefnogaeth gyffredinol i seiliau egwyddor yr hyn yr oeddwn yn ei ddweud, gan imi gael fy ethol yn gadeirydd y pwyllgor cynllunio, lle'r arhosais am y chwe blynedd nesaf.

Heddiw, derbyniaf fod lle i gynllunio, er fy mod yn parhau i dueddu tuag at y dehongliad libertaraidd. Felly, yr wyf yn cefnogi byrdwn dadl Elin Jones, er y derbyniaf, mewn rhai rhannau o Gymru lle mae pwysau datblygu,

parts of Wales where there are development pressures, any change to planning legislation must be carefully introduced. Making use of redundant buildings has always seemed a sensible suggestion to me. When I was chairman of the planning committee, we bought up redundant buildings and let them as workshops after conversion. Today, the case for the relaxation of planning law to encourage alternative use of redundant farm buildings in rural Wales is stronger than ever. As farms all over Wales become increasingly uneconomic, the number of such buildings is rising and will continue to do so. As Elin Jones said, there is no point in leaving those buildings empty to become dilapidated and scars on the landscape. There is every reason to use them to generate employment to replace the jobs currently being lost from the rural economy. I congratulate Elin on bringing forward a motion that could bring great benefit to the hard-pressed rural community and will support it with enthusiasm.

3:40 p.m.

The Secretary for the Environment, Planning and Transport (Sue Essex): I thank Elin for tabling this motion. It is an historic occasion because it is the first time that a private motion has been tabled in the Assembly and in Wales. It provides a useful opportunity for individuals to bring forward something that they feel would help their communities.

I do not associate Elin with the word 'cheating'. I want to make that point clear. This comes from a desire which we all share. I represent a largely urban constituency but all of us, whether we represent a rural or urban constituency, must take the situation in the rural areas seriously because they do appreciate the kind of concerns that we have heard so often.

When Elin won the ballot she came to chat with me about her apprehension of trying to do something on planning. It is an area littered with all sorts of problems, with landmines at some stages. We talked through what might be possible and looked at the

bod yn rhaid bod yn ofalus wrth gyflwyno unrhyw newid i ddeddfwriaeth cynllunio. Mae defnyddio adeiladau segur wedi ymddangos yn awgrym synhwyrol imi erioed. Pan oeddwn yn gadeirydd y pwyllgor cynllunio, prynasom adeiladau segur a'u haddasu a'u rhoi ar osod fel gweithdai. Heddiw, mae'r ddadl dros lacio'r gyfraith cynllunio i annog defnydd amgen o adeiladau fferm segur yn y Gymru wledig yn gryfach nag erioed. Wrth i fwy a mwy o ffermydd ledled Cymru beidio â bod yn economaidd, mae nifer yr adeiladau hyn yn cynyddu a bydd yn parhau i wneud hynny. Fel y dywed Elin Jones, nid oes unrhyw bwynt gadael i'r adeiladau gwag hynny fynd â'u pen iddynt a chreithio ein tirlun. Mae pob rheswm i'w defnyddio i greu gwaith i lenwi'r bwlch a adawyd gan y swyddi sydd yn cael eu colli o'r economi gwledig heddiw. Llongyfarchaf Elin ar gyflwyno cynnig a allai fod o fudd mawr i'r gymuned wledig sydd dan bwysau ac fe'i cefnogaf yn frwdfrydig.

Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth (Sue Essex): Diolchaf i Elin am gyflwyno'r cynnig hwn. Mae'n achlysur hanesyddol oherwydd dyma'r tro cyntaf i gynnig preifat gael ei gynnig yn y Cynulliad ac yng Nghymru. Mae'n gyfle defnyddiol i unigolion roi rhywbeth gerbron y teimlant a fydd o fudd i'w cymunedau.

Nid wyf yn cysylltu Elin gyda'r gair 'twyllo'. Carwn wneud y pwynt hwnnw'n eglur. Deillia hyn o awydd yr ydym oll yn ei rannu. Cynrychiolaf etholaeth drefol yn bennaf ond rhaid i bob un ohonom, boed yn cynrychioli etholaeth drefol neu wledig, gymryd y sefyllfa mewn ardaloedd gwledig o ddifrif oherwydd maent yn gwerthfawrogi'r mathau o bryderon yr ydym wedi eu clywed gynifer o weithiau.

Pan enillodd Elin y bleidlais daeth i gael sgwrs gyda mi am ei phryderon ynglŷn â cheisio gwneud rhywbeth ym maes cynllunio. Mae'n faes sydd yn frith o broblemau, gyda ffrwydrion tir ar ambell gam. Siaradom am yr hyn y gellid ei wneud

objectives she wanted to achieve. I said that I thought that planning guidance—I will explain later what I mean by that—would be the most appropriate vehicle. The ballot requires this to be a piece of subordinate legislation. Therein lies the rub. Many Members would want to introduce changes in terms of major moves forward by the Assembly. Their ideas may not always materialise into subordinate legislation. In fairness, Elin has been the guinea pig. It is the first time that this has been done and so there have been difficulties for her in trying to develop those ideas over a short period.

However, although I appreciate Elin's objectives, which Glyn supported—I saw his colleague from Monmouthshire going a little white when he talked about getting rid of the planning legislation altogether, wondering how far he would go—I recommend resisting this Order. I will suggest other ways in which we can meet those objectives, which do not have the inherent difficulties of Elin's suggestion.

Ieuan Wyn Jones: Do you agree that, because all Members are going through a new experience, nothing would be lost by giving the statutory instrument, in its current form, the Assembly's blessing? Any concerns about the detail—the way we implement it—can be discussed later. Discussion ceases if it is voted down today.

Sue Essex: I appreciate your point but this issue of permitted development is a matter of principle. It is not only about implementation but also the principle of what relaxing permitted development means and the downside of that. It is right that I bring this to the attention of everyone here today. I will outline those difficulties. I have had many representations since this has hit the public. Let me explain what permitted development means and from where we have inherited it. It was recognised in the 1947 core piece of legislation for planning that agriculture and forestry would have permitted development rights.

gan edrych ar yr amcanion yr oedd am eu cyflawni. Dywedais fy mod yn credu mai canllawiau cynllunio—eggluraf yn nes ymlaen beth yr wyf yn ei olygu wrth hynny—fyddai'r ffordd fwyaf priodol. Mae'r bleidlais yn ei gwneud yn ofynnol i hyn fod yn ddarn o is-ddeddfwriaeth. Dyna'r anhawster. Byddai llawer o Aelodau yn dymuno cyflwyno newidiadau a fyddai'n rhoi cyfle i'r Cynulliad gymryd camau sylweddol ymlaen. Efallai na fyddai eu syniadau bob amser yn esgor ar is-ddeddfwriaeth. O ran tegwch, mae Elin yn arbrawf. Dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd ac felly cafodd anhawster i geisio datblygu'r syniadau hynny mewn cyfnod byr.

Fodd bynnag, er fy mod yn gwerthfawrogi amcanion Elin, a gefnogwyd gan Glyn—gwelais ei gyd-Aelod o Sir Fynwy yn gwelwi ychydig pan siaradodd am gael gwared â deddfwriaeth cynllunio yn llwyr, gan feddwl pa mor bell y byddai'n mynd—yr wyf yn argymhell gwrthsefyll y Gorchymyn hwn. Awgrymaf ffyrdd eraill o gyflawni'r amcanion hynny, nad ydynt yn peri'r anawsterau sydd yn gynhenid i awgrym Elin.

Ieuan Wyn Jones: Gan fod hwn yn brofiad newydd i'r holl Aelodau, a gytunwch na fyddai unrhyw beth yn cael ei golli drwy roi bendith y Cynulliad i'r offeryn statudol ar ei ffurf bresennol? Gellir trafod unrhyw bryderon am y manylion—y ffordd yr ydym yn ei weithredu—yn nes ymlaen. Bydd y drafodaeth yn peidio os pleidleisir yn ei erbyn heddiw.

Sue Essex: Gwerthfawrogaf eich pwynt ond mae'r mater hwn o ddatblygu a ganiateir yn fater o egwyddor. Nid oes a wnelo â gweithredu yn unig ond hefyd ag egwyddor yr hyn a olygir wrth lacio datblygiadau a ganiateir ac anfanteision hynny. Mae'n briodol imi ddwyn hyn i sylw pawb yma heddiw. Amlinellaf yr anawsterau hynny. Yr wyf wedi clywed llawer o sylwadau gan bobl ers i hyn ddod i sylw'r cyhoedd. Gadewch imi egluro beth yw ystyr datblygu a ganiateir ac o ble yr ydym wedi ei etifeddu. Cydnabuwyd yn neddfwriaeth cynllunio craidd 1947 y rhoddir hawliau datblygu a ganiateir ym maes amaethyddiaeth a

choedwigaeth.

Elin suggests taking one of those elements of permitted development rights and extending it to class B1. That is for buildings which hitherto have been for agricultural use to have an automatic right under that Order to be used for light industrial use, warehousing or offices. Class B1 is a substantial area. That might seem attractive and in most cases that could happen without too much difficulty. However, bringing that through to the planning system means that those elements of applications that cause problems on the ground—for legitimate reasons such as problems of traffic, environment and landscape—can be weeded out. That is the inherent difficulty in the proposal. I have spoken to my colleagues in the Welsh Local Government Association who have looked at Welsh rural areas to see what is happening in practice. They say that most of the applications for conversion are accepted, but it allows them to weed out an unacceptable percentage that they believe could cause problems in the future. I agree with that.

Rhodri Glyn Thomas: I attended the recent Farmers Union of Wales conference, which was addressed by Rhodri Morgan. He told farmers that they had to accept that change is inevitable because the current state of their industry means that it is unsustainable, and that farmers must meet new challenges and take new opportunities. You will know that the Agriculture and Rural Development Committee is undertaking a comprehensive review of diversification in rural areas. During the roadshow that visited three venues in Wales, people were telling us that they want to diversify but that planning legislation is preventing them from doing so. On one hand, Rhodri Morgan is telling the agriculture industry that it must diversify, and on the other, you are saying that the flexibility of legislation that they need in order to diversify will not be allowed. If the Assembly wants to challenge people in rural areas to take up new opportunities, it is important that we help them to do so. Ieuan

Awgryma Elin ein bod yn cymryd un elfen o'r hawliau datblygu a ganiateir a'i ymestyn i ddsbarth B1. Hynny yw i adeiladau sydd hyd yma wedi cael eu defnyddio at ddibenion amaethyddol gael hawl awtomatig dan y Gorchymyn hwnnw i'w defnyddio at ddibenion diwydiannol ysgafn, fel warysau neu swyddfeydd. Mae Dosbarth B1 yn faes eang. Gall hynny ymddangos yn ddeniadol ac yn y rhan fwyaf o achosion gallai ddigwydd heb lawer o anhawster. Fodd bynnag, mae dod â hynny drwodd i'r system gynllunio yn golygu y gellir chwynnu'r elfennau hynny yn y broses ymgeisio sydd yn achosi problemau yn y maes—am resymau cyfreithlon fel problemau traffig, yr amgylchedd a'r tirwedd. Dyna'r anhawster sydd yn rhan gynhenid o'r cynnig. Yr wyf wedi siarad â'm cydweithwyr yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sydd wedi edrych ar ardaloedd gwledig Cymru i weld beth sydd yn digwydd yn ymarferol. Dywedant fod mwyafrif y ceisiadau i addasu yn cael eu derbyn, ond mae'n caniatáu iddynt chwynnu canran annerbyniol y credant y byddent yn achosi problemau yn y dyfodol. Cytunaf â hynny.

Rhodri Glyn Thomas: Yr oeddwn yng nghynhadledd Undeb Amaethwyr Cymru yn ddiweddar, a anerchwyd gan Rhodri Morgan. Dywedodd wrth ffermwyr bod yn rhaid iddynt dderbyn bod newid yn anochel gan fod cyflwr presennol y diwydiant yn golygu nad yw'n gynaliadwy, a bod yn rhaid i ffermwyr ymateb i her newydd a chymryd cyfleon newydd. Gwyddoch fod y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o arallgyfeirio mewn ardaloedd gwledig. Yn ystod y sioe deithiol a ymwelodd â thri lleoliad yng Nghymru, yr oedd pobl yn dweud wrthym bod arnynt eisiau arallgyfeirio ond fod deddfwriaeth cynllunio yn eu hatal rhag gwneud hynny. Ar un llaw mae Rhodri Morgan yn dweud wrth y diwydiant amaethyddol bod yn rhaid iddo arallgyfeirio, ac ar y llaw arall, yr ydych yn dweud na chaniateir yr hyblygrwydd deddfwriaeth y mae arnynt ei angen er mwyn arallgyfeirio. Os yw'r Cynulliad am herio

Wyn Jones made the point that we should pass this motion today, and we can consider the problems that arise in terms of detail later. We must send a clear message that we support the rural areas in their new challenges, that we are offering opportunities, and that we will help them meet those challenges.

Sue Essex: I accept your point about helping rural areas. We could help in a different and more productive way. We are talking about rural diversification. It involves many aspects, not merely turning existing agricultural buildings into Class B1 use. If we did what you suggest today, we would not enable the improvement or acceleration of conversion for leisure, tourism and a host of other uses. You are looking at one piece of legislation in one particular way. We need to look at the whole issue of rural diversification. I will return to how I think we can help alleviate the problems that you hear about at your roadshows.

We must remember that conversion is not just about planning. Changing this and making conversion solely a matter of planning would mean that you take out some of the system's other controls with which farmers would have to deal, such as listed building consent, building regulations, health and safety, and pollution control. There are a host of things that need to be taken into account, not only planning. Perhaps a key factor is the existing situation of requiring those conversions to come into planning, which allows local democratic control. If it is working properly, the system will allow an opportunity—if we are talking about extension and modification of buildings—for discussion with local authorities. If local authorities are working properly, this should be a positive experience. I am sorry that the examples quoted have not been positive. It is the Assembly's job to ensure that local authorities are supporting communities in

pobl mewn ardaloedd gwledig i achub ar gyfleoedd newydd, mae'n bwysig ein bod yn eu helpu i wneud hynny. Gwnaeth Ieuan Wyn Jones y pwynt y dylem basio'r cynnig hwn heddiw, ac y gallwn ystyried y problemau sydd yn codi o safbwynt manylion yn nes ymlaen. Rhaid inni anfon neges glir ein bod yn cefnogi ardaloedd gwledig yn yr her newydd sydd yn eu hwynebu, ein bod yn cynnig cyfleoedd, ac y gwnawn eu helpu i ymateb i'r her honno.

Sue Essex: Derbyniaf eich pwynt ynglŷn â helpu ardaloedd gwledig. Gallem helpu mewn ffordd wahanol a mwy cynhyrchiol. Yr ydym yn sôn am arallgyfeirio yng nghefn gwlad. Mae sawl agwedd i'w hystyried, nid yn unig troi'r adeiladau amaethyddol presennol yn adeiladau defnydd Dosbarth B1. Pe baem yn gwneud yr hyn a awgrymwch heddiw, ni fyddem yn gwella nac yn cyflymu addasiadau ar gyfer hamdden, twristiaeth a llu o ddefnyddiau eraill. Yr ydych yn edrych ar un darn o ddeddfwriaeth mewn un ffordd benodol. Rhaid inni edrych ar arallgyfeirio yng nghefn gwlad yn ei gyfanrwydd. Dychwelaf at sut y credaf y gallwn helpu i leddfu'r problemau yr ydych yn clywed amdanynt yn eich sioeau teithiol.

Rhaid inni gofio nad cynllunio yn unig sydd yn rhaid ei ystyried wrth addasu adeiladau. Byddai newid hyn a gwneud addasu yn fater cynllunio yn unig yn golygu cael gwared â rhai o reolaethau eraill y system y byddai'n rhaid i ffermwyr ddelio â nhw fel caniatâd i adeiladau rhestredig, rheoliadau adeiladu, iechyd a diogelwch, a rheoli llygredd. Mae llu o bethau y mae'n rhaid inni eu hystyried, nid cynllunio yn unig. Efallai mai un o'r ffactorau allweddol yw'r sefyllfa bresennol lle mae'n rhaid i'r addasiadau hynny fod yn ddarostyngedig i adrannau cynllunio, gan ganiatáu rheolaeth ddemocrataidd leol. Os yw'n gweithio'n iawn, bydd y system yn rhoi cyfle—os ydym yn sôn am ymestyn a newid adeiladau—i drafodaeth gydag awdurdodau lleol. Os yw awdurdodau lleol yn gweithio'n iawn, dylai hyn fod yn brofiad positif. Mae'n ddrwg gennyf nad yw'r enghreifftiau a ddyfynnwyd wedi bod yn rhai cadarnhaol. Gwaith y Cynulliad yw sicrhau bod

line with planning regulations.

Owen John Thomas: When you talk so constructively about this and say that you want it to continue as soon as possible, why did you not table amendments to the motion so that it could be implemented with the changes that you are now proposing?

Sue Essex: To the best of my knowledge, I do not think that we can put amendments to this.

Glyn Davies: We have.

Sue Essex: Amendments to the motion? I am sorry, I take that back.

We tend to amend things that we agree with in principle. I have a problem in principle with changing the permitted development rights. That is the issue. It is a basic thing and that is why I will not suggest that we change it in this way.

Jenny Randerson: Do you share my concern that what might help some rural areas will actually increase problems for other areas, because not all agricultural land is deep in the country? There are some areas of agricultural land on the edge of your constituency, which, if this motion were adopted, would lead to speculative development and outward growth of the city. That would lead to destruction of *de facto* greenbelt, although it is not classed as such in Wales. That would put pressure on the surrounding agricultural land, because we all know of the problems that farmers have in making an effective living on the edge of cities, due to the semi-rural nature of the area.

3:50 p.m.

Sue Essex: That raises one of the fundamental difficulties: to change that permitted development right would apply to the whole of Wales, unless you go through the subsequent Article 4 directions of taking areas out of it, which is a cumbersome and

awdurdodau lleol yn cefnogi cymunedau yn unol â rheoliadau cynllunio.

Owen John Thomas: Gan eich bod yn siarad mor adeiladol am hyn ac yn dweud eich bod am iddo barhau cyn gynted â phosibl, pam na chyflwynasoch welliannau i'r cynnig fel y gellid ei weithredu gyda'r newidiadau a gynigiwch yn awr?

Sue Essex: Yn ôl yr hyn a ddeallaf, ni chredaf y gallwn ychwanegu gwelliannau at hyn.

Glyn Davies: Yr ydym ni wedi.

Sue Essex: Gwelliannau i'r cynnig? Mae'n ddrwg gennyf, tynnaf fy ngeiriau yn ôl.

Tueddwn i gynnig gwelliannau i bethau yr ydym yn cytuno â hwy mewn egwyddor. Mae gennyf broblem mewn egwyddor â newid hawliau datblygu a ganiateir. Dyna'r pwnc dan sylw. Mae'n fater sylfaenol a dyna pam nad wyf yn awgrymu ein bod yn ei newid yn y ffordd hon.

Jenny Randerson: A rannwch fy mhryder y bydd yr hyn a allai helpu rhai ardaloedd gwledig mewn gwirionedd yn cynyddu problemau ardaloedd eraill, oherwydd nid yw pob tir amaethyddol ym mherfeddion cefn gwlad? Mae rhai darnau o dir amaethyddol ar gyrion eich etholaeth chi, a fyddai, pe derbynid y cynnig hwn, yn arwain at ddatblygu ar hap a lledaeniad y ddinas. Byddai hynny'n arwain at ddinistriad *de facto* y llain las, er nad yw'n cael ei alw'n hynny yng Nghymru. Byddai hynny yn rhoi pwysau ar y tir amaethyddol o'i amgylch, oherwydd gŵyr pawb ohonom am broblemau ffermwyr sydd yn ceisio gwneud bywoliaeth effeithiol o fyw ar gyrion dinasoedd, yn sgîl natur lled-wledig yr ardal.

Sue Essex: Mae hynny'n codi un o'r anawsterau sylfaenol: byddai newid yr hawl honno i gynnal datblygiadau a ganiateir yn berthnasol i Gymru gyfan, oni aech drwy gyfarwyddiadau dilynol Erthygl 4 a thynnu ardaloedd allan ohono, sydd yn broses drwsgl

long process. We must realise that this would have differential impacts on various parts of Wales.

I want to look positively at how we could support and achieve the objectives that Elin wants to secure and at what we can do to make this work. First, we have a wide-ranging and full consultation on rural diversification. This has raised concerns, as Rhodri said, about the planning system. There is also a range of opportunities that could exist. Rather than pre-empt anything, I would like to see the results of the consultation and consider what we can do to aid and abet that diversification as an integrated package. Planning is part of it, but that is not the full answer. There are other initiatives and measures that must be considered to secure that diversification.

We also have the planning forum, which met on Monday. The forum includes a group of people from a range of areas including the Country Landowners Association, chartered surveyors, the Campaign for the Protection of Rural Wales and many others who have an interest in planning. An agricultural sub-group is considering how to improve planning guidance to meet the difficulties in rural areas. Research is associated with that. The problems that may exist in rural areas were mentioned in one of my discussions with Elin.

The problem in rural areas is the perception of the difficulties in the planning system. People are often reluctant to get involved. I understand that. It does not only happen in rural areas; it happens everywhere. There is a fear of the planning system. Therefore, in this research I want to try to get to the problem and speak to people to find out what limits and barriers stop them from coming forward and using the planning system. The system should be there not only to prevent development, but also to enable people to secure development.

Karen Sinclair: I hoped to say much more, but I will be brief. I agree in principle with

a hirfaith. Rhaid inni sylweddoli y byddai hyn yn cael gwahanol effeithiau ar wahanol rannau o Gymru.

Yr wyf am edrych yn gadarnhaol ar sut y gallem gefnogi a chyflawni'r amcanion y dymuna Elin eu sicrhau ac ar yr hyn y gallwn ei wneud er mwyn gwneud i hyn weithio. I ddechrau, yr ydym yn ymgynghori yn llawn ac yn eang ynglŷn ag arallgyfeirio yng nghefn gwlad. Mae pryderon wedi eu codi ynglŷn â'r system gynllunio, fel y dywedodd Rhodri. Mae ystod o gyfleoedd a allai fodoli hefyd. Yn hytrach na bwrw ymlaen ag unrhyw gamau, carwn weld canlyniadau'r ymgynghori ac ystyried beth allwn ei wneud i helpu a hyrwyddo'r arallgyfeirio hwn fel pecyn integredig. Mae cynllunio'n rhan ohono, ond nid dyna'r ateb llawn. Mae cynlluniau a mesurau eraill i'w hystyried i sicrhau'r arallgyfeirio hwnnw.

Mae'r fforwm cynllunio gennym hefyd, a gyfarfu ddydd Llun. Mae'r fforwm yn cynnwys grŵp o bobl o amrywiol feysydd gan gynnwys Cymdeithas y Tirfeddianwyr, syrfewyr siartredig, yr Ymgyrch dros Ddiogelu Cymru Wledig a llawer mwy sydd â diddordeb mewn cynllunio. Mae is-grŵp amaethyddiaeth yn ystyried sut i wella canllawiau cynllunio i ateb yr anawsterau mewn ardaloedd gwledig. Mae ymchwil yn berthnasol i hynny. Soniwyd am y problemau a allai fodoli mewn ardaloedd gwledig yn un o'm trafodaethau gydag Elin.

Y broblem mewn ardaloedd gwledig yw syniad pobl am anawsterau'r system gynllunio. Mae pobl yn aml yn gyndyn o fynd i'r afael â system. Deallaf hynny. Nid mewn ardaloedd gwledig yn unig y mae'n digwydd; mae'n digwydd ymhobman. Mae ar bobl ofn y system gynllunio. Felly, yn y gwaith ymchwil hwn yr wyf am geisio mynd at wraidd y broblem a siarad â phobl i ganfod pa gyfyngiadau a rhwystrau sydd yn eu hatal rhag dod ymlaen a defnyddio'r system gynllunio. Dylai'r system fodoli nid i atal datblygiad yn unig, ond hefyd i alluogi pobl i ddatblygu.

Karen Sinclair: Yr oeddwn wedi gobeithio dweud llawer mwy, ond byddaf yn gryno.

Elin. We must work towards allowing for far more diversification in the countryside, but I do not believe that taking the decision-making away from local government is the way forward. Planning guidance will make a difference to the way planning authorities approach diversification implications with farmers. That is the important part. We had a presentation from planners to the Committee vis-à-vis how many people came forward with planning applications, but they did not mention how many people were put off without proceeding to the application stage. It is important that our planning guidance is right, so that it allows people to go forward to the planning stage. We must allow diversification to be discussed with the right planning guidance and in harmony with the Assembly, so that the decisions are made locally and for the right reason, which is to promote diversification in the countryside.

Sue Essex: Planning guidance, as Jenny said, can allow differentiation between the areas that are under pressure—which are not only here; they are in Monmouthshire, Gower and north-east Wales—and could, in this situation, become urbanised. All sorts of anomalies could occur in the countryside that would undermine what we want to occur. Therefore, the planning guidance could give that kind of targeting. I am prepared to work with people in local planning authorities in that area. Existing guidance is positive and we will need to strengthen it. We will need to give those authorities more help. We need to ensure that people are not having negative experiences when going into the planning authority. Planning guidance needs to be properly interpreted locally.

I discussed the issue of perception with Elin yesterday. If we are to enable people to take entrepreneurial ideas forward, in light of the ideas that Elin quoted and other ideas—Elin's example was glamorous but there might be others that are not so glamorous but would nevertheless help support people in

Cytunaf mewn egwyddor ag Elin. Rhaid inni weithio tuag at ganiatáu llawer mwy o enghreifftiau o arallgyfeirio yng nghefn gwlad, ond ni chredaf mai drwy dynnu'r penderfyniadau o ddwylo llywodraeth leol y mae gwneud hynny. Bydd canllawiau cynllunio yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd y mae awdurdodau cynllunio yn mynd i'r afael â goblygiadau arallgyfeirio gyda ffermwyr. Dyna'r elfen bwysig. Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan gynllunwyr ynglŷn â faint o bobl a oedd yn cyflwyno ceisiadau cynllunio ond ni soniasant am faint o bobl sydd yn cael eu dychryn rhag dechrau'r broses cyn mynd ymlaen i'r cam ymgeisio. Mae'n bwysig bod ein canllawiau cynllunio yn gywir, fel eu bod yn caniatáu i bobl fynd ymlaen i'r cam cynllunio. Rhaid inni ganiatáu i arallgyfeirio gael ei drafod gyda'r canllawiau cynllunio cywir ac mewn cytgorod gyda'r Cynulliad, fel y gwneir penderfyniadau yn lleol ac am y rhesymau cywir, sef i hybu arallgyfeirio yng nghefn gwlad.

Sue Essex: Fel y dywedodd Jenny, gall canllawiau cynllunio ganiatáu gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd sydd dan bwysau—sydd nid yn unig yma; maent yn Sir Fynwy, Gŵyr a gogledd-ddwyrain Cymru—ac y gallent, yn y sefyllfa hon, gael eu trefoli. Gallai pob math o anghysonderau godi yng nghefn gwlad a fyddai'n tansilio yr hyn y dymunwn iddo ddigwydd. Felly, gallai'r canllawiau cynllunio gynnig y math hwnnw o dargedu. Yr wyf yn barod i weithio gyda phobl mewn awdurdodau cynllunio lleol yn y maes hwnnw. Mae'r canllawiau presennol yn bositif a bydd yn rhaid inni eu cryfhau. Bydd yn rhaid inni roi rhagor o gymorth i'r awdurdodau hynny. Rhaid inni sicrhau nad yw pobl yn cael profiadau negyddol wrth fynd at yr awdurdod cynllunio. Rhaid i ganllawiau cynllunio gael eu dehongli yn gywir yn lleol.

Trafodais syniadau pobl ynglŷn â chynllunio gydag Elin ddoe. Os ydym i alluogi pobl i fwrw ymlaen â syniadau mentrus, yng ngoleuni'r syniadau a ddyfynnwyd gan Elin a syniadau eraill—yr oedd enghraifft Elin yn un mawreddog ond efallai fod eraill llai mawreddog a fyddai, er hynny, yn help i

rural communities. We must give more help to these people on a range of issues. For women returners trying to set up businesses, packages of measures and a helping hand are needed to cover a range of things. I have discussed with the Economic Division the possibility of using the money in Objective 1 areas in particular, to build planning support within that package of general business support. If we can do that, it will be far more constructive in the long run. Alongside submitting planning applications and getting approval, there can be people who help in all kinds of other areas. There will be a range of issues. People must have that support to enable this diversification package to be developed.

I say reluctantly—because this is the first time that we have done this, and I appreciate what Elin is trying to achieve—that there will be unintended consequences as a result of this that we will regret. The motion will not necessarily achieve Elin's objectives. A positive aspect of this exercise has been that it has focused my mind and other people's minds on what we need to secure those objectives. There are many opportunities on which we can act during the next few months. It must be done quickly. We should not wait for the outcome, which will be a lengthy negotiation and consultation exercise. If we choose to change the legislation, there would be all kinds of objections to it. If we achieve some of the positive measures, we will support the rural diversification programme in a more constructive way.

Y Llywydd: Cyn imi alw ar Christine Humphreys, nodaf, oherwydd y ddadl bwysig ar y diwydiant dŵr a'r ddadl fer sydd yn dilyn, y byddaf yn galw ar Elin Jones i gloi'r ddadl hon am 4 p.m.

Christine Humphreys: We appreciate the motive behind the motion, which is to relax development control on agricultural land and help rural diversification. Although there are good economic arguments for doing that, I

gefnogi pobl mewn cymunedau gwledig. Rhaid inni roi rhagor o gymorth i'r bobl hyn ar ystod o faterion. I fenywod sydd yn dychwelyd i fyd gwaith i geisio sefydlu busnesau rhaid cael pecynnau o fesurau a help llaw i ddelio ag ystod o bethau. Yr wyf wedi trafod gyda'r Is-adran Economaidd y posibilrwydd o ddefnyddio arian mewn ardaloedd Amcan 1 yn benodol, i hybu cefnogaeth cynllunio o fewn y pecyn hwnnw o gefnogaeth busnes cyffredinol. Os gallwn wneud hynny, bydd yn llawer mwy adeiladol yn y pen draw. Ar y cyd â chyflwyno ceisiadau cynllunio ac ennill cymeradwyaeth, gall fod pobl sydd yn helpu mewn pob math o feysydd eraill. Bydd ystod o faterion. Rhaid i bobl gael y gefnogaeth honno i sicrhau bod y pecyn arallgyfeirio hwn yn cael ei ddatblygu.

Dywedaf yn gyndyn—oherwydd dyma'r tro cyntaf inni wneud hyn, a gwerthfawrogaf yr hyn y mae Elin yn ceisio ei gyflawni—y bydd canlyniadau nas bwriadwyd yn deillio o hyn ac y byddwn yn edifarhau. Ni fydd y cynnig o anghenraid yn cyflawni amcanion Elin. Un agwedd bositif sydd wedi deillio o'r ymarferiad hwn yw ei fod wedi hogi fy meddwl i a meddyliau pobl eraill i ganolbwyntio ar yr hyn sydd ei angen arnom i sicrhau'r amcanion hynny. Mae llawer o gyfleoedd y gallwn weithredu arnynt yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Rhaid iddo ddigwydd yn sydyn. Ni ddylem aros am y canlyniad a fydd yn ymarferiad ymgynghori a negodi hirfaith. Os dewiswn newid y ddeddfwriaeth, bydd pob math o wrthwynebiad iddo. Os cyflawnwn rai o'r mesurau positif, byddwn yn cefnogi'r rhaglen arallgyfeirio gwledig mewn ffordd mwy adeiladol.

The Presiding Officer: Before I call Christine Humphreys, I note that, because of the important debate on the water industry and the short debate which follows, I will call Elin Jones to summarise at 4 p.m.

Christine Humphreys: Gwerthfawrogwn y cymhelliad y tu ôl i'r cynnig, sef llacio'r rheolaeth datblygu ar dir amaethyddol a chynorthwyo arallgyfeirio yng nghefn gwlad. Er bod dadleuon economaidd da dros wneud

will concentrate on the planning argument. We are concerned about the principle of allowing permitted development of redundant agricultural buildings. We must be aware of what we will be doing if we allow permitted development. We would be removing the checks and balances that we have in place that enable us to determine whether developments are legitimate. We would also take away local authorities' ability to decide applications on a case by case basis. We would probably be taking away the need for an environmental impact assessment, and the need for an examination of the road traffic impact of development would be taken away. Another aspect that also needs to be carefully considered is taking away the rights of people living in neighbouring properties to be consulted.

Elin has made a strong argument for relapsing the need for planning consent. It is based on the belief that the possibly lengthy and costly planning process might act as a disincentive. I say from personal experience, that if the planning process acts as a disincentive in rural areas, it does so in urban areas also. We probably need to look at the whole planning system. It could be applied to any class of development. The point of the planning process is to bring local democracy and local decision making into the planning process. It is surely better to leave it to local authorities to develop their own local plans. I have here a copy of the Montgomeryshire local plan. I have spoken to its planning officer today and he cannot recall a single instance during the last 13 years when planning permission for the conversion of genuinely redundant agricultural buildings in the countryside to appropriate light industrial use has been refused, other than the odd exception when access difficulties prevented development.

4:00 p.m.

Ieuan Wyn Jones: Could you also tell us the figures for the number of people who made informal applications to the planners and were told not to put an application in?

hynny, canolbwyntiaf ar y ddadl gynllunio. Yr ydym yn bryderus am yr egwyddor o ganiatáu hawl datblygu wedi'i ganiatáu i adeiladau amaethyddol segur. Rhaid inni fod yn ymwybodol o'r hyn y byddwn yn ei wneud os rhoddwn gymeradwyaeth i ddatblygiadau a ganiateir. Byddem yn diddymu'r rhwystrau a'r gwrthbwyssau sydd gennym mewn grym sydd yn ein galluogi i bennu a yw datblygiadau yn gyfreithlon ai peidio. Buasem hefyd yn diddymu gallu awdurdodau lleol i benderfynu ceisiadau fesul achos. Byddem yn debyg o ddiddymu'r angen am asesu'r dylanwad ar yr amgylchedd, a'r angen am archwilio dylanwad y datblygiad ar draffig y ffordd. Agwedd arall y mae'n rhaid ei hystyried yn ofalus hefyd yw cael gwared â hawliau pobl sydd yn byw mewn eiddo cyfagos i leisio barn drwy ymgynghoriad.

Mae Elin wedi cyflwyno dadl gref dros lacio'r angen am ganiatâd cynllunio. Mae'n seiliedig ar y gred y gallai'r broses gynllunio, sydd yn gallu bod yn hirfaith a chostus, fod yn rhwystr i bobl. Dywedaf o brofiad personol, os yw'r broses gynllunio yn gweithredu fel rhwystr mewn ardaloedd gwledig, yna mae hefyd yn rhwystr mewn ardaloedd trefol. Mae'n debyg bod angen inni edrych ar y system gynllunio gyfan. Gellid ei gymhwyso i unrhyw ddosbarth o ddatblygiad. Pwynt y broses gynllunio yw dod â democratiaeth leol a phenderfyniadau lleol i mewn i'r broses gynllunio. Mae'n sicr gennyf ei bod yn well gadael i awdurdodau lleol ddatblygu eu cynlluniau lleol eu hunain. Mae gennyf gopi yma o gynllun lleol Sir Drefaldwyn. Yr wyf wedi siarad â'i swyddog cynllunio heddiw ac ni all gofio un achlysur yn ystod y 13 mlynedd diwethaf pan wrthodwyd caniatâd cynllunio i addasu adeiladau amaethyddol sydd yn gyfreithlon segur yng nghefn gwlad i ddefnydd diwydiannol ysgafn priodol, ar wahân i ambell eithriad pan rwystrwyd datblygiad oherwydd anawsterau mynediad.

Ieuan Wyn Jones: A allech hefyd ddweud wrthym beth yw'r ffigurau ar gyfer nifer y bobl a wnaeth gais anffurfiol i'r cynllunwyr ac y dywedwyd wrthynt am beidio â

chyflwyno cais?

Christine Humphreys: I do not have those figures and have not asked for them. It would be exactly the same in an urban development.

Christine Humphreys: Nid yw'r ffigurau hynny gennyf ac nid wyf wedi gofyn amdanynt. Byddent yn union yr un fath ag ar gyfer datblygiad trefol.

Glyn Davies *rose*—

Glyn Davies *a gododd*—

Christine Humphreys: I do not believe that I have time to take Glyn's intervention.

Christine Humphreys: Ni chredaf fod gennyf amser i dderbyn ymyriad Glyn.

Local authorities are not preventing diversification and neither are they locking away job opportunities. Through the planning system, they are merely preventing the more damaging effects that could arise from inappropriate development. There are other points that I would like to make about national parks, but I should give other people an opportunity to contribute.

Nid yw awdurdodau lleol yn rhwystro arallgyfeirio ac nid ydynt ychwaith yn rhoi clo ar gyfleoedd gwaith. Drwy'r system gynllunio, yr oll maent yn ei wneud yw rhwystro'r effeithiau mwy niweidiol a allai godi yn sgîl datblygiad amhriodol. Mae pwyntiau eraill y carwn eu gwneud ynglŷn â pharciau cenedlaethol, ond rhoddaf gyfle i eraill gyfrannu.

Elin Jones: Bydd fy sylwadau yn fyr wrth ymateb gan fod pwnc pwysig yn dilyn y ddadl hon. Diolchaf i bawb a gyfrannodd i'r ddadl, yn enwedig y rhai a wnaeth hynny gan gefnogi'r cynnig. Yr wyf yn siomedig fod dwy o'r pedair plaid yn ymddangos fel petaent am wrthwynebu'r cynnig.

Elin Jones: My comments will be brief in responding as an important subject follows this debate. I thank everyone who contributed to the debate, particularly those who did so in support of the motion. I am disappointed that two of the four parties seem as if they will oppose the motion.

Ymatebaf i sylwadau Sue Essex yn gyntaf. Deallaf rai o'i hamheuron ond nid wyf yn eu derbyn oll ac felly ni thynnaf y cynnig yn ôl. Wrth gyflwyno'r cynnig hwn yr oeddwn yn ceisio cyflawni symudiad mewn meddylfryd oddi wrth system gynllunio a ddaw o gyfeiriad cadwriaethol pur tuag at system sydd yn cefnogi'n ddiamwys ddatblygiad synhwyrol. Er mwyn sicrhau'r symudiad meddyliol hwn yr oeddwn am iddo gael ei ymgorffori mewn deddfwriaeth yn hytrach na dibynnu ar ganllawiau. Mae'n amlwg fod fy meddwl ormod ar y blaen i feddyliau biwrocraidd y proffesiwn cynllunio.

I will respond to Sue Essex's comments first. I understand some of her doubts, but I do not accept them all and therefore I will not withdraw the motion. In tabling this motion, I was attempting to achieve a shift in mindset from a planning system that comes from a purely preservational direction towards a system that unambiguously supports sensible development. In order to ensure that shift in mindset I wanted it to be incorporated in the legislation rather than dependent on guidelines. It is evident that my thinking is too far ahead of the bureaucratic minds of the planning profession.

Mae'n fy nharo fod peth o'r gwrthwynebiad i hyn yn deillio o bryder rhai Aelodau o'r Blaid Lafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol ynglŷn ag ymledu trefol. Nid oedd anghenion Bro Morgannwg yn flaenllaw yn fy meddwl wrth gyflwyno'r cynnig hwn a derbynias lobi yn erbyn y cynnig gan unigolion o Fro Morgannwg. Anghenion datblygu gwledig a

It strikes me that some of the opposition to this stems from the concern of some Members of the Labour Party and the Liberal Democrats regarding urban sprawl. The needs of the Vale of Glamorgan were not foremost in my mind when I tabled this motion and individuals from the Vale of Glamorgan have lobbied me against the

chymunedau sydd yn dirywio a oedd ar flaen fy meddwl. Byddwn wedi bod yn fwy na pharod i fynd drwy'r broses o eithrio rhai ardaloedd o'r ddeddfwriaeth pan fyddai hynny'n briodol a phe byddai'r Llywodraeth Lafur yn dymuno hynny.

I ymateb i sylwadau Karen Sinclair a Christine Humphreys ynglŷn ag osgoi llywodraeth leol a'r broses ddemocrataidd, teimlaf fod eu gwrthwynebiad a'r cyfeiriad a wnaeth Christine Humphreys yn deillio o adrannau a swyddogion cynllunio yr awdurdodau lleol, ac nid o arweiniad gwleidyddol y cynghorau hynny o bosibl.

Mae'n holl bwysig fod y system gynllunio yn bodoli i gefnogi polisi cyhoeddus, yn hytrach na bod polisi cyhoeddus yn ddarostyngedig i'r system gynllunio. Bydd un o ddau beth yn digwydd wedi'r bleidlais, yn dibynnu ar y canlyniad. Os caiff y cynnig ei dderbyn, byddaf yn sicrhau y rhoddir sylw i rai o'r pwyntiau dilys a wnaethpwyd yn ystod y ddadl wrth lunio'r ddeddfwriaeth yn fanwl. Os caiff y cynnig ei wrthod, byddaf yn barod i dderbyn cynnig Sue Essex ac i weithio gyda'i hadran hi ac adran Christine Gwyther, gan ddefnyddio'r gefnogaeth ymchwil i sicrhau bod yr amcanion sydd yn sail i'm cynnig yn cael eu hyrwyddo o fewn y canllawiau cynllunio.

Some of you will have seen Fergal Keane's insight into the plight of farmers in Wales and Cornwall on the BBC on Monday. The programme painted the beauty of the landscape and the destitution of its communities. The question raised by Fergal Keane, and the one with which I leave you is, whether our vision for Wales is one of picturesque poverty.

*Gwelliant 1: O blaid 18, Ymatal 1, Yn erbyn 35.
Amendment 1: For 18, Abstain 1, Against 35.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bourne, Nick
Dafis, Cynog
Davies, Glyn
Davies, Geraint

motion. It was the needs of rural development and declining communities that were foremost in my mind. I would have been more than willing to go through the process of excepting some areas from the legislation when appropriate and if the Labour Government wished that.

To respond to Karen Sinclair and Christine Humphreys's comments regarding bypassing local government and the democratic process, I feel that their opposition and the reference made by Christine Humphreys stems from the planning departments and officers of local authorities, and not, perhaps, from the political leadership of those councils.

It is extremely important that the planning system exists to support public policy, rather than public policy being subject to the planning system. One of two things will happen after the vote, dependent on the result. If the motion is adopted, I will ensure that attention is given to some of the valid points that were made during the debate when drawing up the legislation in detail. If the motion is rejected, I will be prepared to accept Sue Essex's offer and work with her department and Christine Gwyther's department, and use the research support to ensure that the objectives on which my motion is based are promoted within the planning guidance.

Bydd rhai ohonoch wedi gweld rhaglen Fergal Keane am dynged ffermwyr yng Nghymru a Chernyw ar y BBC nos Lun. Darluniai'r rhaglen brydferthwch y tirlun a chyni'r cymunedau. Y cwestiwn a godwyd gan Fergal Keane, a'r cwestiwn a ofynnaf i gloi, yw ai darlun o dlodi pictiwresg yw ein gweledigaeth ar gyfer Cymru?

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Butler, Rosemary

Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Hancock, Brian
 Jarman, Pauline
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Lloyd, David
 Rogers, Peter
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wigley, Dafydd
 Williams, Phil

Cairns, Alun
 Chapman, Christine
 Davies, Andrew
 Davies, David
 Davies, Ron
 Edwards, Richard
 Essex, Sue
 Evans, Delyth
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Graham, William
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Halford, Alison
 Hart, Edwina
 Humphreys, Christine
 Hutt, Jane
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Law, Peter
 Lewis, Huw
 Marek, John
 Melding, David
 Middlehurst, Tom
 Morgan, Jonathan
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Williams, Kirsty

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
 The following Members abstained:

Randerson, Jenny

Amendment rejected.

Gwrthodwyd y gwelliant.

*Cynnig: O blaid 19, Ymatal 0, Yn erbyn 36.
 Motion: For 19, Abstain 0, Against 36.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Bourne, Nick
 Dafis, Cynog
 Davies, Glyn
 Davies, Geraint
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Hancock, Brian
 Jarman, Pauline
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Lloyd, David
 Richards, Rod
 Rogers, Peter
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wigley, Dafydd
 Williams, Phil

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Butler, Rosemary
 Cairns, Alun
 Chapman, Christine
 Davies, Andrew
 Davies, David
 Davies, Ron
 Edwards, Richard
 Essex, Sue
 Evans, Delyth
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Graham, William
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Halford, Alison
 Hart, Edwina
 Humphreys, Christine

Hutt, Jane
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Law, Peter
 Lewis, Huw
 Marek, John
 Melding, David
 Middlehurst, Tom
 Morgan, Jonathan
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Williams, Kirsty

Motion rejected.

Gwrthodwyd y cynnig.

Dyfodol y Gwasanaethau Dŵr yng Nghymru The Future of the Water Utilities in Wales

The Secretary for the Environment, Planning and Transport (Sue Essex): I propose that

Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth (Sue Essex): Cynigiaf fod

the Assembly recognises the importance of the Hyder Group and the regulated water and electricity utilities to the economy, environment and infrastructure of Wales; it welcomes and endorses the actions of the First Secretary and the Secretary for the Environment, Planning and Transport in meeting and seeking reassurances from any potential purchasers of Hyder with respect to the safeguarding of the integrity of the Group, its employees and the environment in Wales, and the protection of the interests of Welsh consumers; and it notes the proposed actions of the water and electricity industry regulators in seeking commitments and licence amendments to protect the interests of customers and the continued delivery of the investment programmes of the regulated utilities.

y Cynulliad yn cydnabod pwysigrwydd Grŵp Hyder a'r gwasanaethau dŵr a thrydan rheoledig i economi, amgylchedd ac isadeiledd Cymru; mae'n croesawu ac yn cymeradwyo'r ffaith bod y Prif Ysgrifennydd ac Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth wedi cwrdd â'r rhai a allai gynnig prynu Hyder a cheisio cael sicrwydd ganddynt ynghylch diogelu cyfanrwydd y Grŵp, y rhai a gyflogir ganddo, a'r amgylchedd yng Nghymru, a diogelu buddiannau defnyddwyr yng Nghymru; ac y mae'n nodi gweithredoedd arfaethedig rheoleiddwyr y diwydiant dŵr a thrydan, sydd yn ceisio sicrhau ymrwymadau a gwelliannau i drwyddedi er mwyn diogelu buddiannau cwsmeriaid a sicrhau bod rhaglenni buddsoddi'r gwasanaethau rheoledig yn parhau i gael eu darparu.

I want to bring Members up-to-date on the current situation on the Hyder takeover and to cover some of the concerns of Assembly Members, members of the public and employees. First, we need to recognise that we are considering the future of Wales's largest independent Plc. It is right that the Assembly takes the opportunity to debate this important matter. It is another of the Assembly's strengths. Prior to the Assembly, we would not have had the opportunity to

Carwn roi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau am sefyllfa bresennol meddiannu Hyder a sôn am rai o bryderon Aelodau'r Cynulliad, y cyhoedd a'r gweithwyr. Yn gyntaf, rhaid inni gydnabod ein bod yn ystyried dyfodol cwmni Ccc annibynnol mwyaf Cymru. Mae'n briodol i'r Cynulliad achub ar y cyfle hwn i drafod y mater pwysig hwn. Mae'n un arall o gryfderau'r Cynulliad. Cyn y Cynulliad, ni fyddem wedi cael cyfle i glywed datganiad a dadl mor bwysig. Yr

have a statement and such a major debate. We are having this discussion today and tomorrow morning, members of the Economic Development Committee and the Environment, Planning and Transport Committee will hear comments from people who have come to share the debate and examine the deeper issues. It is important that we recognise that the Assembly gives us the ability to undertake this investigation.

Hyder is of considerable importance to Wales. It is an employer of 6,000, a provider of water, gas and electricity services to large parts of Wales and a major infrastructure and contracting company. It is important to remember those three elements, as sometimes people do not know about the contracting element and how that has grown over the years. There are obvious concerns about the loss of Hyder's independence. We must recognise that the group was regarded as highly indebted before the takeover bid was announced. Many observers doubted Hyder's ability to sustain itself as a viable group without some outside acquisition or break-up. We should consider the consequences of any takeover proposals that come forward.

4:10 p.m.

I will speak about the bid that has been submitted by Nomura. I confirm that the bid by Nomura, which is also referred to as St David Capital, is the only firm bid. I met representatives from Nomura and Hyder on the day that the bid was announced. The First Secretary and I have met Ian Byatt and others, so there has been considerable follow-up since that day. Nomura has promised to keep the Welsh group together and has assured me that it has no plans to break up the Hyder group. I have also obtained assurances from Nomura that it has no plans for job losses, apart from those that were announced by Hyder last year. Some Hyder employees may be here to hear this. Those redundancies or job losses have been largely achieved. Nomura has said that it will seek to improve the performance of Hyder's coal, water and electricity business and it also intends to develop non-regulated concerns such as infrastructure and contracting. That part of Hyder will be

ydym yn cynnal y drafodaeth hon heddiw a bore yfory, bydd aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn clywed sylwadau gan bobl sydd wedi dod i rannu'r drafodaeth ac archwilio materion yn ddyfnach. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod bod y Cynulliad yn ein galluogi i gynnal yr archwiliad hwn.

Mae cwmni Hyder o bwys mawr i Gymru. Mae'n cyflogi 6,000 o bobl, yn darparu gwasanaethau dŵr, nwy a thrydan i rannau helaeth o Gymru ac yn gwmni isadeiledd a chontractio pwysig. Mae'n bwysig cofio'r tair elfen honno, gan nad yw pobl bob amser yn gwybod am yr elfen gontractio a sut mae wedi tyfu dros y blynyddoedd. Mae pryderon amlwg ynglŷn â cholled annibyniaeth Hyder. Rhaid inni gydnabod yr ystyrid bod y grŵp mewn dyled fawr cyn cyhoeddi'r cais i'w feddiannu. Yr oedd llawer o bobl a oedd yn cadw llygad ar y sefyllfa yn amau a allai Hyder gynnal ei hun fel grŵp hyfyw heb gael ei gaffael o'r tu allan neu ei ddatgymalu. Dylem ystyried canlyniadau unrhyw gynigion i brynu'r cwmni a ddaw.

Siaradaf am y cynnig a gyflwynwyd gan Nomura. Cadarnhaf mai'r cynnig gan Nomura, y cyfeirir ato hefyd fel Cyfalaf Dewi Sant, yw'r unig gynnig pendant. Cyfarfûm â chynrychiolwyr Nomura a Hyder ar y diwrnod y cyhoeddwyd y cynnig. Mae'r Prif Ysgrifennydd a minnau wedi cwrdd ag Ian Byatt ac eraill, ac felly mae sylw sylweddol wedi ei roi i ddatblygiadau ers y diwrnod hwnnw. Mae Nomura wedi addo cadw'r grŵp Cymreig gyda'i gilydd ac wedi fy sicrhau nad oes ganddo unrhyw fwriad i ddatgymalu grŵp Hyder. Yr wyf hefyd wedi cael sicrwydd gan Nomura nad oes ganddo unrhyw gynlluniau i gael gwared â swyddi, ar wahân i'r rheini a gyhoeddwyd gan Hyder y llynedd. Efallai fod rhai o weithwyr Hyder yma i glywed hyn. Mae'r diswyddiadau neu'r colledion swyddi hynny wedi digwydd i raddau helaeth. Mae Nomura wedi dweud y bydd yn ceisio gwella perfformiad busnes glo, dŵr a thrydan Hyder ac y mae hefyd yn bwriadu datblygu busnesau heb eu

developed alongside other compatible activities.

I move on to consider the water, electricity and gas regulators, which have the delightful names of Ofwat and OFGEM. This is the first proposed takeover of a multi-utility company. We must bear that in mind. The Office of Water Services, or Ofwat, and the Office of Gas and Electricity Markets, or OFGEM, will need to be satisfied that bidders have the operational and financial capacity to own the licensing, water, gas and electricity utilities. They will also advise the Office of Fair Trading on the impact of the acquisition on their ability to regulate the utilities.

The water regulators, Ofwat, and the electricity industry regulators, OFGEM, issued a joint consultation document on the Nomura bid. It set out the key issues that needed to be considered when advising the Office of Fair Trading. Ofwat is seeking to ensure that the water company will be able to deliver, within existing price limits, the capital programme for its water and sewerage business, which is worth in excess of £1 billion. Those will be the requirements. OFGEM will look to the electricity distribution businesses to seek further improvements in efficiency and quality of supply. In this way—and this is important—consumers' interests should not be affected.

The impact on the environment is of considerable concern to many Assembly Members. Any company that takes over Hyder will be expected to meet its commitments, which include completing the massive water company investment programme of £1.1 billion that is planned over the next five years. This programme will bring substantial environmental benefits through improvements to many of the water company, Dŵr Cymru's, sewerage discharges. There will be particular improvements in river and coastal water quality. Hyder is rightly proud of its

rheoleiddio megis isadeiledd a chontractio. Bydd y rhan honno o Hyder yn cael ei datblygu ochr yn ochr â gweithgareddau cydnaws eraill.

Af ymlaen i ystyried y rheoleiddwyr dŵr, trydan a nwy, sydd yn meddu ar yr enwau hyfryd Ofwat ac OFGEM. Dyma'r tro cyntaf i gais i brynu cwmni aml-wasanaeth ddigwydd. Rhaid inni gadw hynny mewn cof. Bydd yn rhaid i'r Swyddfa Gwasanaethau Dŵr, neu Ofwat, a'r Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan, neu OFGEM, fod yn fodlon bod gan gyflwynwyr cynigion y gallu gweithrediadol ac ariannol i feddu ar y cyfleustodau o safbwynt trwyddedu, dŵr, nwy a thrydan. Byddant hefyd yn cynghori'r Swyddfa Masnachu Teg ynglŷn ag effaith y caffael ar eu gallu i reoleiddio'r cyfleustodau.

Cyhoeddodd y rheoleiddwyr dŵr, Ofwat, a rheoleiddwyr y diwydiant trydan, OFGEM, ddogfen ymgynghori ar y cyd ynglŷn â chynnig Nomura. Nodai'r prif faterion sydd i'w hystyried wrth gynghori'r Swyddfa Masnachu Teg. Mae Ofwat yn ceisio sicrhau y bydd y cwmni dŵr yn gallu cyflwyno, o fewn y cyfyngiadau pris presennol, y rhaglen gyfalaf ar gyfer ei fusnes dŵr a charthffosiaeth, sydd werth dros £1 biliwn. Dyna fydd y gofynion. Bydd OFGEM yn edrych ar y busnesau dosbarthu trydan i geisio gwelliannau pellach o ran effeithlonrwydd ac ansawdd y cyflenwad. Yn y modd hwn—ac mae hyn yn bwysig—ni ddylai buddiannau defnyddwyr gael eu heffeithio.

Mae'r effaith ar yr amgylchedd yn peri pryder sylweddol i lawer o Aelodau'r Cynulliad. Bydd disgwyl i unrhyw gwmni sydd yn prynu Hyder gyflawni ei ymrwymadau, sydd yn cynnwys cwblhau rhaglen fuddsoddi enfawr y cwmni dŵr o £1.1 biliwn sydd wedi ei chynllunio ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Bydd y rhaglen hon yn esgor ar fuddiannau sylweddol i'r amgylchedd drwy wella nifer o ollyngiadau carthffosiaeth y cwmni dŵr, Dŵr Cymru. Bydd gwelliannau penodol i ansawdd dŵr afon a'r arfordir. Mae Hyder yn iawn i fod yn falch o'i record amgylcheddol. Pan gyfarfûm

environmental record. When I met Nomura, I obtained confirmation that it was fully committed to maintaining that record. As the Secretary with responsibility for the environment, I think that that is important.

I move on to the impact on customers. Ofwat and OFGEM will require conditions and detailed licence changes to ensure that customers' interests are not disadvantaged as a consequence of a takeover. The price limit that has been set will be retained, and Ofwat and OFGEM will need to be satisfied that any merger does not prejudice Dŵr Cymru or SWALEC's ability to carry out improvements in quality and efficiency.

In terms of financial issues, Ofwat and OFGEM will look to maintain and strengthen ring-fencing arrangements for the finances that the water and electricity utilities need to conduct their activities.

The issue of fair trading has been raised. The Office of Fair Trading is looking into the proposed acquisition and is open to receive the Assembly's views. The office advises the Secretary of State for Trade and Industry on whether he should refer the acquisition to the Competition Commission. Assembly officials have already written to the Office of Fair Trading, offering initial comments on the public interest issues that might arise if the takeover was to result in significant job losses. If we consider the UK Government's merger policy in detail, the primary consideration in determining whether a merger should be referred to the Competition Commission is its effect on competition. However, other public interest issues such as the effect on employment and regional development must also be taken into account. It would be exceptional for those issues alone to justify a reference.

John Marek: In past years Ofwat has not been a strident champion of consumer rights. Could you bear that in mind? You should not rely on Ofwat to protect the consumer. Anything that you can do as the National

â Nomura, cefais gadarnhad ei fod wedi ymrwymo'n llwyr i gynnal y record honno. Fel yr Ysgrifennydd â chyfrifoldeb am yr amgylchedd, credaf fod hynny'n bwysig.

Af ymlaen i sôn am yr effaith ar gwsmeriaid. Bydd amodau a newidiadau trwyddedau manwl yn ofynnol gan Ofwat ac OFGEM er mwyn sicrhau nad yw buddiannau cwsmeriaid yn cael eu rhoi dan anfantais yn sgîl y pryniant. Bydd y terfyn pris sydd wedi'i osod yn aros, a bydd yn rhaid i Ofwat ac OFGEM fod yn fodlon nad yw unrhyw uniad yn niweidio gallu Dŵr Cymru neu SWALEC i gyflawni gwelliannau mewn ansawdd ac effeithlonrwydd.

O safbwynt materion ariannol, bydd Ofwat ac OFGEM yn ymdrechu i gynnal a chryfhau trefniadau clustnodi arian ar gyfer y cyllid y mae ar y gwasanaethau dŵr a thrydan ei angen i gynnal eu gweithgareddau.

Codwyd y mater o fasnachu teg. Mae'r Swyddfa Masnachu Teg yn ymchwilio i'r pryniant arfaethedig ac mae'n agored i dderbyn sylwadau'r Cynulliad. Mae'r swyddfa yn cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant a ddylai gyfeirio'r pryniant at y Comisiwn Cystadleuaeth ai peidio. Mae swyddogion y Cynulliad eisoes wedi ysgrifennu at y Swyddfa Masnachu Teg, gan gynnig sylwadau cychwynnol ynglŷn â materion buddiannau'r cyhoedd a allai godi pe bai'r pryniant yn arwain at gollu swyddi ar raddfa fawr. Os ystyriwn bolisi Llywodraeth y DU ynglŷn ag uno yn fanwl, yr ystyriaeth bennaf wrth benderfynu a ddylid cyfeirio uniad at y Comisiwn Cystadleuaeth yw ei effaith ar gystadleuaeth. Fodd bynnag, mae'n rhaid hefyd ystyried materion eraill buddiannau'r cyhoedd megis yr effaith ar gyflogaeth a datblygiad rhanbarthol. Byddai'n eithriadol i'r materion hynny yn unig gyfiawnhau cyfeirio'r mater.

John Marek: Yn y gorffennol nid yw Ofwat wedi bod yn un o gefnogwyr blaenllaw hawliau defnyddwyr. A allech chi gadw hynny mewn cof? Ni ddylech ddibynnu ar Ofwat i warchod y defnyddiwr. Byddai

Assembly for Wales would be welcome.

unrhyw beth y gallwch ei wneud fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei groesawu.

Sue Essex: I was referring to our five-year plan in terms of price and so on. I will return to the issue of competition procedures. If the Secretary of State for Trade and Industry refers the matter to the Competition Commission, the commission must also consider whether the takeover is likely to adversely affect the public interest. If the commission reaches that conclusion, the Secretary of State for Trade and Industry may either prohibit the takeover or seek remedies. It is important that we all know what the procedures are. Unless a takeover bid is prohibited by the Secretary of State for Trade and Industry, the shareholders must ultimately decide whether they will accept a bid, and which bid they will accept.

Sue Essex: Yr oeddwn yn cyfeirio at ein cynllun pum-mllynedd o safbwynt pris ac ati. Dychwelaf at y mater o weithdrefnau cystadlu. Os yw'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant yn cyfeirio'r mater at y Comisiwn Cystadleuaeth, rhaid i'r comisiwn hefyd ystyried a yw'r pryniant yn debygol o gael effeithiau niweidiol ar fuddiannau'r cyhoedd. Os yw'r comisiwn yn dod i'r casgliad hwnnw, gall yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant naill ai wahardd y pryniant neu chwilio am atebion. Mae'n bwysig ein bod oll yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau. Oni bai fod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant yn gwahardd cynnig i brynu, rhaid i gyfranddalwyr yn y pen draw benderfynu a ydynt am dderbyn y cynnig ai peidio, a pha gynnig gynnig y maent am ei dderbyn.

I am aware that newspapers have covered the issue of a rival bid, or bids. As an Assembly, we must apply key principles to any bids for Hyder. These bids rely on the points that I covered previously. However, I wish to emphasise those. If there were rival bids, we would make our comments in light of these key issues. Socially, the issue is jobs. We all wish to see these jobs retained as they are vital for Wales. Secondly, the environment must be protected. We have the programme for improvements, which is important in terms of protecting natural resources and the people in Wales who depend upon them. As John said, consumer protection is fundamental. Finally, it is important that we try to keep the company's base and offices in Wales. We want to see it as a Welsh-based company.

Yr wyf yn ymwybodol bod papurau newydd wedi rhoi sylw i'r mater o gynnig, neu gynigion, cystadleuol. Fel Cynulliad, rhaid inni gymhwysu egwyddorion allweddol i unrhyw gynnig i brynu Hyder. Mae'r cynigion hyn yn dibynnu ar y pwyntiau yr wyf wedi eu crybwyll eisoes. Fodd bynnag, carwn eu pwysleisio. Pe bai cynigion cystadleuol, byddem yn gwneud ein sylwadau yng ngoleuni'r materion allweddol hyn. Yn gymdeithasol, swyddi yw'r pwnc. Mae pob un ohonom yn dymuno gweld y swyddi hyn yn cael eu cadw gan eu bod yn holl bwysig i Gymru. Yn ail, rhaid gwarchod yr amgylchedd. Mae'r rhaglen ar gyfer gwelliannau gennym, sydd yn bwysig o safbwynt gwarchod adnoddau naturiol a phobl yng Nghymru sydd yn dibynnu arnynt. Fel y dywedodd John, mae gwarchod y defnyddiwr yn sylfaenol. Yn olaf, mae'n bwysig ein bod yn ceisio cadw pencadlys y cwmni â'r swyddfeydd yng Nghymru. Yr ydym am ei weld fel cwmni wedi ei leoli yng Nghymru.

In terms of further action by the Assembly, we have the joint meeting of the Economic Development Committee and the Environment, Planning and Transport

O safbwynt gweithredu pellach gan y Cynulliad, cynhelir y cyfarfod ar y cyd rhwng y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a

Committee tomorrow. That will be important as we will consider some of those detailed issues. After that debate, we will consider whether we wish to make any further views known to the Office of Fair Trading, the under-regulatory bodies or the Secretary of State for Trade and Industry. We want to keep in close contact with representatives from Nomura or, if another formal bid is submitted, representatives from that company.

We all feel deeply the loss to Wales of an independent public limited company. It is Wales's largest company so it is a matter of extreme regret, to put it mildly. However, the one firm bid that has been submitted so far promises to keep the group intact. If the bid is successful, in light of our discussions with Nomura, we are hopeful that the promises that were made will be kept. If there is an alternative bid, we will make those points clear.

I welcome the views of Assembly Members today. Llywydd, I will quickly refer to the amendments and state our group's view on them. First, we support Dafydd Wigley's amendment 1. We reject Alun Cairns' amendment 2, which condemns the role of Government in setting the windfall tax. It is clear—and Hyder would be honest about this—that if the windfall tax does play a part in this, it plays a small part. There is the issue of the way that SWALEC was bought and the deal that was done. So there is this issue of indebtedness and the fact that that happened meant the company was too reliant on water profits. Therefore, we reject that amendment strongly. I ask Dafydd Wigley to withdraw amendment 3. I say this optimistically; the reason is for Wales. The motion states that the Assembly

'welcomes and endorses the actions of the First Secretary and the Secretary for the Environment, Planning and Transport in meeting and seeking reassurances'.

I do not believe that anyone here would not welcome and endorse that. We have tried to

Thrafnidiaeth yfory. Bydd hynny'n bwysig gan y byddwn yn ystyried rhai o'r materion manwl hynny. Ar ôl y drafodaeth honno, byddwn yn ystyried a ydym yn dymuno cyfleu unrhyw sylwadau pellach i'r Swyddfa Masnachu Teg, y cyrff tan-reoleiddio neu'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant. Mae arnom eisiau bod mewn cysylltiad agos gyda chynrychiolwyr Nomura neu, os cyflwynir cynnig ffurfiol arall, gyda chynrychiolwyr y cwmni hwnnw.

Mae pob un ohonom yn teimlo'r golled i Gymru ar ôl cwmni cyfyngedig cyhoeddus annibynnol. Hwn yw cwmni mwyaf Cymru felly mae'n resyn o'r mwyaf, a dweud y lleiaf. Fodd bynnag, mae'r unig gynnig pendant sydd wedi ei gyflwyno hyd yma yn addo cadw'r grŵp fel un. Os yw'r cynnig yn llwyddiannus, o safbwynt ein trafodaethau gyda Nomura, yr ydym yn obeithiol y cedwir at yr addewidion a wnaethpwyd. Os oes cynnig arall, byddwn yn gwneud y pwyntiau hynny yn eglur.

Croesawaf sylwadau Aelodau'r Cynulliad heddiw. Lywydd, cyfeirïaf yn gyflym at y gwelliannau a datgan barn ein grŵp arnynt. Yn gyntaf, cefnogwn welliant 1 Dafydd Wigley. Gwrthodwn welliant 2 Alun Cairns, sydd yn condemnio rôl y Llywodraeth o ran gosod y dreth ffawdelw. Os yw'r dreth ffawdelw yn chwarae rhan yn hyn, mae'n eglur—a byddai Hyder yn onest ynglŷn â hyn—mai rhan fach yw honno. Mae mater o sut y prynwyd SWALEC a'r cytundeb a wnaethpwyd. Felly, mae mater o ddyled, ac mae'r ffaith bod hynny wedi digwydd wedi golygu bod y cwmni'n rhy ddibynnol ar elw o wasanaethau dŵr. Felly, gwrthwynebwn y gwelliant hwnnw'n gryf. Gofynnaf i Dafydd Wigley dynnu gwelliant 3 yn ôl. Dywedaf hyn yn optimistaidd; mae'r rheswm er mwyn Cymru. Noda'r cynnig fod y Cynulliad yn

'croesawu ac yn cymeradwyo'r ffaith bod y Prif Ysgrifennydd ac Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth wedi cwrdd â'r rhai a allai gynnig prynu Hyder a cheisio cael sicrwydd.'

Ni chredaf nad oes unrhyw un yma na fyddai'n croesawu ac yn cymeradwyo hynny.

put those points across strongly on behalf of the workers and consumers in Wales, and note that that is how we wish to see the groups stay and work together. It is important that we send that message to the employees, and that all of us in the Assembly welcome and endorse that. I hope that you will rethink that amendment therefore. I will mention that when I reach amendment 5. On Alun Cairns's amendment 4—this will be a first—we are happy to support it. You have to get it right once in a while, Alun. We support that amendment to retain the headquarters in Wales and the offices in Brecon that are dear to Kirsty's heart.

4:20 p.m.

I am happy to support Dafydd Wigley's amendment 5—neither you nor I would want to see water privatisation. The fact that we are here discussing this issue, unfortunately, was predictable. It was inevitable—as my grandmother used to say, as sure as eggs are eggs—that we would be in this situation in which we did not want to be. Your point is about how the golden share, which was a back-door way of trying to get protection, would have given us more protection, but that opportunity has gone. My role as Secretary for the Environment, Planning and Transport will be very much to shore up water resource management and consumer protection. The sustainable development scheme will be important in terms of water resources. I am happy to support Michael German's amendment 6. There is always one faithful Liberal amendment.

Dafydd Wigley: Cynigiad welliant 1.

Ar linell 1, yn lle '*Cynulliad*', rhodder y geiriau '*Cynulliad Cenedlaethol*'.

Cynigiad hefyd welliant 3.

Ar linell 2 a 3, yn lle '*croesawu ac yn cymeradwyo*', rhodder '*nodi*'.

Cynigiad hefyd welliant 5. Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig:

Yr ydym wedi ceisio cyfleu'r pwyntiau hynny yn gryf ar ran y gweithwyr a'r defnyddwyr yng Nghymru, a nodwn mai dyna sut yr ydym am weld y grwpiau yn aros ac yn gweithio gyda'i gilydd. Mae'n bwysig ein bod yn cyfleu'r neges honno i'r gweithwyr, a bod pawb ohonom yn y Cynulliad yn croesawu ac yn cymeradwyo hynny. Gobeithiaf yr ailfeddyliwch am y gwelliant hwnnw felly. Soniaf am hynny pan ddof at welliant 5. Ynglŷn â gwelliant 4 Alun Cairns—mae hyn yn rhywbeth newydd—yr ydym yn hapus i'w gefnogi. Yr ydych yn siŵr o gael pethau'n iawn yn achlysurol, Alun. Cefnogwn y gwelliant hwnnw i gadw'r pencadlys yng Nghymru a'r swyddfeydd yn Aberhonddu sydd mor agos at galon Kirsty.

Yr wyf yn hapus i gefnogi gwelliant 5 Dafydd Wigley—ni fydddech chi na minnau am weld preifateiddio dŵr. Mae'r ffaith ein bod yn y sefyllfa hon yn trafod y mater hwn, yn rhagweladwy. Yr oedd yn anochel—*as sure as eggs are eggs*, fel y byddai fy nain yn ei ddweud—y byddem yn y sefyllfa hon nad ydym yn dymuno bod ynddi. Mae a wnelo eich pwynt â sut y byddai'r gyfran euraid, a oedd yn ffordd o geisio sicrhau gwarchodaeth drwy'r drws cefn, wedi rhoi gwell gwarchodaeth inni, ond mae'r cyfle hwnnw wedi diflannu. Bydd fy rôl fel Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn cynnwys cynnal rheolaeth adnoddau dŵr a gwarchod defnyddwyr. Bydd y cynllun datblygu cynaliadwy yn bwysig o safbwynt adnoddau dŵr. Yr wyf yn hapus i gefnogi gwelliant 6 Michael German. Mae yna bob amser un gwelliant ffyddlon gan y Rhyddfrydwyr.

Dafydd Wigley: I propose amendment 1.

In line 1 replace '*Assembly*' with the words '*National Assembly*'.

I also propose amendment 3.

In line 3 replace '*welcomes and endorses*' with '*notes*'.

I also propose amendment 5. Add at the end of the motion:

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gresynu'r ffaith nad oes 'cyfran euraidd' ar gyfer y gwasanaeth dŵr rheoledig a breifateiddiwyd, a geilw ar Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth i ddod â chynigion ger bron i ddiogelu buddiannau'r adnodd naturiol gwerthfawr hwn a'r rheini o eiddo defnyddwyr dŵr yng Nghymru.

The National Assembly regrets the fact that there is no 'golden share' in operation for the privatised water utility, and calls on the Secretary for the Environment, Planning and Transport to bring forward proposals to protect the interests of both of this valuable natural resource and those of water consumers in Wales.

O ran ewyllys da, o ystyried ymateb y Llywodraeth i'm gwelliant 5, tynnaf welliant 3 yn ôl. Cyflwynwyd gwelliant 3 oherwydd nad oeddwn yn ymwybodol bryd hynny o gynnwys y trafodaethau yr oedd y Prif Ysgrifennydd wedi eu cael.

As a goodwill gesture, considering the Government's reaction to my amendment 5, I withdraw amendment 3. Amendment 3 was tabled because I was not aware at the time of the content of the discussions that the First Secretary had had.

Mae'n hen ystrydeb yng Nghymru bod dŵr yn bwnc ymfflamychol. Byddwch chi, Lywydd, fel Aelod sydd yn cynrychioli ardal Tryweryn mor ymwybodol â neb yn y Cynulliad o'r teimladau dwys sydd yn gysylltiedig â'r pwnc. Yr oedd Cynan, gyda'i linell 'Cleddwch ein cartref dan y dŵr' yn cyffwrdd â nerf, fel yr oedd R.S. Thomas pan gyfeiriodd yn ei gerdd 'Reservoirs' at gronfeydd dŵr fel '*the subconscious of a people.*'

It is a cliché in Wales that water is an emotive issue. Presiding Officer, as a Member representing the Tryweryn area you will be as aware as anyone in the Assembly of the deep feelings that surround the subject. Cynan with his line '*Cleddwch ein cartref dan y dŵr*' ('Bury our home under water') struck a nerve, as did R.S. Thomas in his poem 'Reservoirs' when he referred to reservoirs as '*the subconscious of a people.*'

Mae'r hyn sydd yn digwydd i'r diwydiant dŵr, felly, yn cyffwrdd â hen deimladau. Mae hefyd yn cyffwrdd â phob un ohonom yng Nghymru mewn modd ymarferol, oherwydd bod pawb yn ddibynnol ar wasanaeth dŵr a charthffosiaeth. Caiff y rhan fwyaf o bobl Cymru eu heffeithio gan yr hyn sydd yn digwydd i Hyder.

What is happening to the water industry, therefore, touches old feelings. It also touches all of us in Wales in a practical way, because everyone depends on a water and sewerage service. The majority of the people of Wales will be affected by what is happening to Hyder.

Bu teimladau cryfion ynglŷn â'r pris y mae'n rhaid i drethdalwyr Dŵr Cymru ei dalu am eu dŵr. Yr oedd hyn yn wir pan oedd dŵr yn wasanaeth cyhoeddus, ac yn arbennig felly oherwydd bod yn rhaid inni dalu cymaint â hynny'n fwy am ein dŵr yng Nghymru na chwsmeriaid mewn dinasoedd cyfagos yn Lloegr, a'r dinasoedd hynny yn aml yn cael eu cyflenwad dŵr o Gymru. Teimlai llawer, gyda gwasanaeth cyhoeddus ac awdurdodau dŵr rhanbarthol drwy Gymru a Lloegr, y dylai un o ddau beth ddigwydd. Naill ai bod pris dŵr yn cael ei gyfartaleddu, a threthdalwyr dŵr Cymru yn cael gostyngiad ym mhpris dŵr, neu fod yr awdurdod Cymreig

There were strong feelings about the cost that Welsh Water ratepayers must pay for their water. This was true when water was a public utility, and especially so because we had to pay that much more for our water in Wales than customers in neighbouring cities in England, although those cities often received their water supply from Wales. Many felt, with public utilities and regional water authorities throughout Wales and England, that one of two things should happen. Either water prices should be averaged and there should be a decrease in the price of water for Welsh water ratepayers, or the Welsh authority should receive fair payment for the

yn derbyn tâl teg am y dŵr a gymerwyd o Gymru i'w werthu yn ninasoedd Lloegr fel y gellid gostwng y pris i drethdalwyr dŵr yng Nghymru.

Yna daeth preifateiddio. Yr oeddem ni ym Mhlaid Cymru yn gyfan gwbl elyniaethus i hyn. Ni allem ddirnad sut y byddai preifateiddio diwydiant mor sylfaenol â dŵr yn dod ag unrhyw fantais i unrhyw un heblaw'r hapfasnachwyr sydd yn hoffi gamblo ar y gyfnewidfa stoc i wneud elw iddynt eu hunain ar draul gwaith caled pobl eraill. Adeg preifateiddio, pan aeth y Mesur drwy'r Senedd, rhybuddiais, ar ran Plaid Cymru, y gwelem ddau beth yn digwydd. Yn gyntaf, gwelem bris dŵr yn dyblu, a dyna'n union a ddigwyddodd. Rhwng 1989 a 1999 cynyddodd y pris a dalwyd am ddŵr yng Nghymru o £76 i £140 y flwyddyn i bob tŷ, ar gyfartaledd. Yr oedd y trethdalwyr druain yn gorfod talu, nid yn unig am y gwasanaeth ond am yr elw i'r cyfranddalwyr. Yr oedd y dreth ar ddŵr hefyd yn gweithio fel treth gyffredinol i godi arian i'w wario ar wella'r amgylchedd. Mae'n waith hanfodol, ond yr oedd yn annheg ei gyllido drwy dreth a oedd yn taro yr un mor galed y wraig weddw ar bensiwn sylfaenol yn byw ar ei phen ei hun ag yr oedd y teulu lle yr oedd tri neu bedwar person yn ennill cyflog bras. Yr oedd y gyfundrefn yn sylfaenol annheg.

It was, and still is, fundamentally unfair that a widow might have to pay £6 or £7 a week towards her water and sewerage charges without receiving a discount for being a single person household and no help through the social security system.

Glyn Davies: In the interest of a balanced presentation, do you agree that investment in the infrastructure in Wales increased by at least the same level as the shareholders' profits or the value of rates?

Dafydd Wigley: I agree, and I will come to the importance of maintaining that investment. I disagree with the way in which that money was raised because it was insensitive to the position of those on low income, particularly single pensioners, who did not have any help towards the high cost

water taken from Wales to be sold in English cities so that the price for water ratepayers in Wales could be decreased.

Then came privatisation. We in Plaid Cymru were totally opposed to this. We could not comprehend how the privatisation of such a fundamental industry as water would bring any advantage to anyone apart from the speculators who like gambling on the stock exchange to make a profit for themselves at the expense of other people's hard work. At the time of privatisation, when the Bill went through Parliament, I warned, on behalf of Plaid Cymru, that we would see two things happen. First, we would see water prices doubling, and that is exactly what happened. Between 1989 and 1999 water prices in Wales increased from £76 to £140 per household annually, on average. The poor ratepayers had to pay, not only for the service but for the shareholders' profit. The water rate also acted as a general tax to raise money to be spent on improving the environment. It is essential work, but it was unfair to fund it through a tax that hits the widow on a basic pension living alone as hard as a family where three or four people were earning substantial wages. The system was fundamentally unfair.

Yr oedd, ac y mae'n parhau i fod, yn sylfaenol annheg y gallai gweddw fod yn talu £6 neu £7 yr wythnos tuag at ei thaliadau dŵr a charthffosiaeth heb gael gostyngiad am fod yn aelwyd person sengl a heb gymorth drwy'r system nawdd cymdeithasol.

Glyn Davies: Er budd cyflwyniad cytbwys, a gytunwch i'r buddsoddiad yn yr isadeiledd yng Nghymru gynyddu o leiaf ar yr un lefel ag elw cyfranddalwyr neu werth cyfraddau?

Dafydd Wigley: Cytunaf, a dof at bwysigrwydd cynnal y buddsoddiad hwnnw yn y man. Anghytunaf â'r ffordd y codwyd yr arian hwnnw oherwydd yr oedd yn ansensitif i sefyllfa pobl ar incwm isel, yn arbennig pensïynwyr sengl, na chaent unrhyw gymorth tuag at y costau uchel yr oedd yn rhaid iddynt

that they had to pay.

Privatisation has placed a burden on the poorest families in the land and if we, as a party, had any choice about what to do, we would want to see water back in the public sector as a non-profit making service, possibly through the establishment of a new public service trust. Sadly, that is not within the National Assembly's powers, either from the viewpoint of the full legislative powers that are needed to achieve re-nationalisation, or the financial resources to buy up 150 million shares, which today would cost £400 million on the open market.

Peter Black: Will you clarify that it is Plaid Cymru's policy to re-nationalise the water industry if it had that opportunity?

Dafydd Wigley: We would want to see the water industry in the public sector, but there are alternative ways of doing that, which I will address in a moment.

Alun Cairns: If that is your policy, how would you fund the re-nationalisation of the water industry? Which essential public services would you choose to cut to re-nationalise the industry?

Dafydd Wigley: We have noted with considerable interest that £22 billion is available to the Chancellor at the moment, which is being used to reduce the national debt. That money would be better used to bring the water industry back as a public service in Wales. However, as I say, that is outside our powers. I look to the day when the National Assembly achieves the powers of a full parliament that is able to do more than bleat about the fringes of such a core issue for our people and country.

It is worth noting that the Scottish Parliament has full responsibility for the public sector water industry in Scotland. Yes, a public sector water industry. It has its own water commissioner. Perhaps Wales should also have one. There is a need for legislation at Westminster to give the Assembly greater

eu talu.

Mae preifateiddio wedi gosod baich ar deuluoedd tlotaf y wlad a phe bai gennym, fel plaid, unrhyw ddewis ynglŷn â'r hyn i'w wneud, byddem am weld dŵr yn ôl yn y sector cyhoeddus fel gwasanaeth nad yw'n gwneud elw, o bosibl drwy sefydlu ymddiriedolaeth gwasanaeth cyhoeddus newydd. Yn anffodus, nid yw hynny o fewn pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol, naill ai o safbwynt y pwerau deddfwriaethol llawn sydd yn ofynnol i ailwladoli, na'r adnoddau ariannol i brynu 150 miliwn o gyfranddaliadau a fyddai'n costio £400 miliwn ar y farchnad agored heddiw.

Peter Black: A wnewch ei gwneud yn glir mai polisi Plaid Cymru yw ailwladoli'r diwydiant dŵr pe câi'r cyfle hwnnw?

Dafydd Wigley: Byddem am weld y diwydiant dŵr yn y sector cyhoeddus, ond mae ffyrdd eraill o wneud hynny a byddaf yn rhoi sylw i'r rheini yn y man.

Alun Cairns: Os mai dyna yw eich polisi, sut y byddech yn cyllido ailwladoli'r diwydiant dŵr? Pa wasanaethau cyhoeddus hanfodol y byddech yn dewis eu torri i ailwladoli'r diwydiant?

Dafydd Wigley: Yr ydym wedi sylwi gyda chryn ddiddordeb bod £22 biliwn ar gael i'r Canghellor ar hyn o bryd sydd yn cael ei ddefnyddio i leihau'r ddyled genedlaethol. Byddai'n well i'r arian hwnnw gael ei ddefnyddio i ddod â'r diwydiant dŵr yn ôl yn wasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, fel y dywedaf, mae hynny y tu hwnt i'n pwerau. Edrychaf tuag at y dydd pan fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ennill pwerau senedd lawn sydd yn gallu gwneud mwy na breffu am agweddau ymylol pwnc sydd mor ganolog i'n pobl a'n gwlad.

Mae'n werth nodi fod gan Senedd yr Alban gyfrifoldeb llawn dros ddiwydiant dŵr y sector cyhoeddus yn yr Alban. Ie, diwydiant dŵr yn y sector cyhoeddus. Mae ganddi ei chomisiynydd dŵr ei hun. Efallai y dylai Cymru hefyd gael un. Mae angen deddfwriaeth yn San Steffan i roi rhagor o

powers over the water industry in Wales.

bwerau i'r Cynulliad dros y diwydiant dŵr yng Nghymru.

The second warning that Plaid Cymru—The Party of Wales gave at the time of privatisation was of the danger that if the industry was privatised, the company that took over these essential services in Wales could be easy prey to takeover bids on the stock market. We called for a golden share to safeguard against such an eventuality and I am glad to tell the Assembly that my filing system is efficient enough for me to have dug out an old copy of the Liverpool *Daily Post* from 12 January, 1989, which shows clearly how the then Secretary of State for Wales in the Conservative Government, Peter Walker, gave assurances that Wales would be safe from any such threats. He said explicitly:

Yr ail rybudd a roddodd Plaid Cymru—The Party of Wales adeg preifateiddio oedd ynglŷn â'r perygl y byddai preifateiddio'r diwydiant yn golygu y gallai'r cwmni a fyddai'n gyfrifol am y gwasanaethau hanfodol hyn yng Nghymru fod yn ysglyfaeth hawdd i geisiadau meddiannu ar y farchnad stoc. Galwasom am gyfran euraid i warchod rhag digwyddiad o'r fath ac yr wyf yn falch o ddweud wrth y Cynulliad fod fy system ffeilio yn ddigon effeithiol imi fod wedi tyrchu ohono hen gopi o *Daily Post* Lerpwl o 12 Ionawr, 1989, sydd yn dangos yn eglur sut y rhoddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru y Llywodraeth Geidwadol ar y pryd, Peter Walker, sicrwydd y byddai Cymru yn ddiogel rhag y fath fygythiadau. Dywedodd yn eglur:

'For the first time, the water of Wales will be very much in the hands of the Welsh people.'

'Am y tro cyntaf, bydd dŵr Cymru yn wirioneddol yn nwylo pobl Cymru.'

The report went on to clarify the safeguards in the following words:

Aeth yr adroddiad ymlaen i egluro'r amddiffynfeydd gyda'r geiriau canlynol:

'The outcome is that anyone shareholding in Welsh water will be limited to 15 per cent. The Monopolies and Mergers Commission will also be empowered to step in to block mergers in privatised companies worth more than £30 million'.

'Y canlyniad yw y bydd unrhyw gyfranddalwyr yn nŵr Cymru yn cael eu cyfyngu i 15 y cant. Bydd y Comisiwn Monopolïau a Chydsoddiadau hefyd yn awdurdodedig i gamu i mewn i rwystro cydsoddiadau mewn cwmnïau wedi'u preifateiddio sydd yn werth mwy na £30 miliwn.'

I asked the Secretary of State for Wales in the House of Commons yesterday for an explanation of what happened to those safeguards. He was unable to give me one. I repeat that question to Sue Essex today and that is the background to amendment 5, which I was glad that she supported.

Gofynnais i Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin ddoe am esboniad o'r hyn a ddigwyddodd i'r amddiffynfeydd hynny. Nid allai roi esboniad imi. Holaf yr un peth i Sue Essex heddiw a dyna sydd y tu ôl i welliant 5, yr oeddwn yn falch ei bod wedi ei gefnogi.

4:30 p.m.

Will the Secretary make a clear statement on the Government's interpretation of the powers that it has under the Water Act 1989, which has been subsumed, in parts, into the Water Act 1991, and in particular the Sections that give the Secretary of State, as he then was, a number of powers that are material to today's circumstances? The Secretary of State for Wales claimed yesterday that these powers have all been transferred to the Assembly. I would like to know whether that is the case. In recent weeks we have seen an abundant confirmation that our water industry is vulnerable to the whims of the market. In the worst possible scenario, it could be subject to an asset stripping exercise that flogged off the most profitable parts to the highest bidders and passed the control of our water industry into the hands of people who know little and care less about the well being of Wales. That scenario cannot be, and is not, acceptable to the National Assembly.

Wrth inni drafod y pwnc hwn heddiw, mae'r sefyllfa ymhell o fod yn eglur. Mae'n hysbys nad yw'r *status quo* yn opsiwn. Mae Hyder mewn dŵr poeth iawn, os gwnewch chi faddau'r dywediad. Mae gan y cwmni ddyledion o ryw £2,000 o filiynau. Fe'i trawyd gan dri neu bedwar o ffactorau—efallai ei fod wedi talu gormod am y cwmni trydan a brynodd, wedi rhoi gormod o'i elw i gyfranddalwyr neu heb gadw digon yn ôl i dalu'r dreth gorelw. Efallai fod y dreth honno o £280 miliwn yn annheg o uchel. Ni fu i'r cwmni ychwaith ystyried yn ddigonol y pwysau aruthrol a deimlid ynglŷn â phris dŵr, a'r modd y byddai'n gorfodi rheolydd y diwydiant i roi terfyn ar y codiadau a fu'n llesteirio'r cwsmeriaid dros gyfnod hir.

Digon hawdd yw gweld bai a dweud nad o'r sefyllfa bresennol yr hoffem gychwyn ar unrhyw ymdrech i achub y gwasanaeth hanfodol hwn er lles y genedl. Y realiti yw na all Hyder barhau yn yr argyfwng ariannol sydd yn wynebu'r cwmni. Rhaid gofyn felly, pa ddarpariaeth sydd orau o safbwynt trethdalwyr Dŵr Cymru, o safbwynt diwydiant Cymru ac o safbwynt gwarchod yr amgylchedd, yn arbennig ein harfordir.

A wnaiff yr Ysgrifennydd ddatganiad clir ynglŷn â dehongliad y Llywodraeth o'r pwerau sydd ganddi dan Ddeddf Dŵr 1989, sydd wedi ei ddisodli, mewn rhannau, gan Ddeddf Dŵr 1991, ac yn benodol yr Adrannau sydd yn rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol, fel yr oedd bryd hynny, nifer o bwerau sydd yn berthnasol i'r amgylchiadau heddiw? Honnodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ddoe bod yr holl bwerau hyn wedi eu trosglwyddo i'r Cynulliad. Carwn wybod a yw hynny'n wir. Yn yr wythnosau diwethaf, yr ydym wedi gweld cadarnhad ar ei ganfed bod ein diwydiant dŵr ar drugaredd mympwy'r farchnad. Yn y sefyllfa waethaf bosibl, gallai ddiodef gweithgaredd sydd yn tynnu ei asedau oddi arno a fyddai'n gwerthu'r rhannau mwyaf proffidiol i'r bidwyr uchaf ac yn trosglwyddo'r rheolaeth dros ein diwydiant dŵr i ddwylo pobl sydd yn gwybod ychydig ac yn poeni llai am les Cymru. Ni all y darlun hwnnw fod yn dderbyniol i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac nid yw yn dderbyniol.

As we discuss this subject today, the situation is far from being clear. It is evident that the *status quo* is not an option. Hyder is in very hot water, if you will pardon the expression. The company has debts of about £2,000 million. It has been struck by three or four factors—perhaps it paid too much for the electricity company that it purchased, gave too much profit to shareholders or did not keep enough back to pay the windfall levy. Perhaps that levy of £280 million is unfairly high. Neither did the company give sufficient consideration to the tremendous pressure felt about the price of water, and the way that that would force the industry regulator to stop the increases that have hindered customers over a long period.

It is easy to find fault and say that we would not like to begin from the current situation any attempt to save this essential service for the benefit of the nation. The reality is that Hyder cannot continue in the financial crisis facing the company. We must ask, therefore, what provision would be best as regards Welsh Water ratepayers, as regards Welsh industry and as regards protecting the environment, especially our coastline. We

Gallem osod y fframwaith yr hoffem ei gweld, ond rhaid derbyn bod y pwerau sydd gennym i wireddu hyn yn gyfyngedig. Serch hynny, gobeithiaf y bydd y cwmnïau sydd yn ystyried prynu Hyder yn cadw gobeithion a dyheadau'r Cynulliad mewn cof.

Yn gyntaf, rhaid diogelu'r gwasanaeth dŵr a charthffosiaeth i bobl Cymru, ynghyd â'r gwasanaeth trydan i'r ardal o Gymru sydd yn dibynnu ar SWALEC. I gyflawni hyn, yr wyf yn argyhoeddedig bod rhaid osgoi toriadau yn nifer y staff sydd yn cyflawni'r gwasanaeth. Rhaid cael staff sydd yn gyfarwydd â'n cymunedau ac â'n hardaloedd gwledig. Rhaid cael peirianwyr sydd yn adnabod eu tiriogaeth. Rhaid cynnal canolfannau gwasanaeth sydd yn gyfleus i'r cwsmer ac sydd yn cael eu staffio gan bobl sydd yn adnabod eu bro. Dysgodd Manweb drwy brofiad am y problemau a ddaw yn sgîl gorganoli. A bod yn deg, mae Manweb wedi ailystyried rhai agweddau ar hyn, gan agor canolfan alwadau yng Nghaernarfon sydd yn cyflogi staff sydd yn adnabod eu hardal. Mae'n hanfodol bod unrhyw gwmni sydd yn cyflenwi'r gwasanaethau hyn yn y dyfodol yn cyflogi staff lleol er mwyn cyflenwi gwasanaeth o'r safon y mae gan y cwsmeriaid yr hawl i'w ddisgwyl.

Yn ail, rhaid i unrhyw gwmni newydd gadw ei bencadlys yng Nghymru. Mae hyn yn hanfodol bwysig o safbwynt cyflogaeth yng Nghymru ac o safbwynt strategol. Mae hefyd yn hanfodol er mwyn meithrin cydweithrediad â'r Cynulliad Cenedlaethol. Os oes gwirionedd yn yr honiad fod un o'r cwmnïau sydd wedi dangos diddordeb yn bwriadu cau pencadlys yng Nghaerdydd a rhedeg y gwasanaeth dŵr i Gymru o ganolfan yng ngogledd-orllewin Lloegr, rhaid datgan yn ddigamsyniol, na fyddai hyn yn dderbyniol gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Yn drydydd, rhaid cael sicrwydd tymor hir. Nid yw'n dderbyniol i gwmni ddod i mewn i stripio'r asedau a'u rhannu mewn arwerthiant sinigaidd gan ddiflannu gyda'r elw yn ei boced. Derbyniaf y bydd angen rhywfaint o ailstrwythuro, ond rhaid iddo fod yn rhan o gynllun tymor hir sydd yn dderbyniol gan y

could stipulate the framework that we would like to see, but we must accept that the powers that we have to achieve this are limited. However, I hope that the companies that are considering purchasing Hyder will bear the hopes and aspirations of the Assembly in mind.

First, we must safeguard the water and sewerage service for the people of Wales, as well as the electricity service for the region of Wales that depends on SWALEC. To achieve this, I am convinced that we must avoid cutting the numbers of staff delivering the service. We must have staff who are familiar with our communities and with our rural areas. We must have engineers who know their territory. We must maintain service centres that are convenient to the customer and that are staffed by people who know their area. Manweb learnt the hard way about the problems that arise as a result of over-centralisation. To be fair, Manweb has reconsidered some aspects of this, and has opened a call centre in Caernarfon, which employs staff who know their area. It is essential that any company that provides these services in the future, employs local staff to provide a standard of service that the customers have a right to expect.

Secondly, any new company must keep its headquarters in Wales. This is vitally important in terms of employment in Wales and from a strategic standpoint. It is also essential in order to foster co-operation with the National Assembly. If there is any truth in the allegation that one of the companies that has shown an interest intends to close the headquarters in Cardiff and run the water service for Wales from a centre in north-west England, it must be unequivocally stated, that that would be unacceptable to the National Assembly.

Thirdly, we must have long-term security. It is not acceptable for a company to come in to strip the assets and distribute them in a cynical auction before disappearing with the profit in its pocket. I acknowledge that some restructuring will be necessary, but it must be part of a long-term scheme that is acceptable

Cynulliad. Y mae hynny'n rhywbeth y dylai'r Llywodraeth ei ddilyn.

Yn bedwerydd, disgwylir i unrhyw gwmni a fydd yn cymryd drosodd, barhau i fuddsoddi'n ddigonol i wella cyflwr yr amgylchedd, a'n harfordir yn arbennig. Teg yw talu teyrnged i waith Hyder yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae llawer o waith ar ôl i'w wneud. Dyma un agwedd ar y gwaith lle y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol gydweithio â'r cwmni newydd i gyrraedd targedau derbynol. Os yw'r cwmni yn fodlon cytuno ar strategaeth gyffredinol gyda'r Cynulliad, mae'n bosibl y gallai'r Cynulliad helpu o safbwynt buddsoddi mewn cynlluniau ar hyd ein harfordir, ac yn ein hardaloedd diwydiannol, a fydd o les amgylcheddol.

Yn bumed, rhaid i unrhyw gwmni sydd yn dod i Gymru am y tro cyntaf sylweddoli nad yw boddi mwy o gymoedd i werthu dŵr er mwyn cynhyrchu elw preifat yn dderbynol i'r Cynulliad. Rhaid iddynt ddeall, yn ddigamsyniol, fod rheolaeth cynllunio ar gyfer datblygu cronfeydd dŵr newydd yn ein dwylo ni yn y Cynulliad Cenedlaethol. Ni fyddwn yn fodlon dioddef yn y dyfodol y math o ecsbloetio a welwyd yn y gorffennol.

Yn chweched, ac yn bwysicaf i'r trethdalwyr dŵr, mae'n rhaid i gwmni newydd edrych ar y fformwla a osodir gan reolydd y diwydiant—y fformwla enwog RPI+K, fel yr arferai fod, efallai RPI-X erbyn hyn—fel fformwla sydd yn gosod uchafswm y pris i'w godi, nid yn gosod y norm. Gobeithiaf y byddai unrhyw gwmni newydd yn fodlon gweithio oddi mewn i fformwla o'r math, a pheidio ag ystyried fod ganddynt yr hawl bob blwyddyn i godi pris dŵr i'r lefel uchaf posibl y mae'r fformwla yn ei chaniatáu.

Gobeithiaf y byddai'r cwmni hefyd yn edrych ar ddulliau o roi gostyngiad yn y biliau ar gyfer rhai mathau o gwsmeriaid, yn arbennig pensynwyr sengl. I ddiogelu buddiannau defnyddwyr Cymru, credaf fod angen adran o Ofwat i wasanaethu Cymru yn benodol.

Those are the six areas of main concern. Service levels and maintaining jobs, the

to the Assembly. That is something that the Government should pursue.

Fourthly, any company that takes over will be expected to continue to invest adequately to improve the condition of the environment, especially our coastline. It is only fitting that we pay tribute to Hyder's work in this field. However, there is much work left to be done. This is one aspect of the work where the National Assembly could co-operate with the new company to achieve acceptable targets. If the company is prepared to agree on a general strategy with the Assembly, it is possible that the Assembly will be able to help with investment in schemes along our coastline, and in our industrial areas, which will be of environmental benefit.

Fifth, any company coming to Wales for the first time must realise that drowning more valleys to sell water to produce private profit is unacceptable to the Assembly. They must understand, unequivocally, that planning control for the development of new reservoirs is in our hands in the National Assembly. We are not prepared to suffer in the future the kind of exploitation seen in the past.

Sixth, and most importantly for water ratepayers, a new company must look at the formula set by the industry regulator—the famous formula that used to be RPI+K and that is perhaps RPI-X by now—as a formula that sets the maximum charge to be levied, rather than setting the norm. I hope that any new company would be prepared to work within such a formula, and would not consider that they had the right every year to raise water prices to the highest level permitted by the formula.

I hope that the company would also look at ways to reduce bills for some kinds of customers, especially single pensioners. To safeguard the interests of Welsh consumers, I believe that we need a department of Ofwat to serve Wales specifically.

Dyna'r chwech prif bryder. Lefelau gwasanaeth a chynnal swyddi, lleoliad y

location of the headquarters, investment in the infrastructure, no asset stripping, no drowning of valleys and a reasonable pricing policy. What can the Government in Cardiff do to help? If there was a realistic prospect of establishing a viable, genuine, free-standing, non-profitmaking trust to run the water sector of this conglomerate, the Government of Wales should turn every stone to make this possible. I do not believe that that option is on the table. I do not have the slightest hesitation in saying that that option would be the desired outcome, short of re-nationalisation, which would be supported by the vast majority of people in Wales.

If that option is not on the table, The First Secretary should make it clear that he wishes to establish a Memorandum of Understanding between the Government of Wales and the new company, which should be discussed prior to the completion of the take-over. Such a memorandum should include the headings to which I have referred, and no doubt there would be others also that should be there. The First Secretary may also wish to seek, in any Memorandum of Understanding, the provision that at some future date the Government of Wales could make approaches to buy shareholdings in water activities of the new company. If the Government fails to achieve such an understanding, it might consider whether we have the resources to purchase at least a blocking minority of the shares, although I realise that because we have no independent borrowing powers this may be impractical at present. It should, however, be explored. The Government of Wales should publish at an early date an options paper outlining the choices and actions available to the Assembly.

Finally, if the water services are in the private sector, as opposed to our option of it being in the public sector, it makes little difference whether the shareholding is in the hands of a bank from Japan or institutional investors in London. We have good and positive working experiences with Japanese companies in Wales and this should not be a fundamental obstacle. It is sad that with this

pencadlys, buddsoddi yn yr isadeiledd, peidio â chael gwared ag asedau, peidio â boddi dyffrynnoedd a pholisi prasio rhesymol. Beth all y Llywodraeth yng Nghaerdydd ei wneud i helpu? Pe bai posibilrwydd gwirioneddol o sefydlu ymddiriedolaeth hyfyw, ddiwyll, sydd yn sefyll yn annibynnol ac nad yw'n gwneud elw i redeg sector dŵr y cydgmwni hwn, dylai Llywodraeth Cymru droi pob carreg i wneud hyn yn bosibl. Ni chredaf fod y dewis hwnnw yn agored inni. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth wrth ddweud mai'r dewis hwnnw fyddai'r canlyniad yr hoffem ei weld, heb allu ailwladoli, a gâi gefnogaeth mwyafrif helaeth pobl Cymru.

Os nad yw'r dewis hwnnw ger ein bron, dylai'r Prif Ysgrifennydd ei gwneud yn glir ei fod yn dymuno sefydlu Memorandwm Dealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r cwmni newydd, ac y dylid ei drafod cyn cwblhau'r meddiannu. Dylai memorandwm o'r fath gynnwys y penawdau yr wyf wedi cyfeirio atynt, ac yn ddi-os mae pwyntiau eraill a ddylai ymddangos ynddo hefyd. Efallai y dymuna'r Prif Ysgrifennydd geisio sicrhau darpariaeth, mewn unrhyw Femorandwm Dealltwriaeth, y gallai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol symud tuag at brynu cyfranddaliadau yng ngweithgareddau dŵr y cwmni newydd. Os metha'r Llywodraeth â sicrhau dealltwriaeth felly, efallai y gall ystyried a yw'r adnoddau gennym i brynu o leiaf leiafrif blocio o'r cyfranddaliadau, er y sylweddolaf y gallai hyn fod yn anymarferol ar hyn o bryd gan nad oes gennym bwerau benthyg annibynnol. Fodd bynnag, dylid ymchwilio i'r mater. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cyn gynted â phosibl bapur opsiynau sydd yn amlinellu'r dewisiadau a'r camau gweithredu sydd yn agored i'r Cynulliad.

I gloi, os yw'r gwasanaethau dŵr yn y sector preifat, yn hytrach na'n dewis ni iddynt fod yn y sector cyhoeddus, nid yw'n gwneud fawr o wahaniaeth a yw'r cyfranddaliadau yn nwylo banc o Siapan neu fuddsoddwyr sefydliadol yn Llundain. Mae gennym brofiadau positif o weithio gyda chwmnïau o Siapan yng Nghymru ac ni ddylai hyn fod yn rhwystr sylfaenol. Mae'n drist fod y

takeover we see the end of a company, Hyder, which when launched was heralded as holding the potential to keep the control of our water industry in Wales. I personally, and we as a party, still look to the day when the water services of Wales can be returned to the ownership of the people of Wales rather than being seen as a source of private profits for others who may or may not know much or care much about our country and its needs.

Alun Cairns: I propose amendment 2. After 'the Assembly' in line 1 insert:

condemns the role of the Government in destroying the financial base of Hyder through the windfall tax;

I also propose amendment 4. After 'investment programmes of the regulated utilities' insert:

and calls on the First Secretary to seek to gain a commitment from any potential purchaser of the group to retain the headquarters in Wales, to realise the need for growth, to maintain the unity of the company and to meet the existing environmental commitments.

Hyder has found itself in this position as a direct result of the windfall tax, as my amendment states. The £280 million double whammy imposed on the Welsh utility not only demonstrates the negative effects and consequences of increased taxation and regulation, but also the effect on the customers, employees and all the other stakeholders who are linked to that organisation.

Phil Williams: Do you accept that, according to my quick calculations, that figure represents less than 15 per cent of the present debt of the Hyder system, so it cannot explain more than 15 per cent of the financial problem?

4:40 p.m.

meddiannu hwn yn gweld diwedd cwmni, Hyder, y cyhoeddwyd pan y'i lanswyd bod ganddo'r potensial i gadw'r rheolaeth dros ein diwydiant dŵr yng Nghymru. Yn bersonol, ac fel plaid, yr ydym yn dal i edrych tuag at y diwrnod pan gall gwasanaethau dŵr Cymru ddychwelyd i feddiant pobl Cymru yn hytrach na chael ei ystyried fel ffynhonnell elw preifat i eraill nad ydynt, o bosibl, yn gwybod llawer am ein gwlad a'i hanghenion nac yn poeni fawr ddim ychwaith.

Alun Cairns: Cynigïaf welliant 2. Ar ôl 'y Cynulliad' yn llinell 1, ychwaneger:

yn condemnio rôl y Llywodraeth am ddinistrio sylfaen ariannol Hyder drwy'r dreth ffawdelw;

Cynigïaf hefyd welliant 4. Ar ôl y 'gwasanaethau rheoledig yn parhau i gael eu darparu', ychwaneger:

a geilw ar y Prif Ysgrifennydd i geisio ymrwymiad gan y sawl all brynu'r grŵp i gadw'r brif swyddfa yng Nghymru, i gydnabod yr angen am dwf, i gynnal undod y cwmni ac i gwrdd â'r ymrwymïadau amgylcheddol presennol.

Canfu Hyder ei hun yn y sefyllfa hon o ganlyniad uniongyrchol i'r dreth ffawdelw, fel y nodir yn fy ngwelliant. Mae'r baich dwbl o £280 miliwn a osodwyd ar wasanaethau rheoledig Cymru nid yyn unig yn dangos effeithiau a chanlyniadau negyddol cynyddu trethi a rheoleiddio, ond hefyd yr effaith ar gwsmeriaid, gweithwyr a'r holl fuddianwyr eraill sydd yn gysylltiedig â'r sefydliad hwnnw.

Phil Williams: A dderbyniwch, yn ôl fy symiau cyflym, bod y ffigur hwnnw yn cynrychioli llai na 15 y cant o ddyled bresennol system Hyder, felly ni all egluro mwy na 15 y cant o'r broblem ariannol?

Alun Cairns: I am glad that you have raised that point, Phil. My esteemed colleague Glyn Davies will highlight that point and talk about the proportional consequence of the windfall tax on Hyder's problems.

The Presiding Officer: Order. I have a further two Members down to speak in this debate. It is unlikely that any of your colleagues will get to speak. I must call Sue Essex to respond to the debate at 4.55 p.m. at the latest, because of the short debate that follows. Delyth Evans is seeking to intervene. Will you give way to her?

Alun Cairns: Yes.

Delyth Evans: Do you recognise that the money that was received through the windfall taxes was used to fund important social policies of this Government, from which poor people across the country benefit? Also, the windfall tax is not the reason why Hyder is in so much trouble. It is in trouble because it paid too much money for SWALEC. Do not mislead people on that issue.

Alun Cairns: I recognise that the windfall tax is yet another tax, which underlines the fact that the tax burden on the British or the Welsh person has increased since the last general election.

Glyn Davies: I was staggered to hear a member of Plaid Cymru, somebody who claims to have some economic background, suggest earlier that the tax formed a certain percentage of the debt. What is relevant is what percentage the windfall tax is of what might be called the market sentiment of what the company is short. That is generally thought to be about £400 million. You heard Rhodri Morgan talk about the Government's responsibility being 10 per cent. Do you agree that the Government's responsibility, through the windfall tax, is not 10, but 75 per cent of every negative impact of Hyder's demise?

Alun Cairns: Absolutely. You will not be

Alun Cairns: Yr wyf yn falch ichi godi'r pwynt hwnnw, Phil. Bydd fy mharchedig gyd-Aelod Glyn Davies yn tynnu sylw at y pwynt hwnnw ac yn siarad am ganlyniad cyfrannog y dreth ffawdelw yng nghyswllt problemau Hyder.

Y Llywydd: Trefn. Mae dau Aelod arall wedi'u rhestru i siarad yn y ddadl hon. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw un o'ch cyd-Aelodau yn cael cyfle i siarad. Rhaid imi alw ar Sue Essex i ymateb i'r ddadl am 4.55 p.m. fan bellaf, oherwydd y ddadl fer sydd yn dilyn. Mae Delyth Evans yn awyddus i ymyrryd. A wnewch ildio iddi?

Alun Cairns: Gwnaf.

Delyth Evans: A ydych yn cydnabod bod yr arian a dderbyniwyd yn sgîl y trethi ffawdelw wedi eu defnyddio i gyllido rhai o bolisiau cymdeithasol pwysig y Llywodraeth hon, yr elwodd pobl dlawd o bob rhan o'r wlad ohonynt? Yn ogystal, nid y dreth ffawdelw sydd yn gyfrifol am broblemau Hyder. Mae mewn trafferthion oherwydd iddo dalu gormod am SWALEC. Peidiwch â charmarwain pobl ar y mater hwnnw.

Alun Cairns: Yr wyf yn cydnabod bod y dreth ffawdelw yn dreth arall eto, sydd yn pwysleisio'r ffaith fod y baich treth ar bobl Prydain neu Gymru wedi cynyddu ers yr etholiad cyffredinol diwethaf.

Glyn Davies: Yr oeddwn yn syfrdan i glywed aelod o Blaid Cymru, rhywun sydd yn honni bod ganddo ryw faint o gefndir economaidd, yn awgrymu yn gynharach fod y dreth yn ffurfio canran benodol o'r ddyled. Yr hyn sydd yn berthnasol yw pa ganran yw'r dreth ffawdelw o'r hyn y gellid ei alw'n gydran y farchnad o'r hyn sydd yn ddyledus gan y cwmni. Credir mai tua £400 miliwn yw'r ffigur yn gyffredinol. Clywsoch Rhodri Morgan yn dweud fod y Llywodraeth yn gyfrifol am tua 10 y cant. A gytunwch fod y Llywodraeth, yn sgîl y dreth ffawdelw, yn gyfrifol, nid am 10 y cant, ond am 75 y cant o bob dylanwad negyddol ar ddirywiad Hyder?

Alun Cairns: Yn hollol. Ni fyddwch yn

surprised that I agree. That is the truth of the matter. The windfall tax has been a double whammy because it was a burden on both the water and the electricity industry. It did not achieve its aims, but delivered worrying prospects for the stakeholders and Hyder's employees in particular.

I will move on. The windfall tax is in the past. It is important that we talk about Hyder's future and how the Assembly can contribute to the prosperous development of such an organisation.

To respond to Dafydd Wigley's speech, the re-nationalisation of the water industry would not be in the interests of Hyder, its customers, shareholders, employees or anyone else involved. The money raised from the sale of the mobile phone licences has been spent 10 times over. It has been called on for match funding, to re-nationalise the rail industry and is now being called on to re-nationalise the water industry. Where will this stop? It is not a bottomless pit. Let us be grateful that there is no prospect of Plaid Cymru ever coming into government in Westminster, where fiscal policy lies.

In the short time that I have left, I turn to the main issues of my speech. Many people have expressed regret that we are forced to have this debate today, because, in their words, we are losing Wales's largest company to foreign buyers, or, as the Assembly Secretary said earlier, the independence of Wales's largest company. I can appreciate the patriotism, or parochialism, which gives rise to such statements. However, those statements are not strictly true. Hyder, the Welsh utility organisation, is quoted on the stock exchange. That means that there are tens of thousands of shareholders, comprising many institutions and individuals, no doubt from all over the world. Indeed, around 30 per cent of Hyder's shares are held in the United States of America. That shows that Hyder is a multi-national organisation and has shareholders from around the world. The ownership of such an organisation is not necessarily that important, provided that all the wealth-creating opportunities are held in Wales.

synnu fy mod yn cytuno. Dyna'r gwirionedd am y sefyllfa. Mae'r dreth ffawdelw wedi bod yn faich dwbl oherwydd yr oedd yn faich ar y diwydiant dŵr a thrydan. Ni lwyddodd i gyflawni ei amcanion ond esgorodd ar ragolygon pryderus i fuddianwyr a gweithwyr Hyder yn benodol.

Symudaf ymlaen. Mae'r dreth ffawdelw yn y gorffennol. Mae'n bwysig ein bod yn siarad am ddyfodol Hyder a sut y gall y Cynulliad gyfrannu at ddatblygiad ffyniannus sefydliad o'r fath.

I ymateb i araith Dafydd Wigley, ni fyddai ailwladoli'r diwydiant dŵr o fudd i Hyder, ei gwsmeriaid, ei gyfranddalwyr, ei weithwyr nac unrhyw un arall sydd yn gysylltiedig. Mae'r arian a godwyd yn sgîl gwerthu trwyddedau ffonau symudol wedi ei wario 10 gwaith drosodd. Galwyd am ei ddefnyddio fel arian cyfatebol, i ailwladoli'r diwydiant rheilffyrdd a gelwir yn awr am ei ddefnyddio i ailwladoli'r diwydiant dŵr. Pryd daw hyn i ben? Nid yw'n bwl diwaelod. Gadewch inni ddiolch nad oes fyth bosibilrwydd i Blaid Cymru ddod i rym yn San Steffan, lle erys y cyfrifoldeb am bolisiau cyllidol.

Yn yr amser byr sydd gennyf yn weddill, trof at brif fyrdwn fy araith. Mae llawer wedi mynegi tristwch y'n gorfodir i gynnal y ddatl hon heddiw, oherwydd, yn eu geiriau hwy, yr ydym yn colli cwmni mwyaf Cymru i ddwylo prynwyr o dramor, neu, fel y dywedodd Ysgrifennydd y Cynulliad yn gynharach, yn colli annibyniaeth cwmni mwyaf Cymru. Gallaf werthfawrogi y gwladgarwch, neu'r plwyfoldeb, sydd yn peri datganiadau o'r fath. Fodd bynnag, nid yw'r datganiadau hynny yn hollol wir. Mae Hyder, y sefydliad gwasanaethau rheoledig Cymreig, yn cael ei nodi yn y gyfnewidfa stoc. Golyga hynny bod ganddo ddegau ar filoedd o gyfranddalwyr, sydd yn cynnwys llawer o sefydliadau ac unigolion, o bedwar ban byd, bid siŵr. Yn wir, mae tua 30 y cant o gyfranddaliadau Hyder yn cael eu dal yn Unol Daleithiau America. Dengys hynny fod Hyder yn sefydliad aml-wladol a chanddo gyfranddalwyr dros y byd i gyd. Nid yw o anghenraid yn bwysig pwy yw perchnogion sefydliad o'r fath, cyhyd ag y bo'r holl

gyfleoedd i greu cyfoeth yn aros yng Nghymru.

Wales has built an enviable reputation on its relationships with multi-national or global organisations. Sony is an excellent example of such a company. It is a Japanese, global-based company that has invested heavily in the Welsh economy to the benefit of all stakeholders—employees, shareholders and customers—and the geographical area in which it has invested. Ford is another such example and is by now perceived by many as a British company. It is therefore important that we see any potential purchaser in the same light. I mentioned the wealth-creating opportunities as a caveat. By that, I mean the retention of Hyder's headquarters in Wales, a commitment to further developing the organisation—

Ieuan Wyn Jones: I recognise your sentiments, but how will you achieve that?

Alun Cairns: Amendment 4 puts that forward. I will develop that point later.

As I said, I mean the retention of Hyder's headquarters in Wales and a commitment to further developing the organisation, which in turn would safeguard jobs and meet the environmental obligations that have been agreed. The Assembly would normally have little, if any, involvement in the normal process of acquisition, merger or take-over. However, the fact that Hyder is a regulated business gives us the opportunity to express our view, which I trust will be considered by the Office of Fair Trading and the other regulators involved. I hope that that answers your question, Ieuan.

A key reason why I chose to become active in the 'Just Say No' campaign, was the fear that the Assembly would seek to interfere in business and slow down decision-making. This debate is an ideal way in which the Assembly could interfere and slow down decision-making. However, I hope that my early scepticism will be proved wrong and that we will allow the business process to follow its natural course, be it a bid from one

Mae Cymru wedi adeiladu enw eiddigeddus i'w hun oherwydd ei pherthynas gyda sefydliadau aml-wladol neu fyd-eang. Mae Sony yn enghraifft ragorol o gwmni o'r fath. Mae'n gwmni byd-eang o Siapan sydd wedi buddsoddi'n helaeth yn economi Cymru er budd yr holl fuddianwyr—gweithwyr, cyfrandalwyr a chwsmeriaid—a'r ardal ddaearyddol y mae wedi buddsoddi ynddi. Mae Ford yn enghraifft arall sydd yn cael ei weld gan lawer bellach fel cwmni Prydeinig. Mae felly'n bwysig ein bod yn ystyried unrhyw ddarpar brynwr yn yr un goleuni. Soniais am y cyfleoedd i greu cyfoeth fel cafeat. Yr hyn a olygaf wrth hynny yw cadw pencadlys Hyder yng Nghymru, ac ymrwymo i ddatblygu'r sefydliad ymhellach—

Ieuan Wyn Jones: Yr wyf yn deall eich teimladau, ond sut y cyflawnwch hyn?

Alun Cairns: Mae gwelliant 4 yn cyflwyno hynny. Datblygaf y pwynt hwnnw yn nes ymlaen.

Fel y dywedais, yr wyf yn golygu cadw pencadlys Hyder yng Nghymru ac ymrwymo i ddatblygu'r sefydliad ymhellach, a fyddai yn ei dro yn diogelu swyddi ac yn bodloni'r goblygiadau amgylcheddol y cytunwyd arnynt. Fel arfer ni fyddai gan y Cynulliad fawr o ran, os o gwbl, mewn proses arferol o gaffael, uno neu feddiannu. Fodd bynnag, mae'r ffaith fod Hyder yn fusnes sydd yn cael ei reoleiddio yn rhoi cyfle inni fynegi ein barn, a hyderaf y bydd yn cael ei ystyried gan y Swyddfa Masnachu Teg a'r rheoleiddwyr eraill sydd yn gysylltiedig. Gobeithiaf fod hynny'n ateb eich cwestiwn, Ieuan.

Un o'r prif resymau pam imi ddewis bod yn weithgar yn yr ymgyrch 'Na' oedd oherwydd yr ofn y byddai'r Cynulliad yn ceisio ymyrryd mewn busnes ac arafu'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'r ddadl hon yn ffordd ddelfrydol i'r Cynulliad ymyrryd ac arafu penderfyniadau. Fodd bynnag, gobeithiaf y profir fy amheuon cynnar yn anghywir ac y caniatawn i'r broses fusnes ddilyn ei chwrs naturiol, boed yn gais gan un

organisation or a counter-bid from another, whichever is most appropriate.

Carwyn Jones: You seem to have contradicted yourself almost completely. One moment you are saying that it is extremely important that any company that takes over Hyder has its headquarters in Wales, the next you are saying that we can do nothing about it and that the free market should reign supreme. Which is it?

Alun Cairns: If you had read amendment 4 carefully, you would have noted that it calls on the First Secretary 'to seek to gain a commitment'. That is what it is all about. If you imagine that we can call on the First Secretary to gain a commitment or make demands of private sector organisations—and this also applies to Dafydd Wigley's wish to re-nationalise the water industry in Wales—then I hope that you do not overestimate the influence that you could have.

The most important point is not to cause delay. I understand that the Office of Fair Trading is extending its consultation process by three weeks to include a contribution from the Assembly. In many respects, that is commendable. However, given that this debate was tabled swiftly and that the Environment, Planning and Transport Committee and the Economic Development Committee are considering the matter tomorrow, I hope that the other parties will join me in calling for a quick response from the Office of Fair Trading and the other regulators. Any delay could be significant. Hyder is in debt by £1.8 billion and some 9,000 jobs depend on an appropriate acquisition, merger or take-over. It is therefore essential that the various regulatory authorities provide the necessary output as soon as possible.

Any investment in Wales should be welcomed, provided that we can secure the commitment to meet the criteria that I have highlighted: the retention of the headquarters in Wales and continued development leading to the safeguarding of jobs.

sefydliad neu'n gais cystadleuol gan un arall, pa un bynnag yw'r mwyaf priodol.

Carwyn Jones: Yr ydych yn ymddangos fel pe baech yn gwrth-ddweud eich hun bron yn llwyr. Un funud yr ydych yn dweud ei bod yn hynod bwysig bod pa gwmni bynnag sydd yn meddiannu Hyder yn meddu ar bencadlys yng Nghymru, a'r funud nesaf yr ydych yn dweud na allwn wneud unrhyw beth yn ei gylch ac y dylai'r farchnad rydd gael rhwydd hynt? Pa un ydyw?

Alun Cairns: Pe baech wedi darllen gwelliant 4 yn ofalus, byddech wedi sylwi ei fod yn galw ar y Prif Ysgrifennydd 'i geisio ymrwymiad'. Dyna bwynt y mater. Os dychmygwch y gallwn alw ar y Prif Ysgrifennydd i geisio ymrwymiad neu fynnu unrhyw beth gan sefydliadau'r sector preifat—ac mae hyn hefyd yn berthnasol i ddymuniad Dafydd Wigley i ailwladoli'r diwydiant dŵr yng Nghymru—yna gobeithiaf nad oes gennych ormod o ffydd yng ngrym eich dylanwad.

Y pwynt pwysicaf yw peidio ag achosi oedi. Deallaf fod y Swyddfa Masnachu Teg yn ymestyn ei phroses ymgynghori o dair wythnos i gynnwys cyfraniad gan y Cynulliad. Mewn sawl ystyr, mae hynny i'w ganmol. Fodd bynnag, o ystyried fod y ddadl hon wedi ei chyflwyno'n gyflym a bod Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth a'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn ystyried y mater yfory, gobeithiaf yr ymuna'r pleidiau eraill gyda mi i alw am ymateb cyflym gan y Swyddfa Masnachu Teg a'r rheoleiddwyr eraill. Gallai unrhyw oedi fod yn arwyddocaol. Mae Hyder mewn dyled o £1.8 biliwn ac mae tua 9,000 o swyddi yn dibynnu ar broses briodol o gaffael, uno neu feddiannu. Mae felly'n holl bwysig bod yr amrywiol awdurdodau rheoleiddio yn dod i'r casgliadau gofynnol cyn gynted â phosibl.

Dylid croesawu unrhyw fuddsoddiad yng Nghymru, cyhyd ag y gallwn sicrhau'r ymrwymiad i fodloni'r meini prawf yr wyf wedi tynnu sylw atynt: cadw'r pencadlys yng Nghymru a pharhau i ddatblygu er mwyn arwain at ddiogelu swyddi.

Richard Edwards *rose*—

Alun Cairns: I am short of time and will not give way. We all know what Richard's interventions are like, so I am glad to carry on.

In addition, an interest in a Wales-based organisation demonstrates that potential is seen in Wales and that the potential exists to develop and harness that interest further. The time to worry is when we are ignored and seen as irrelevant—as a nation, not as an Assembly, of course. I have called on the Assembly on many occasions to embrace and facilitate the private sector in delivering the wealth for which we are all calling to deliver public services in the long term. This is an ideal way to do that and I hope that my amendments 2 and 4 will receive Assembly support.

Turning to the amendments tabled by the other parties, we are happy to support amendments 1 and 3 from the nationalists. Amendment 5, however, includes a principle of restriction that would undermine the wealth-creating process that I have sought to highlight. Mike German's amendment 6 only shows the lack of business understanding—*[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order.

Alun Cairns: However, in the interests of inclusivity and consensus politics, we will be happy to support it.

The Presiding Officer: I call Mike German. Please note that I must call Sue Essex within three minutes.

4:50 p.m.

Michael German: I propose amendment 6. Add at the end of the motion:

This Assembly notes with regret the small number of Wales-based companies quoted on the Stock Exchange, and recognises the

Richard Edwards *a gododd* –

Alun Cairns: Yr wyf yn brin o amser ac ni wnaaf ildio. Gwyddom oll am natur ymyriadau Richard, felly yr wyf yn falch o fwrw ymlaen.

Yn ogystal, mae diddordeb mewn sefydliad o Gymru yn dangos y gwelir potensial yng Nghymru a bod potensial i ddatblygu a ffrwyno'r diddordeb hwnnw ymhellach. Yr adeg i boeni yw pan gawn ein hanwybyddu a'n hystyried yn amherthnasol—fel cenedl, nid fel Cynulliad, wrth gwrs. Yr wyf wedi galw ar y Cynulliad sawl tro i gofleidio a hwyluso'r sector preifat er mwyn sicrhau'r cyfoeth yr ydym oll yn galw amdano i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn y tymor hir. Mae hon yn ffordd ddelfrydol o wneud hynny a gobeithiaf y bydd fy ngwelliannau 2 a 4 yn cael cefnogaeth y Cynulliad.

Gan droi at y gwelliannau a gyflwynwyd gan y pleidiau eraill, yr ydym yn hapus i gefnogi gwelliannau 1 a 3 gan y cenedlaetholwyr. Mae gwelliant 5, fodd bynnag, yn cynnwys egwyddor cyfyngu a fyddai'n tansilio'r broses o greu cyfoeth yr wyf wedi ceisio ei thanlinellu. Nid yw gwelliant 6 Mike German yn gwneud dim ond dangos diffyg dealltwriaeth o fyd busnes—*[Torri ar draws.]*

Y Llywydd: Trefn.

Alun Cairns: Fodd bynnag, yn enw cynhwysiant a gwleidyddiaeth consensws, byddaf yn hapus i'w gefnogi.

Y Llywydd: Galwaf ar Mike German. Sylwer bod yn rhaid imi alw ar Sue Essex ymhen tri munud.

Michael German: Cynigiaf welliant 6. Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig:

Mae'r Cynulliad hwn yn gresynu mai dim ond cyfran fechan o gwmnïau o Gymru sydd wedi'u rhestru ar y gyfnewidfa stoc, ac y

importance of any new owner of Hyder maintaining Hyder's base of management expertise within Wales.

I appreciate that Sue Essex must be called soon. I do not know whether Alun's praise was worth having. I declare an interest, as my daughter works in Hyder's head office and is the proud owner of, I think, 24 shares, which will certainly not be enough to keep me in my old age. I welcome the openness with which the prospective bidder has treated this matter. It has been prepared to talk to virtually everybody who has an interest in this matter in Wales, including trade unions and the Assembly, its Members and the respective parties.

We will support amendment 2 on the windfall tax, but for different reasons to those that Alun Cairns outlined. The windfall tax is responsible for some of Hyder's problems, but not all of them. I am concerned about the 'money in, money out' principle, and will tackle this matter head on. It is probably clear to everyone that the windfall tax meant that British Gas, Manweb, British Telecom and Hyder paid between £400 million and £450 million into the Government's Exchequer. That money left Wales. As a result of the programmes implemented, between £100 million and £150 million came into Wales. Therefore, the windfall tax did not give Wales the best deal, even though the New Deal initiative came out of it. We opposed the windfall tax because the money left Wales. We believe in being honest, open and transparent about tax, letting people know on what they are being taxed. One-off, unsustainable funding is bad economic management.

There are two options on the table for the future of Hyder. The Nomura bid gives us reassurance that it will keep the top-level management in Wales. The advantage is that Nomura does not have a management structure in place elsewhere in the UK. Therefore, thankfully, there is no great

mae'n cydnabod ei bod yn bwysig sicrhau bod unrhyw berchennog newydd fydd gan Hyder yn cynnal y craidd o arbenigedd sydd gan Hyder ym maes rheoli yng Nghymru.

Gwerthfawrogaf fod yn rhaid galw Sue Essex yn fuan. Ni wn a oedd canmoliaeth Alun yn werth ei gael. Datganaf fuddiant, gan fod fy merch yn gweithio ym mhrif swyddfa Hyder ac yn berchennog balch ar 24, credaf, o gyfranddaliadau, a fydd yn sicr yn annigonol i'm cadw i yn fy henaint. Croesawaf yr agwedd agored y mae'r cwmni sydd wedi cyflwyno cais wedi ei ddangos wrth ymdrin â'r mater hwn. Mae wedi bod yn barod i siarad â bron pawb sydd â diddordeb yn y mater hwn yng Nghymru, gan gynnwys undebau llafur a'r Cynulliad, ei Aelodau a'r gwahanol bleidiau.

Cefnogwn welliant 2 ynglŷn â'r dreth ffawdelw, ond am resymau gwahanol i'r rhai a amlinellwyd gan Alun Cairns. Mae'r dreth ffawdelw yn gyfrifol am rywffaint o broblemau Hyder, ond nid y cyfan ohonynt. Yr wyf yn bryderus am yr egwyddor 'arian i mewn, arian allan', a byddaf yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r mater hwn. Mae'n debyg ei bod yn eglur i bawb bod y dreth ffawdelw yn golygu bod Nwy Prydain, Manweb, Telecom Prydain a Hyder wedi talu rhwng £400 miliwn a £450 miliwn i Drysorlys y Llywodraeth. Aeth yr arian hwnnw allan o Gymru. Yn sgîl y rhaglenni a weithredwyd, daeth rhwng £100 miliwn a £150 miliwn i mewn i Gymru. Felly, ni roddodd y dreth ffawdelw y fargen orau i Gymru er i fenter y Fargen Newydd ddeillio ohono. Gwrthwynebasom y dreth ffawdelw am i'r arian adael Cymru. Credwn mewn bod yn onest, yn agored a thryloyw ynglŷn â threthu, gan adael i bobl wybod am beth y cânt eu trethu. Mae cyllido unswm, anghynaliadwy yn dangos rheolaeth economaidd wael.

Mae dau ddewis ar gael ar gyfer dyfodol Hyder. Mae cais Nomura yn ein sicrhau y bydd yn cadw'r rheolwyr lefel uchaf yng Nghymru. Y fantais yw nad oes gan Nomura strwythur rheoli ar waith yn unlle arall yn y DU. Felly, diolch byth, nid oes cymhelliad mawr iddo fynd i rywle arall. Fodd bynnag,

incentive for it to go elsewhere. However, the other possible bid by Western Power Distribution should be of great concern to the Assembly, as it could break up Hyder and have a huge long-term impact on highly skilled jobs in Wales. We do not have our fair share of high value jobs and large home-grown companies, and therefore we cannot afford to lose more of them. There are only around 16 or 17 quoted public limited companies based in Wales, a quarter of the number in Scotland. Whatever happens, the Assembly must make it absolutely clear that it opposes any attempts to break up Hyder.

In light of this, you may have thought that the Nomura bid is the best option. Many people see it almost as the white knight on the horizon in comparison to the Western Power Distribution bid, which may be coming our way next week. That does not say that we will give up on Nomura. We must look hard at what it is trying to do. Members can understand that it is trying to get a foothold in the European Union utility market. The danger is that if a company does not make it, or even if it does, it becomes attractive to sell in two, three, four or five years' time. There is a danger that it may all fall apart. What may be attractive at the moment must also be attractive in future.

We support all of the amendments, although I find it difficult to understand from where the money for the re-nationalisation of the water industry in Wales will come. I await future Plaid Cymru policy statements with bated breath.

The future of Hyder is a great test for the Assembly. We must scrutinise the bids carefully and not be frightened to make our voices heard and our views known, in London and to Stephen Byers in particular. We must ensure the retention and extension of the infrastructural improvements that are sought at present. We should bear in mind that Hyder wanted to carry out £30 million of investment in the infrastructure of the water industry in Wales this year. The regulator only allowed it to spend £5 million

dylai'r cais posibl arall gan Western Power Distribution beri pryder mawr i'r Cynulliad, gan y gallai ddatgymalu Hyder a chael dylanwad enfawr yn y tymor hir ar swyddi sgilgar iawn yng Nghymru. Nid oes gennym ddiagon o swyddi gwerthfawr a chwmmiau mawr cynhenid, ac felly ni allwn fforddio colli rhagor ohonynt. Dim ond tua 16 neu 17 o gwmmiau cyhoeddus cyfyngedig sydd wedi eu seilio yng Nghymru, chwarter y nifer sydd yn yr Alban. Beth bynnag a ddigwydd, rhaid i'r Cynulliad ei gwneud yn gwbl glir ei fod yn gwrthwynebu unrhyw ymgais i ddatgymalu Hyder.

Yn sgil hyn, efallai ichi feddwl mai cais Nomura yw'r dewis gorau. Mae llawer o bobl yn ei weld bron fel marchog gwyn ar y gorwel o'i gymharu â chais Western Power Distribution, a all fod ger ein bron yr wythnos nesaf. Nid yw hynny'n golygu y byddwn yn rhoi'r gorau i Nomura. Rhaid inni edrych yn graff ar yr hyn y mae'n ceisio ei wneud. Gall yr Aelodau ddeall ei fod yn ceisio ennill troedle ym marchnad gwasanaethau rheoledig yr Undeb Ewropeaidd. Y perygl yw os nad yw cwmni'n llwyddo, neu hyd yn oed os yw yn llwyddo, y daw'n ddeniadol i'w werthu ymhen dwy, dair, pedair neu bum mlynedd. Mae perygl i'r cyfan ddisgyn yn ddarnau. Rhaid i'r hyn sydd yn ddeniadol ar hyn o bryd hefyd fod yn ddeniadol yn y dyfodol.

Cefnogwn yr holl welliannau, er fy mod yn ei chael yn anodd deall o ble y daw'r arian ar gyfer ailwladoli'r diwydiant dŵr yng Nghymru. Daliaf fy anadl wrth ddisgwyl datganiadau polisi yn y dyfodol gan Blaid Cymru.

Mae dyfodol Hyder yn brawf mawr i'r Cynulliad. Rhaid inni archwilio'r ceisiadau yn ofalus a pheidio â bod ofn codi ein llais a mynegi ein barn, yn Llundain ac i Stephen Byers yn benodol. Rhaid inni sicrhau ein bod yn cadw ac yn ymestyn y gwelliannau i'r isadeiledd a geisir ar hyn o bryd. Dylem gofio fod Hyder wedi bod yn awyddus i fuddsoddi £30 miliwn yn isadeiledd y diwydiant dŵr yng Nghymru eleni. Ni chaniataodd y rheoleiddiwr iddo wario mwy na £5 miliwn o'r arian hwnnw ar daliadau a

of that money on charge directed to the consumer. It is important that we seek to get the full £30 million of investment in the infrastructure from any prospective bidders for Hyder.

The range of issues has been well expressed but there are some key issues. These are the matters that the Assembly must be concerned about: the jobs, skills and expertise at the highest level, not just the skills that we have, but the skills and benefit that we could get by drawing down big company expertise in Wales—financial expertise and the management of large companies. Sadly, those are lacking in Welsh fields and we must build on them. We must cluster skills, so that we know that companies will want to build around us—the whole of the supply chain mechanism building on what we have. Wales will be best served by a strongly managed Wales-based company, seeking to grow its business around the solid base that the current company provides. That company should have customer care and quality at its heart.

Ron Davies: I am grateful to Sue for giving me a minute of her time to make a small contribution. I am pleased with the Executive's response, because the Assembly now has a chance to unite behind a robust proposition that will offer the best opportunity to achieve what we want. I agree with you, Mike, in identifying those important principles. We recognise Hyder's importance and the fact that it should remain a Wales-based company and be able to retain its integrity. We should not be faced with the prospect of flogging off these utilities so that they run from Warrington, Bristol or wherever. Those are the important principles that we should be discussing and not the respective merits of bids.

However, we should make it clear to the regulators and the Department of Trade and Industry that if there is a bid that is seen as hostile or predatory, or offers the prospect of

gyfeiriwyd at y defnyddwyr. Mae'n bwysig ein bod yn ceisio sicrhau'r buddsoddiad llawn o £30 miliwn yn yr isadeiledd gan unrhyw ddarpar ymgeisydd sydd yn gwneud cais am Hyder.

Mae'r amrywiol faterion wedi cael eu mynegi'n glir ond mae rhai materion allweddol. Dyma'r materion y mae'n rhaid i'r Cynulliad fod yn ymwneud â hwy: swyddi, sgiliau ac arbenigedd ar y lefel uchaf, nid yn unig y sgiliau sydd eisoes gennym, ond y sgiliau a'r manteision y gallem eu hennill drwy dynnu arbenigedd o du'r cwmnïau mawr yng Nghymru—arbenigedd ariannol a rheoli cwmnïau mawr. Yn affodus, maent yn brin yng Nghymru ac mae'n rhaid inni adeiladu arnynt. Rhaid inni glystyru sgiliau, fel y gwyddom y bydd cwmnïau yn dymuno adeiladu o'n cwmpas—bod mecanwaith y gadwyn gyflenwi gyfan yn adeiladu ar yr hyn sydd gennym. Byddai Cymru yn cael ei gwasanaethu orau gan gwmni o Gymru sydd yn cael ei reoli yn dda, ac sydd yn ceisio tyfu ei fusnes o gylch y sylfaen gadarn y mae'r cwmni presennol yn ei gynnig. Dylai'r cwmni hwnnw sicrhau bod gofalu am gwsmeriaid ac ansawdd yn ganolog iddo.

Ron Davies: Yr wyf yn ddiolchgar i Sue am roi munud o'i hamser imi wneud cyfraniad bychan. Yr wyf yn falch gydag ymateb y Weithrediaeth, oherwydd mae gan y Cynulliad yn awr gyfle i fod yn unedig y tu ôl i gynnig grymus a fydd yn cynnig y cyfle gorau i gyflawni'r hyn yr ydym ei eisiau. Cytunaf â chi, Mike, yn adnabod yr egwyddorion pwysig hynny. Yr ydym yn cydnabod pwysigrwydd Hyder a'r ffaith y dylai aros yn gwmni o Gymru ac y dylai allu aros yn gyfan. Ni ddylem orfod wynebu'r syniad o werthu'r gwasanaethau rheoledig hyn fel eu bod yn cael eu rhedeg o Warrington, Bryste neu le bynnag. Dyna'r egwyddorion pwysig y dylem fod yn eu trafod ac nid gwahanol rinweddau'r ceisiadau.

Fodd bynnag, dylem ei gwneud yn eglur i'r rheoleiddwyr a'r Adran Masnach a Diwydiant, os oes cais sydd yn cael ei weld fel un gelyniaethus neu ysglyfaethus neu

Hyder being broken up, we would expect them to make the most robust possible examination of those issues.

I want to make three brief points, Llywydd. You are right, Mike, in identifying the impact of the windfall tax on Hyder's fortunes, but it is not the sole cause of its downfall. The company's financing policy, the way it fell foul of the regulatory regime and the way it took over SWALEC and financed that takeover by borrowing, was what led to its problem. Therefore, it is wrong to say that it was all the incoming Labour Government's fault.

That was a nice try, Alun Cairns, but you cannot have it both ways. It seems that your case was that you wanted the company to remain in Wales with its headquarters in Cardiff. You wanted to safeguard all the jobs and protect the consumer, but you wanted the market to decide who will have Hyder. If the market decides who has Hyder, it will not be Nomura or a company that offers the guarantees that we seek.

Alun Cairns *rose*—

Ron Davies: I am sorry, I do not have time—we will have to debate this further in tomorrow's Economic Development Committee meeting. I am sorry, Alun. I would like to engage you in debate, but we will have to do it tomorrow.

If the open market decides, Hyder, the people of Wales and certainly the consumers, will be the losers. I find myself in a difficult political position today, Dafydd—that is, the Presiding Officer—because I am robustly defending the Labour Party position and I want to take issue with the other Dafydd, because I disagree with the Plaid Cymru position on this matter. I hope that that does not jeopardise my future political prospects. [*Laughter.*] It was a very emotional—

sydd yn golygu bod posibilrwydd i Hyder gael ei ddatgymalu, y buasem yn disgwyl iddynt archwilio'r materion hynny yn y modd mwyaf grymus posibl.

Carwn wneud tri phwynt byr, Llywydd. Yr ydych yn gywir, Mike, yn nodi dylanwad y dreth ffawdelw ar ffawd Hyder, ond nid dyna unig achos ei gwmp. Polisi ariannu'r cwmni, y ffordd y methodd â bodloni'r drefn reoleiddio a'r ffordd y meddiannodd SWALEC a chyllido'r meddiannu hwnnw drwy fenthg oedd yr hyn a arweiniodd at ei drafferthion. Felly, mae'n anghywir dweud mai bai'r Llywodraeth Lafur a ddaeth i rym ydoedd i gyd.

Cynnig da, Alun Cairns, ond ni allwch ei chael hi'r ddwy ffordd. Ymddengys mai'ch dadl chi oedd eich bod am i'r cwmni aros yng Nghymru â'i bencadlys yng Nghaerdydd. Yr oeddech am ddiogelu'r holl swyddi a gwarchod y defnyddiwr, ond yr oeddech am i'r farchnad benderfynu pwy sydd yn cael Hyder. Os yw'r farchnad yn penderfynu pwy sydd yn cael Hyder, nid Nomura fydd y cwmni hwnnw nac unrhyw gwmni sydd yn cynnig y gwarantau yr ydym yn eu ceisio.

Alun Cairns *a gododd*—

Ron Davies: Mae'n ddrwg gennyf, nid oes amser gennyf—bydd yn rhaid inni drafod hyn ymhellach yng nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd yfory. Mae'n ddrwg gennyf, Alun. Hoffwn ddadlau'r pwnc gyda chi, ond bydd yn rhaid inni wneud hynny yfory.

Os mai'r farchnad agored sydd yn penderfynu, Hyder, pobl Cymru ac yn sicr y defnyddwyr, fydd ar eu colled. Yr wyf yn cael fy hun mewn sefyllfa wleidyddol anodd heddiw, Dafydd—hynny yw, y Llywydd—oherwydd yr wyf yn amddiffyn yn gadarn safbwynt y Blaid Lafur ac yr wyf am anghytuno gyda'r Dafydd arall, oherwydd nid wyf yn cytuno â safbwynt Plaid Cymru ar y mater hwn. Gobeithiaf nad yw hynny yn rhoi dyfodol fy rhagolygon gwleidyddol yn y fantol. [*Chwerthin.*] Yr oedd yn emosiynol iawn—

The Presiding Officer: Order. This is interesting and I would like to hear more, but there is no time.

Ron Davies: I know. The issue of ownership is not realistic and to talk about returning the water industry to the public sector in the way that you suggested, Alun, is not on. The idea of the National Assembly using our scarce resources to try to acquire a controlling interest of Wales's largest private company is not part of our agenda. We have many priorities, and taking a public sector interest in a private company is not one of them. Therefore, congratulations, Sue, the motion is absolutely right and I hope that the Assembly can unite in making clear to the DTI how important this issue is to us and that we will be united in pressing our case.

Sue Essex: I will be quick and go through the points. Thank you, Dafydd Wigley, for withdrawing your amendment 3. I appreciate that. You were right to remind us that water is an emotive subject in Wales, and of the history about why that is so. I was interested in your clip of the *Daily Post* all those years ago. Peter Walker is not with us today in Wales, but you still are, Dafydd, so there is a lesson there. I want to turn to Ron's points, which I also made earlier. There are key points, on which we must focus, about jobs, consumer and environmental protection, and investment. Those are the key principles that we need to keep to the fore of our minds and for which we need to keep pushing. Some of Alun Cairns's comments on the windfall tax have been answered. In fairness to Hyder, it would not say today that the reason that it is in its present situation was the windfall tax. Let us be honest. That is not the reason. It may not have liked it but that is not the reason that Hyder is in its present financial situation. Our powers in this are limited. Ron's last point about the market is, unfortunately, true. That is why many of us here today wish that we were not in this situation. However, it is true. We must face that reality. We must be strong as an Assembly. We must come together and make those points to all those companies, or

Y Llywydd: Trefn. Mae hyn yn ddiddorol a hoffwn glywed mwy, ond nid oes amser.

Ron Davies: Gwn hynny. Nid yw'r mater o berchnogaeth yn realistig ac nid yw sôn am ddychwelyd y diwydiant dŵr i'r sector cyhoeddus yn y ffordd yr awgrymasoch, Alun, yn iawn. Nid yw'r syniad bod y Cynulliad Cenedlaethol yn defnyddio ein hadnoddau prin i geisio sicrhau budd rheolaethol yng nghwmni preifat mwyaf Cymru yn rhan o'n hagenda. Mae gennym nifer o flaenoriaethau, ac nid yw cymryd budd sector cyhoeddus mewn cwmni preifat yn un ohonynt. Felly, llongyfarchiadau, Sue, mae'r cynnig yn hollol iawn a gobeithiaf y gall y Cynulliad fod yn unedig i'w gwneud yn glir i'r Adran Masnach a Diwydiant pa mor bwysig yw'r mater hwn inni ac y byddwn yn unedig wrth ddadlau'n hachos.

Sue Essex: Byddaf yn gyflym ac af drwy'r pwyntiau. Diolch, Dafydd Wigley, am dynnu gwelliant 3 yn ôl. Yr oeddech yn gywir i'n hatgoffa fod dŵr yn bwnc emosiynol yng Nghymru, ac am yr hanes y tu ôl i hynny. Yr oedd gennyf ddiddordeb yn eich toriad o'r *Daily Post* yr holl flynyddoedd hynny yn ôl. Nid yw Peter Walker gyda ni heddiw yng Nghymru, ond yr ydych chi yn dal yma, Dafydd, felly mae gwrs i'w dysgu yn y fan honno. Carwn ddychwelyd at bwynt Ron, pwynt y gwneuthum innau hefyd yn gynharach. Mae pwyntiau allweddol y mae'n rhaid inni ganolbwyntio arnynt, sef swyddi, gwarchod defnyddwyr a'r amgylchedd, a buddsoddi. Dyna'r prif egwyddorion y mae'n rhaid inni eu cadw'n flaenllaw mewn cof ac y mae'n rhaid inni barhau i bwysio amdanynt. Mae rhai o sylwadau Alun Cairns am y dreth ffawdelw wedi eu hateb. I fod yn deg â Hyder, ni fyddai'n dweud heddiw mai'r rheswm am ei sefyllfa bresennol oedd y dreth ffawdelw. Gadewch inni fod yn onest. Nid dyna'r rheswm. Efallai nad oedd yn ei hoffi ond nid dyna pam fod Hyder yn ei sefyllfa ariannol presennol. Mae ein pwerau yn hyn yn gyfyngedig. Mae pwynt diwethaf Ron ynglŷn â'r farchnad, yn anffodus, yn wir. Dyna pam fod cynifer ohonom yma heddiw yn dymuno nad oeddem yn y sefyllfa hon. Fodd bynnag, mae'n wir. Rhaid inni

whatever company wins, that we are here as the voice of Wales with power and strength and with people behind us. That is a strength. It is not there in pounds and pence but it is a real strength. Our voice will be heard and it will be loud. On Ron's future career, I hope that that will be a subject for a short debate in the future.

wynebu'r gwirionedd hwnnw. Rhaid inni fod yn gryf fel Cynulliad. Rhaid inni ddod at ein gilydd a chyfleu'r pwyntiau hynny i'r holl gwmnïau hynny, neu ba gwmni bynnag sydd yn ennill, ein bod ni yma fel llais Cymru, yn rymus a chryf a chyda'r bobl y tu ôl inni. Mae hynny yn gryfder. Nid yw yno mewn punnoedd a cheiniogau ond mae'n wir gryfder. Bydd ein llais yn cael ei glywed a bydd yn uchel. Parthed gyrfa Ron yn y dyfodol, gobeithiaf y bydd hynny'n bwnc ar gyfer dadl fer yn y dyfodol.

5:00 p.m.

*Gwelliant 1: O blaid 53, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 1: For 53, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Middlehurst, Tom

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Morgan, Jonathan
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Amendment adopted.

Derbyniwyd y gwelliant.

Gwelliant 2: O blaid 14, Ymatal 0, Yn erbyn 40.

Amendment 2: For 14, Abstain 0, Against 40.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, David
Davies, Glyn
German, Michael
Graham, William
Humphreys, Christine
Melding, David
Morgan, Jonathan
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, Geraint
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Marek, John
Middlehurst, Tom
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Phil

Amendment rejected.

Gwrthodwyd y gwelliant.

Amendment 3 withdrawn.

Gwelliant 3 wedi'i dynnu yn ôl.

*Gwelliant 4: O blaid 53, Ymatal 0, Yn erbyn 1.
Amendment 4: For 53, Abstain 0, Against 1.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Sinclair, Karen

Amendment adopted.

Derbyniwyd y gwelliant.

*Gwelliant 5: O blaid 46, Ymatal 0, Yn erbyn 8.
Amendment 5: For 46, Abstain 0, Against 8.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, Geraint
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
German, Michael
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Marek, John
Middlehurst, Tom
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, David
Davies, Glyn
Graham, William
Melding, David
Morgan, Jonathan
Rogers, Peter

Amendment adopted.

Derbyniwyd y gwelliant.

*Gwelliant 6: O blaid 53, Ymatal 0, Yn erbyn 1.
Amendment 6: For 53, Abstain 0, Against 1.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Halford, Alison

Bourne, Nick
 Butler, Rosemary
 Cairns, Alun
 Chapman, Christine
 Dafis, Cynog
 Davies, Andrew
 Davies, David
 Davies, Geraint
 Davies, Glyn
 Davies, Janet
 Davies, Jocelyn
 Davies, Ron
 Edwards, Richard
 Essex, Sue
 Evans, Delyth
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Graham, William
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hancock, Brian
 Hart, Edwina
 Humphreys, Christine
 Hutt, Jane
 Jarman, Pauline
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Peter
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Marek, John
 Melding, David
 Middlehurst, Tom
 Morgan, Jonathan
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Rogers, Peter
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wigley, Dafydd
 Williams, Kirsty
 Williams, Phil

Amendment adopted.

Amended motion:

The National Assembly recognises the importance of the Hyder Group and the regulated water and electricity utilities to the economy, environment and infrastructure of Wales; it welcomes and endorses the actions of the First Secretary and the Environment Secretary in meeting and seeking reassurances from any potential purchasers

Derbyniwyd y gwelliant.

Cynnig wedi'i ddiwygio:

Y Cynulliad Cenedlaethol yn cydnabod pwysigrwydd Grŵp Hyder a'r gwasanaethau dŵr a thrydan rheoledig i economi, amgylchedd ac isadeiledd Cymru; mae'n croesawu ac yn cymeradwyo'r ffaith bod y Prif Ysgrifennydd ac Ysgrifennydd yr Amgylchedd wedi cwrdd â'r rhai a allai gynnig prynu Hyder a cheisio cael sicrwydd

of Hyder with respect to the safeguarding of the integrity of the Group, its employees and the environment in Wales, and the protection of the interests of Welsh consumers; and it notes the proposed actions of the water and electricity industry regulators in seeking commitments and licence amendments to protect the interests of customers and the continued delivery of the investment programmes of the regulated utilities and calls on the First Secretary to seek to gain a commitment from any potential purchaser of the group to retain the headquarters in Wales, to realise need for growth, to maintain the unity of the company and to meet the existing environmental commitments;

the National Assembly regrets the fact that there is no 'golden share' in operation for the privatised water utility, and calls on the Secretary for the Environment, Planning and Transport to bring forward proposals to protect the interests of both of this valuable natural resource and those of water consumers in Wales;

this Assembly notes with regret the small number of Wales-based companies quoted on the stock exchange, and recognises the importance of any new owner of Hyder maintaining Hyder's base of management expertise within Wales.

ganddynt ynghylch diogelu cyfanrwydd y Grŵp, y rhai a gyflogir ganddo, a'r amgylchedd yng Nghymru, a diogelu buddiannau defnyddwyr yng Nghymru; ac y mae'n nodi gweithredoedd arfaethedig rheoleiddwyr y diwydiant dŵr a thrydan, sydd yn ceisio sicrhau ymrwymadau a gwelliannau i drwyddedi er mwyn diogelu buddiannau cwsmeriaid a sicrhau bod rhaglenni buddsoddi'r gwasanaethau rheoledig yn parhau i gael eu darparu a geilw ar y Prif Ysgrifennydd i geisio ymrwymiad gan y sawl all brynu'r grŵp i gadw'r brif swyddfa yng Nghymru, i gydnabod yr angen am dwf, i gynnal undod y cwmni ac i gwrdd â'r ymrwymadau amgylcheddol presennol;

mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gresynu'r ffaith nad oes 'cyfran euraid' ar gyfer y gwasanaeth dŵr rheoledig a breifateiddiwyd, a geilw ar Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thraffindiaeth i ddod â chynigion ger bron i ddiogelu buddiannau'r adnodd naturiol gwerthfawr hwn a'r rheini o eiddo defnyddwyr dŵr yng Nghymru;

Mae'r Cynulliad hwn yn gresynu mai dim ond cyfran fechan o gwmnïau o Gyrmu sydd wedi eu rhestru ar y gyfnewidfa stoc, ac y mae'n cydnabod ei bod yn bwysig sicrhau bod unrhyw berchennog newydd fydd gan Hyder yn cynnal y craidd o arbenigedd sydd gan Hyder ym maes rheoli yng Nghymru.

Cynnig wedi'i ddiwygio: O blaid 53, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Amended motion: For 53, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Edwards, Richard
 Essex, Sue
 Evans, Delyth
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Graham, William
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Halford, Alison
 Hancock, Brian
 Hart, Edwina
 Humphreys, Christine
 Hutt, Jane
 Jarman, Pauline
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Peter
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Marek, John
 Melding, David
 Middlehurst, Tom
 Morgan, Jonathan
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Rogers, Peter
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wigley, Dafydd
 Williams, Kirsty
 Williams, Phil

Amended motion adopted.

Richard Edwards: Point of order. I require information from you. I do not know whether there is a Standing Order to this effect, but time and again, backbenchers are squeezed out of the important debates. I do not blame you, but are there any plans to introduce time limits on speakers?

The Presiding Officer: Yes, I am pleased to announce that this week I have ordered four new clocks for the Chamber. We have a standard time limit of five minutes for speeches, which is not observed. We have developed a convention of allowing ten minutes for opening and closing debates, which is sometimes observed. I have also tried to observe a balance of time between parties. I do not like the terms 'backbenchers' and 'frontbenchers' because they are reminiscent of Westminster, but that

Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.

Richard Edwards: Pwynt o drefn. Yr wyf angen gwybodaeth gennych. Ni wn a oes Rheol Sefydlog ynglŷn â hyn, ond dro ar ôl tro, caiff Aelodau'r meinciau cefn eu gwasgu allan o ddadleuon pwysig. Nid wyf yn eich beio chi, ond a oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno cyfyngiadau amser ar siaradwyr?

Y Llywydd: Oes, yr wyf yn falch i gyhoeddi yr wythnos hon fy mod wedi archebu pedwar cloc newydd ar gyfer y Siambr. Mae gennym gyfyngiad amser safonol o bum munud ar gyfer areithiau, nad yw pobl yn cadw ato. Yr ydym wedi datblygu arferiad o ganiatáu deng munud ar gyfer agor a chau dadleuon, y cedwir ato weithiau. Yr wyf hefyd yn ceisio sicrhau cydbwysedd amser rhwng pleidiau. Nid wyf yn hoffi'r termau 'meinciau cefn' a 'meinciau blaen' oherwydd maent yn f'atgoffa o San Steffan, ond mae'r

balance of time includes—not discriminating between them—the people who are speakers for the parties and the Assembly Members who are speaking on behalf of their party group. I have tried to ensure balance of time but that can be difficult. Therefore, I ask that this matter be considered further by the Business Committee. When the clocks are in place, it will be obvious to all Members who transgresses in terms of time.

We are six minutes late. I will allow for a five-minute extension, which, strictly speaking, is not within my powers, but I am breaching the family-friendly rules for the last time.

cydbwysedd amser yn cynnwys—heb wahaniaethu rhyngddynt—pobl sydd yn siarad ar ran y pleidiau ac Aelodau'r Cynulliad sydd yn siarad ar ran grŵp eu plaid. Yr wyf wedi ceisio sicrhau cydbwysedd amser ond gall hynny fod yn anodd. Felly, gofynnaf i'r mater hwn gael ei ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Busnes. Pan fydd y clociau wedi eu gosod, bydd yn amlwg i bob Aelod pwy sydd yn defnyddio gormod o amser.

Yr ydym chwe munud yn hwyr. Rhoddaf ganiatâd i estyniad o bum munud nad yw, a bod yn fanwl gywir, o fewn fy mhwerau, ond yr wyf yn torri'r rheolau teulu-gyfeillgar am y tro olaf.

Dadl Fer Short Debate

Llygredd mewn Llywodraeth Leol Sleaze in Local Government

Peter Black: As this is a debate on local government, it is appropriate that I declare an interest as a member of the City and County of Swansea. Dr Dai Lloyd and David Davies have asked to intervene in this debate and I allow time for them to do so.

Local government in Wales is well known for sleaze. The prosecutions that have taken place in Blaenau Gwent and the Vale of Glamorgan have been well covered by the media. The number of controversies surrounding Anglesey council are also well documented. The establishment of a standards committee in Anglesey to deal with their problems is welcome as is the requirement in the Bill going through Parliament at the moment that all councils should have a standards committee. Those committees should act as an effective block on sleaze if they are allowed to do their job and are not abused. Unfortunately, there are already signs that that will not be the case. There is evidence of councillors trying to use standards committees to seek redress against political opponents. There are concerns about the strength of character of some officers, who are unwilling to stand up to the ruling groups and who are not prepared to give evidence where necessary. I welcome moves to strengthen the independence of monitoring officers but, nevertheless, the concern remains with other officers. I have witnessed chief officers put their careers before their duties on too many occasions to have any faith that things would change under the new regime.

One officer who has spoken out is Gareth Lewis, the former assistant director of technical services at Swansea council. Unfortunately, he chose to blow the whistle only after his post was restructured and he failed to win an appointment to the new position. I do not intend to say anything here that will have a bearing on his impending

Peter Black: Gan fod hon yn ddadl ar lywodraeth leol, mae'n briodol imi ddatgan buddiant fel aelod o Ddinas a Sir Abertawe. Mae Dr Dai Lloyd a David Davies wedi gofyn a gânt ymyrryd yn y ddadl hon a rhoddaf amser iddynt wneud hynny.

Mae llywodraeth leol yng Nghymru yn enwog am lygredd. Mae'r cyfryngau wedi bod yn llawn hanesion am yr erlyniadau ym Mlaenau Gwent a Bro Morgannwg. Mae'r dadleuon niferus ynghylch cyngor Ynys Môn wedi eu cofnodi'n drwyadl hefyd. Croesewir sefydlu pwyllgor safonau yn Ynys Môn i ddelio â'u problemau, yn yr un modd ag y croesewir y gofyniad yn y Mesur sydd gerbron y Senedd ar hyn bryd, y dylai pob cyngor sefydlu pwyllgor safonau. Dylai'r pwyllgorau hynny weithredu fel rhwystr effeithiol rhag llygredd os cânt wneud eu gwaith ac os na chânt eu camddefnyddio. Yn anffodus, ceir arwyddion eisoes sydd yn dangos nad fel hyn y bydd hi. Mae tystiolaeth fod cynghorwyr yn ceisio defnyddio pwyllgorau safonau i geisio dial ar eu gwrthwynebwyr gwleidyddol. Mae pryderon ynghylch cryfder cymeriad rhai swyddogion, sydd yn amharod i herio'r grwpiau sydd mewn grym ac sydd yn amharod i roi tystiolaeth pan fo angen. Croesawaf yr ymdrechion i gryfhau annibyniaeth swyddogion monitro ond, er gwaethaf hynny, mae'r pryder yn aros gyda golwg ar swyddogion eraill. Yr wyf wedi gweld prif swyddogion yn rhoi eu gyrfaeod o flaen eu dyletswyddau yn rhy aml imi fod yn ffyddiog y byddai unrhyw beth yn newid dan y drefn newydd.

Un swyddog sydd wedi codi ei lais yw Gareth Lewis, cyn-gyfarwyddwr cynorthwyol gwasanaethau technegol cyngor Abertawe. Yn anffodus, penderfynodd godi ei lais ar ôl i'w swydd gael ei hailstrwythuro a methu â chael ei benodi i'r swydd newydd. Nid wyf yn bwriadu dweud dim byd a allai effeithio ar ei dribiwnlys diwydiannol sydd

industrial tribunal but there are many issues that he raised in an open letter to all councillors, which deserve to be heard in the context of this debate.

He has highlighted many instances when the ruling Labour group sought to influence his department's priorities for its own political ends—

Andrew Davies: Point of order. I acknowledge that Peter mentioned that he is a member of the City and County of Swansea. However, in opening this debate, he said that there were current concerns referring to an employment tribunal regarding Mr Lewis. He said that he would not refer to it. However, he referred to allegations that Mr Lewis made against the council and the ruling group on the City and County of Swansea. We have debated the issue of privilege in this Chamber and the fact that Members must be restrained not only in attacking other Assembly Members but also in the use of our matter of privilege. I ask you to make a ruling on this. However, it is highly inappropriate for Peter to refer to the specific case while it remains a matter for an industrial employment tribunal.

5:10 p.m.

Peter Black: In response to that—

The Presiding Officer: Order. Before you say anything, I draw your attention to the protocol on the conduct of Members in the Chamber. It refers to the contents of speeches and arises out of Standing Order No. 7.2. I draw your attention in particular to Section 77 (1) of the Government of Wales Act 1998, which states that allegations against Members or other persons will normally be considered offensive. I ask you therefore not to make or repeat allegations against other persons because I would have to rule it as out of order.

Peter Black: I am raising an issue of general interest on the way Swansea council is being run. Allegations have been made in the letter by Gareth Lewis that relate to the industrial tribunal. I do not intend to refer to them here. However, there is a matter of public interest

ar fin cael ei gynnal ond mae nifer o faterion a gododd mewn llythyr agored at yr holl gynghorwyr sydd yn haeddu cael eu clywed yng nghyd-destun y ddadl hon.

Tanlinellodd sawl achos pan geisiodd y grŵp Llafur sydd mewn grym ddylanwadu ar flaenoriaethau ei adran at ei ddibenion gwleidyddol ei hun—

Andrew Davies: Pwynt o drefn. Yr wyf yn cydnabod bod Peter wedi crybwyll ei fod yn aelod o Ddinas a Sir Abertawe. Fodd bynnag, wrth agor y ddadl hon, dywedodd fod pryderon ar hyn o bryd ynghylch tribiwnlys cyflogaeth Mr Lewis. Dywedodd na fyddai yn cyfeirio ato. Fodd bynnag, cyfeiriodd at yr honiadau a wnaeth Mr Lewis yn erbyn y cyngor a'r grŵp sydd mewn grym yn Ninas a Sir Abertawe. Yr ydym wedi cynnal dadl ar fater braint yn y Siambr hon a'r ffaith bod rhaid i Aelodau ymatal rhag ymosod ar Aelodau eraill o'r Cynulliad yn ogystal ag wrth ddefnyddio ein braint. Gofynnaf ichi ddyfarnu ar hyn. Fodd bynnag, mae'n eithriadol o amhriodol i Peter gyfeirio at yr achos penodol hwn tra bo hwnnw'n parhau i fod yn fater i dribiwnlys cyflogaeth.

Peter Black: I ymateb i hynny—

Y Llywydd: Trefn. Cyn ichi ddweud unrhyw beth, tynnaf eich sylw at y protocol ar ymddygiad Aelodau yn y Siambr. Mae'n cyfeirio at gynnwys areithiau, a daw o Reol Sefydlog Rhif 7.2. Tynnaf eich sylw yn benodol at Adran 77 (1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, sydd yn nodi, fel arfer, y caiff honiadau yn erbyn Aelodau neu unrhyw bersonau eraill eu hystyried yn sarhaus. Gofynnaf ichi felly beidio â gwneud nac ailadrodd honiadau yn erbyn unrhyw bersonau eraill oherwydd y byddai'n rhaid imi ddyfarnu bod hynny allan o drefn.

Peter Black: Yr wyf yn codi pwnc sydd o ddiddordeb cyffredinol ynghylch sut y caiff cyngor Abertawe ei redeg. Gwnaethpwyd yr honiadau yn llythyr Gareth Lewis sydd yn berthnasol i'r tribiwnlys diwydiannol. Nid wyf yn bwriadu cyfeirio atynt yma. Fodd

in the allegations. Pressure has been placed on officers—

The Presiding Officer: Order. You have used the word ‘allegations’. I take allegations and accusations to be closely synonymous in the context of Standing Order No. 7.2. I will rule any further reference to individual persons, accusing them either by quoting or by directly asserting that, out of order in view of the deliberate revision that we undertook of the implications of Standing Order No. 7.2, and of the protocol of conduct in particular.

Peter Black: That is an unreasonable interpretation of the Standing Order.

The Presiding Officer: Order. The interpretation of Standing Orders is a matter for me.

Peter Black: I understand that. However, there are clear issues and concerns surrounding the way that Swansea council is run. I take your ruling on this and I know that you will not allow me to refer to those matters. That is unreasonable in the circumstances. I have raised, as have many other councillors and members in Swansea, questions about the way that council is run. It is about the culture of local government and how money is prioritised there. These matters have also been referred to the district auditor and have been raised with the chief officer concerned and the chief executive—

The Presiding Officer: Order. I draw your attention to a further part of that protocol of the protocol on conduct that was adopted a few weeks ago,

‘If a Member considers exceptional circumstances exist that could justify departure from this, the Presiding Officer should be consulted in advance’.

I have received no such consultation, nor has my office.

Peter Black: My view was that this was not

bynag, mae mater sydd o ddiddordeb cyhoeddus yn yr honiadau. Rhoddwyd pwysau ar swyddogion—

Y Llywydd: Trefn. Yr ydych wedi defnyddio'r gair ‘honiadau’. Yr wyf yn ystyried honiadau a chyhuddiadau yn gyfystyron agos yng nghyd-destun Rheol Sefydlog Rhif 7.2. Os cyfeirir ymhellach at bersonau unigol, gan eu cyhuddo drwy un ai eu dyfynnu neu honni'n uniongyrchol, dyfarnaf fod hynny allan o drefn gyda golwg ar ein hadolygiad bwriadol o oblygiadau Rheol Sefydlog Rhif 7.2, a'r protocol ymddygiad yn enwedig.

Peter Black: Mae hynny'n ddehongliad afresymol o'r Rheol Sefydlog.

Y Llywydd: Trefn. Mater i mi yw dehongli Rheolau Sefydlog.

Peter Black: Deallaf hynny. Fodd bynnag, mae materion a phryderon clir ynghylch y ffordd y caiff cyngor Abertawe ei redeg. Derbyniaf eich dyfarniad ar hyn a gwn na fyddwch yn caniatáu imi gyfeirio at y materion hynny. Mae hynny'n afresymol o dan yr amgylchiadau. Yr wyf finnau, fel nifer o gynghorwyr ac aelodau eraill yn Abertawe, wedi gofyn cwestiynau ynghylch y ffordd y caiff y cyngor ei redeg. Mae'n edrych ar ddiwylliant llywodraeth leol a sut y caiff arian ei flaenoriaethu yno. Cyfeiriwyd y materion hyn at yr archwilydd dosbarth hefyd a chawsant eu trafod gyda'r prif swyddog dan sylw a'r prif weithredwr—

Y Llywydd: Trefn. Tynnaf eich sylw at ran bellach o'r protocol hwnnw o'r protocol ar ymddygiad a fabwysiadwyd ychydig o wythnosau yn ôl.

‘Os yw Aelod yn ystyried bod amgylchiadau eithriadol yn bodoli a allai gyfiawnhau cefnu ar hyn, dylid fod wedi cysylltu â'r Llywydd ymlaen llaw’.

Ni dderbyniodd fy swyddfa na minnau ymgynghoriad o'r fath.

Peter Black: Yr oeddwn o'r farn nad oedd

such an issue. Clearly, as it has been raised in this way and, given your ruling, that is the case. I will not repeat the allegations in the letter if that is the ruling. I am not being allowed to do that—

The Presiding Officer: Order. It is not a matter of you not being allowed to do that. It is about the fact that this matter is contrary to the Assembly's Standing Orders. This Assembly and its proceedings enjoys absolute privilege under section 77 (1) of the Government of Wales Act 1998,

'The provision of absolute privilege implies the need for great restraint as regards the making of allegations that might be damaging to the individuals concerned.'

Peter Black: I understand that. The general point—

Alison Halford *rose*—

The Presiding Officer: Order. There is no form of intervention in these short debates. You may raise a point of order.

Alison Halford: Point of order. Peter Black clearly finds himself in enormous difficulties, as you do. It might be sensible if Peter Black—who is trying to present an issue that is important to him, but clearly has not read Standing Orders—were to withdraw this matter and table the debate again when he knows the rules, because there is an impasse between you, which is not helpful to anybody.

The Presiding Officer: Order. There is no impasse. The Standing Orders are clear and were adopted to avoid this kind of situation. Accusations were made in earlier debates to which I did not draw attention. I did not intervene and I have been rather lax in my interpretation of the Standing Orders. I am now much strengthened by the changes that were made in the protocol, and my position in presiding on this issue is clear. I will follow these Standing Orders. I have no alternative. Peter Black is quite at liberty to make general comments as regards local

hwn yn fater o'r fath. Mae'n amlwg mai dyna yw'r sefyllfa, gan ei fod wedi'i godi yn y modd hwn, a chan ystyried eich dyfarniad. Nid ailadroddaf yr honiadau yn y llythyr os mai dyna yw'r dyfarniad. Nid wyf yn cael gwneud hynny—

Y Llywydd: Trefn. Nid yw hyn yn fater o'ch gwahardd rhag gwneud hynny. Mae'n ymwneud â'r ffaith bod y mater hwn yn torri Rheolau Sefydlog y Cynulliad. Dan adran 77 (1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, mae'r Cynulliad hwn a'i weithdrefnau yn mwynhau braint ddiamod,

'Mae darparu braint ddiamod yn awgrymu bod angen cyfyngu'n ofalus gyda golwg ar wneud honiadau a allai fod yn niweidiol i'r unigolion perthnasol.'

Peter Black: Deallaf hynny. Y pwynt cyffredinol—

Alison Halford *a gododd*—

Y Llywydd: Trefn. Ni ellir ymyrryd yn y dadleuon byr hyn. Cewch godi pwynt o drefn.

Alison Halford: Pwynt o drefn. Mae'n amlwg bod Peter Black, fel chithau, yn cael anawsterau enfawr. Efallai y byddai'n fuddiol petai Peter Black—sydd yn ceisio cyflwyno mater sydd yn bwysig iddo, ond yn amlwg heb ddarllen y Rheolau Sefydlog—yn tynnu'r mater hwn yn ôl a chyflwyno'r ddatl eto pan fydd yn gyfarwydd â'r rheolau, gan fod bwlech rhyngoch ac nid yw hynny o gymorth i unrhyw un.

Y Llywydd: Trefn. Nid oes bwlech. Mae'r Rheolau Sefydlog yn glir ac fe'u mabwysiadwyd i osgoi'r math hon o sefyllfa. Gwnaethpwyd cyhuddiadau mewn dadleuon cynharach na thynnais sylw atynt. Ni ymyrrais a bûm braidd yn llac wrth ddehongli'r Rheolau Sefydlog. Erbyn hyn, yr wyf wedi fy ngrymuso gan y newidiadau a wnaethpwyd yn y protocol ac mae fy safbwynt wrth lywyddu ar y mater hwn yn glir. Dilynaf y Rheolau Sefydlog hyn. Nid oes gennyf ddewis arall. Mae Peter Black yn rhydd i wneud sylwadau cyffredinol

government but he must not make specific allegations against individuals.

Peter Black: I will not refer to the issues to which I intended to refer in my speech because that is clearly in contravention of the Standing Orders as ruled by yourself. I am cognisant of the Standing Orders. I understood that I could discuss these matters, but clearly I can not.

However, there is a problem with the culture of local authorities, particularly with ruling groups who have been in power for many years, in that they try to ensure that money—which should be spent according to need—is spent according to their own political priorities. That is a general problem that does not simply pertain to one authority but to several of them. This culture undermines local government and gives rise to suspicion of further abuses. It has been too common in councils, particularly in south Wales.

Although people say that these problems are behind us and that modernisation leads to a better world, that is yet to be seen. The real problem—in relation to the issues that I have raised and those that I intended to raise—is that they are not the sort of issues that will be teased out in the new scrutiny committees or adequately policed by standards committees. They depend on somebody whistle blowing and even then, when the issue is in the open, the council closes ranks.

I have outstanding letters seeking information on local authorities, which I will not name, and yet nothing is forthcoming, even though the information for which I have asked is easily available. That cannot be acceptable. It does not bode well for the new scrutiny regime that is being introduced across Wales.

Another example of the difficulty of obtaining information concerns Cardiff City and County Council, although this

ynghylch llywodraeth leol ond rhaid iddo beidio â gwneud honiadau penodol yn erbyn unigolion.

Peter Black: Ni chyfeiriaf at y materion yr oeddwn wedi bwriadu cyfeirio atynt yn fy araith gan fod hynny'n amlwg yn torri'r Rheolau Sefydlog yn ôl eich dyfarniad. Yr wyf yn gyfarwydd â'r Rheolau Sefydlog. Yr oeddwn ar ddeall y gallwn drafod y materion hyn, ond mae'n amlwg na allaf wneud hynny.

Fodd bynnag, mae problem o fewn diwylliant awdurdodau lleol, yn enwedig gyda grwpiau sydd wedi bod mewn grym am nifer o flynyddoedd, gan eu bod yn ceisio sicrhau bod arian—y dylid ei wario yn ôl yr angen—yn cael ei wario yn ôl eu blaenoriaethau gwleidyddol eu hunain. Mae honno'n broblem gyffredinol nad yw'n ymwneud ag un awdurdod yn unig ond â nifer ohonynt. Mae'r diwylliant hwn yn tansilio llywodraeth leol ac mae'n codi amheuon o gamddefnydd pellach. Mae hyn wedi bod llawer yn rhy gyffredin mewn cynghorau, yn enwedig yn ne Cymru.

Er bod pobl yn dweud bod y problemau hyn y tu ôl inni a bod moderneiddio'n arwain at well byd, yr ydym eto i weld hyn. Y gwir broblem—mewn perthynas â'r materion a godais, a'r rheini yr oeddwn yn bwriadu eu codi—yw nad y rhain fydd y math o faterion a ddaw i'r wyneb yn y pwyllgorau manylu newydd ac ni fydd y pwyllgorau safonau yn cadw golwg digon manwl arnynt ychwaith. Maent yn dibynnu ar rywun i godi llais a hyd yn oed wedi hynny, pan fo'r mater yn yr awyr agored, mae'r cyngor yn cau'r rhengoedd.

Mae gennyf lythyrau heb eu hateb sydd yn ceisio gwybodaeth am awdurdodau lleol, nad wyf am eu henwi, ac eto nid oes dim ar ddod, er bod yr wybodaeth y gofynnais amdani ar gael yn hawdd. Ni all hynny fod yn dderbyniol. Nid yw'n argoeli'n dda ar gyfer y drefn archwilio newydd sydd yn cael ei chyflwyno ledled Cymru.

Mae enghraifft arall o'r anawsterau wrth geisio cael gwybodaeth yn ymwneud â chyngor Dinas a Sir Caerdydd, er bod yr

information is in the public domain. Three years ago, several senior Labour councillors went on a trip to the USA and Canada to look at swimming pools. They took their wives with them, as did the chief executive, and it was paid for by the council taxpayers. They did not ask advance permission and it took three separate questions to obtain the information on the cost of this trip. Yet Cardiff still lost the swimming pool to Swansea. There is a need to ensure that information, when requested, is adequately and quickly made available so that proper scrutiny can take place.

The Government says that the modernisation process will end all this. My concern, however, is that far from ending sleaze, the modernisation proposals will institutionalise many of the abuses that I have mentioned. Not only is there a danger that these abuses will continue, there is a danger that the Government is creating the conditions whereby they can continue. Power is being concentrated into fewer hands—those of the cabinet—and instead of being diluted by openness, it is further strengthened by the fact that most cabinets meet in secret.

Those councillors who are meant to scrutinise the work of cabinet citadels are too often members of the ruling group. If the Chairs of the scrutiny committees are beholden to the ruling group and hoping for promotion to the cabinet, their scrutiny will lack the effectiveness intended.

There are always examples of individual councillors who are prepared to stick their head above the parapet. We see in Cardiff what happens when they do. Two Labour councillors who refused to accept the massive hike in allowances taken by Russell Goodway and his close colleagues and who did not stand up for their leader publicly, have lost their positions on the council.

5:20 p.m.

wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd. Dair blynedd yn ôl, ymwelodd sawl uwch gynghorydd Llafur â'r UDA a Chanada i edrych ar byllau nofio. Aethant â'u gwraedd gyda hwy, fel y gwnaeth y prif weithredwr, a threthdalwyr y cyngor a dalodd am yr ymweliad. Ni ofynasant am ganiatâd ymlaen llaw a bu rhaid gofyn tri chwestiwn ar wahân i gael yr wybodaeth ynghylch cost yr ymweliad hwn. Er gwaethaf hynny, colodd Caerdydd y pwll nofio i Abertawe. Mae angen sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn ddigonol ac yn gyflym pan ofynnir amdani fel y gellir archwilio'n gywir.

Dywed y Llywodraeth y bydd y broses moderneiddio'n rhoi diwedd ar hyn i gyd. Fodd bynnag, fy mhryder i yw na fydd y cynigion moderneiddio yn rhoi diwedd ar lygredd o gwbl ond y byddant yn sefydliadol i nifer o'r achosion o gamddefnydd a grybwyllais. Nid yn unig y mae pryder y bydd y camddefnydd hwn yn parhau, mae perygl bod y Llywodraeth yn creu'r amodau lle y gall barhau. Caiff pŵer ei Gronni ymhlith llai o ddwylo—dwylo'r cabinet—ac yn hytrach na chael ei wasgaru'n agored, ategir at hyn ymhellach yn sgîl y ffaith bod y rhan fwyaf o gyfarfodydd cabinet yn gyfrinachol.

Mae'r cynghorwyr hynny sydd i fod i archwilio gwaith y cabinet yn ei gaer yn rhy aml yn aelodau o'r grŵp sydd mewn grym. Os yw Cadeiryddion y pwyllgorau manylu yn ddyledus i'r grŵp sydd mewn grym ac yn gobeithio cael eu dyrchafu i'r cabinet, ni fydd eu gwaith archwilio mor effeithlon ag a fwriadwyd.

Ceir enghreifftiau bob tro o gynghorwyr unigol sydd yn barod i fentro codi eu llais. Yng Nghaerdydd, gwelwn yr hyn sydd yn digwydd pan y gwnânt. Gwrthododd dau gynghorydd Llafur dderbyn y codiad anferth mewn lwfansau a gymerwyd gan Russell Goodway a'i gydweithwyr agos ac ni chefnogasant eu harweinydd yn gyhoeddus. Mae'r ddau wedi colli eu swyddi ar y cyngor.

Local government reforms are misdirected and will make matters worse. Standards committees need to have more power to probe into the dark recesses of councils. Scrutiny committees need to be seen to be independent and have guaranteed access to the information that they need. Above all, the Assembly must insist on complete openness for cabinets. Rather than concentrating power in the hands of the few, we must start breaking down the power bases of councillors who are prepared to abuse power for their own ends. This can only be achieved by introducing fair voting to council elections.

David Davies: I thank Peter for bringing up this subject and the matter of local government standards. It is high time that the Assembly had a full debate on this. I found myself agreeing with virtually everything that Peter said until his final point. I assume that the point about fair voting was a call for proportional representation, which is anything but fair. Nevertheless, I appreciate his points.

The problems have not been caused by one local authority; they have been endemic in local authorities across Wales for years. In Newport, for example, people wondered why the streets at the bottom end of Kensington Place were being paved with Victorian paving stones and Victorian streetlights were going up. Residents further up the street were rather perturbed by this because they could not get any lights at all and their paving stones were removed and replaced with tarmac. It was not until people noticed that the new Member of Parliament for Newport East was one of the residents of the area that was being renovated in Kensington Place that they began to wonder whether or not it was a coincidence that the council had decided to undertake this work at that time.

We all know of such incidents all over Wales. That is why I supported virtually everything that Peter said until his final point. It is high time that we looked into this

Mae'r diwygiadau i lywodraeth leol wedi eu camgyfeirio a bydd hynny'n gwneud pethau'n waeth. Rhaid i bwyllgorau safonau gael mwy o bwerau i ymchwilio i encilion tywyll cynghorau. Rhaid i bawb weld bod pwyllgorau ymchwilio yn annibynnol ac yn gallu cael gafael ar yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Yn bennaf oll, rhaid i'r Cynulliad fynnu bod pob cabinet yn gwbl agored. Yn hytrach na chronni'r pŵer i ddwylo ychydig, rhaid inni ddechrau chwalu sylfeini grym y cynghorwyr hynny sydd yn barod i gamddefnyddio eu pŵer at eu dibenion eu hunain. Yr unig ffordd o gyflawni hyn yw drwy gyflwyno pleidleisio teg mewn etholiadau cynghorau.

David Davies: Diolchaf i Peter am godi'r pwnc hwn a'r mater ynghylch safonau llywodraeth leol. Mae'n hen bryd i'r Cynulliad gael dadl lawn ar hyn. Fe'm cefais fy hun yn cytuno â bron popeth a ddywedodd Peter hyd at ei bwynt olaf. Tybiaf mai galwad am gynrychiolaeth gyfrannol oedd y pwynt am bleidleisio teg, sydd yn bell o fod yn deg. Er gwaethaf hynny, gwerthfawrogaf ei bwyntiau.

Nid dim ond un awdurdod lleol unigol sydd wedi achosi'r problemau hyn; maent wedi bod yn endemig mewn awdurdodau lleol ledled Cymru am flynyddoedd. Yng Nghasnewydd er enghraifft, yr oedd pobl yn pendroni pam fod y strydoedd ar waelod Kensington Place yn cael cerrig palmant Fictoraidd a bod lampau stryd Fictoraidd yn cael eu codi yno. Yr oedd preswylwyr i fyny'r stryd yn anesmwytho braidd oherwydd hyn gan nad oeddent hwy yn gallu cael unrhyw lampau stryd o gwbl a bod eu cerrig palmant hwy i gyd wedi eu codi a tharmac wed ei osod yn eu lle. Nid tan i bobl sylwi bod Aelod Seneddol newydd Dwyrain Casnewydd yn byw yn yr ardal a oedd yn cael ei hadnewyddu yn Kensington Place y dechreuasant bendroni ai cyd-ddigwyddiad oedd bod y cyngor wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r gwaith hwn ar yr adeg honno.

Yr ydym i gyd yn gwybod am ddigwyddiadau tebyg ar hyd a lled Cymru. Dyma pam y cefnogais bron popeth a ddywedodd Peter hyd at ei bwynt olaf.

across Wales, and we will support any calls for openness within a cabinet structure because there are problems with accountability there. I look forward to continuing this debate, hopefully during Plenary, so that we can vote and examine the matter properly.

David Lloyd: Diolch, Peter, am y cyfle i siarad a diolch am godi'r pwnc pwysig hwn. Datganaf fuddiant fel cynghorydd ar Gyngor Dinas a Sir Abetawe. Fodd bynnag, nid wyf yn derbyn lwfans am y pleser a'r anrhydedd o gynrychioli pobl Cockett.

Yr wyf wedi derbyn nifer o lythyrau gan bobl sydd yn anfodlon â'r system lywodraeth leol bresennol. Mae meddwl isel gan bobl o'u cyngor lleol. Mae hyn yn tanlinellu'r sialens sydd yn wynebu llywodraeth leol. Mae'r holl siarad am ddatblygu strwythurau agored, teg a gonest yn broblem yn Abertawe oherwydd bod y cyngor wedi penderfynu cael cabinet cae'dig. Mae problem ynglŷn â'r holl sôn am ddemocratiaeth newydd a modern. Mae'n rhaid i lywodraeth leol ym mhob ardal ymateb i sialens enfawr oherwydd bod pobl wedi colli diddordeb mewn pleidleisio'n lleol. Mae hynny'n amlwg yn agwedd pobl tuag at eu cyngor lleol. Mae angen strwythurau teg, agored a gonest. Dyna'r sialens i lywodraeth leol.

The Secretary for Local Government and Housing (Peter Law): At times, Peter, as I listened to you during this debate I wanted to ask you to pass me the spade. There is a hole big enough here to put in a new swimming pool for Cardiff. Your debate today concentrates on a negative issue but one that has only been a minor difficulty as far as local government is concerned. This does nothing for our positive partnership with Welsh local government of which, hitherto, you have been a strong supporter. I understand why you raised some matters—and I listened carefully to the Llywydd's ruling—but I cannot comment on Swansea. Matters are being robustly investigated there and I am satisfied that that is the appropriate action. Your actions today and the title of this debate are unfortunate. You have turned

Mae'n hen bryd inni edrych ar hyn ledled Cymru, a chefnogwn unrhyw alwadau i fod yn agored mewn strwythur cabinet gan fod problemau gydag atebolrwydd yno. Edrychaf ymlaen at barhau gyda'r ddadl hon, yn ystod Cyfarfod Llawn gobeithio, fel y gallwn bleidleisio ac archwilio'r mater yn iawn.

David Lloyd: Thank you, Peter, for the opportunity to speak and thank you for raising this important subject. I declare an interest as a councillor on Swansea City and County Council. However, I do not receive an allowance for the pleasure and honour of representing the people of Cockett.

I have received many letters from people who are dissatisfied with the present local government system. People have a low opinion of their local council. This underlines the challenge facing local government. All this talk about developing open, fair and honest structures is a problem in Swansea because the council has decided to have a closed cabinet. There is a problem with all this talk about a new and modern democracy. Local government in all areas must respond to an enormous challenge as people have lost interest in voting locally. That is obvious in people's attitude towards their local council. We need fair, open and honest structures. That is the challenge for local government.

Yr Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai (Peter Law): Wrth imi wrando amoch yn ystod y ddadl hon Peter, bob hyn a hyn, yr oeddwn eisiau gofyn ichi roi'r rhaw imi. Mae twll digon mawr yma ar gyfer pwll nofio newydd i Gaerdydd. Mae eich dadl heddiw yn canolbwyntio ar fater negyddol ond un sydd ond wedi peri anhawster bach i lywodraeth leol. Nid yw hyn o unrhyw gymorth i'n partneriaeth gadarnhaol gyda llywodraeth leol Cymru y buoch yn gefnogol iawn iddo cyn heddiw. Gwn pam y codoch rai materion—a gwrandewais yn astud ar ddyfarniad y Llywydd—ond ni allaf wneud sylwadau ar Abertawe. Mae'r materion yn cael eu harchwilio'n drwyadl yno ac yr wyf yn fodlon mai dyna'r ffordd briodol o weithredu. Mae'r hyn a wnaethoch chi heddiw a theitl y ddadl hon yn anffodus. Yr

a serious matter for debate into a blatantly political issue. However, we are in a political arena.

This discussion has included a fair amount of analysis and I will concentrate on what the Assembly is doing to promote high standards of ethics and probity in Welsh local authorities. Although several Welsh authorities have experienced problems arising from wrong or inappropriate behaviour over the last few years, the number of councillors and employees involved in absolute and relative terms is minuscule. The vast majority of elected councillors and employees in local government are honest, respectable and hard working. We owe them a major debt of gratitude and I pay tribute to them. We must get that in perspective.

Although statistics record the incidence of fraud and corruption, there is no indication that the situation in Wales is worse than that in England or Scotland, nor is it worse in local government than in other areas, including the civil service, the health service and the private sector. However, any level of corrupt or inappropriate behaviour is unacceptable. Such action can shake the public's confidence in local government as an institution.

Work by the Local Government Ombudsman for Wales, district audit, the Audit Commission and local authorities, through their internal audit procedures, have done much to promote good practice to raise standards in local government. They have also raised awareness of corruption and fraud, their damaging effects on the public purse and the public's confidence in local government. The Assembly intends to build on that work through its local government modernisation agenda.

Part 3 of the Local Government Bill, which is going through the House of Commons, gives the Assembly powers to introduce a complete ethical framework for local authorities in Wales, reflecting the recommendations of the Committee on

ydych wedi troi mater difrifol ar gyfer dadl yn fater politicaidd amlwg. Fodd bynnag, yr ydym mewn arena wleidyddol.

Cafwyd cryn dipyn o ddadansoddi yn y drafodaeth hon a byddaf yn canolbwyntio ar yr hyn y mae'r Cynulliad yn ei wneud i hyrwyddo safonau moeseg a gonestrwydd uchel yn awdurdodau lleol Cymru. Er bod nifer o awdurdodau yng Nghymru wedi cael problemau sydd wedi deillio o ymddygiad anghywir neu anaddas dros y blynyddoedd diwethaf, bychan iawn mewn termau absoliwt a chymharol yw nifer y cynghorwyr a gweithwyr sydd yn gysylltiedig â hyn. Mae mwyafrif helaeth cynghorwyr etholedig a gweithwyr llywodraeth leol yn onest, yn barchus ac yn weithwyr caled. Dylem fod yn ddiolchgar iawn iddynt a thalaf deyrnged iddynt. Rhaid inni weld hynny yn ei wir oleuni.

Er bod yr ystadegau yn cofnodi achosion o dwyll a llygredigaeth, nid oes unrhyw beth yn dangos bod y sefyllfa yn waeth yng Nghymru nag yn Lloegr neu'r Alban, nid yw'n waeth ychwaith nag yw mewn meysydd eraill, gan gynnwys y gwasanaeth sifil, y gwasanaeth iechyd a'r sector preifat. Fodd bynnag, mae unrhyw lefel o ymddygiad llygredig neu amhriodol yn annerbyniol. Gall gweithredu o'r fath siglo hyder y cyhoedd mewn llywodraeth leol fel sefydliad.

Mae gwaith Ombwdsman Llywodraeth Leol Cymru, yr archwilydd dosbarth, y Comisiwn Archwilio a threfniadau archwilio mewnol awdurdodau lleol wedi cyflawni llawer i hyrwyddo arfer da ac i godi safonau mewn llywodraeth leol. Maent hefyd wedi codi ymwybyddiaeth o lygredigaeth a thwyll, eu heffeithiau niweidiol ar y pwrs cyhoeddus a hyder y cyhoedd mewn llywodraeth leol. Mae'r Cynulliad yn bwriadu adeiladu ar y gwaith hwnnw drwy ei agenda moderneiddio llywodraeth leol.

Mae rhan 3 y Mesur Llywodraeth Leol sydd ger bron Tŷ'r Cyffredin, yn rhoi pwerau i'r Cynulliad gyflwyno fframwaith moeseg cyflawn ar gyfer awdurdodau lleol Cymru, gan adlewyrchu argymhellion y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Drwy'r

Standards in Public Life. Through those powers, the Assembly will be able to address the two key factors, which have allowed bad practice to occur in the past. Those factors are the lack of a clear, highly visible code of conduct that sets standards across Wales and the lack of an independent enforcement mechanism that can impose penalties when the code is breached.

Elected members' conduct is governed by the National Code of Local Government Conduct. It is disappointing that all councillors are not educated in its requirements. That is a weakness of the current system. The Local Government Bill will allow the Assembly to issue a single national model code of conduct for elected and co-opted members in local government, based on a series of general principles of good conduct. The basis for this will be the principles of public life proposed by the Committee on Standards in Public Life. The Assembly will be asked to endorse the general principles and the national code, which all councils and councillors in Wales will have to sign up to and endorse.

The Bill will also introduce new enforcement mechanisms, such as standards committees in councils. They will comprise a majority of independent co-optees and investigate minor allegations against councillors. I am pleased that many Welsh councils have introduced standards committees in advance of legislation. I thank them and compliment them on that. Experience of their operation will inform the regulations and guidance that the Assembly will produce to ensure that there is consistency in key respects across Wales.

An independent standards board will investigate the most serious allegations. Its functions in Wales will be conferred on the Commission for Local Administration in Wales. The commission will police councils' standards committees, vet their terms of reference and disseminate information on authorities' experience of operating the code of conduct. The Government, at the Government of Wales's request, has also

pwerau hyn, bydd y Cynulliad hefyd yn gallu rhoi sylw i'r ddau ffactor allweddol, sydd wedi caniatáu i arfer gwael ddigwydd yn y gorffennol. Y ffactorau hynny yw diffyg cod ymddygiad clir gweladwy iawn sydd yn nodi'r safonau ledled Cymru a diffyg mecanwaith gorfodi annibynnol sydd yn gallu gosod cosbau pan dorrir y cod.

Cod Cenedlaethol Ymddygiad Llywodraeth Leol sydd yn pennu ymddygiad aelodau etholedig. Mae'n anffodus nad yw pob cynghorydd yn gyfarwydd â'i ofynion. Dyna yw gwendid y system bresennol. Bydd y Mesur Llywodraeth Leol yn galluogi'r Cynulliad i gyhoeddi model cod ymddygiad sengl cenedlaethol ar gyfer aelodau etholedig a chyfetholedig mewn llywodraeth leol, ar sail cyfres o egwyddorion cyffredinol ymddygiad da. Sylfaen hyn fydd yr egwyddorion bywyd cyhoeddus a gynigiwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Gofynnir i'r Cynulliad gefnogi'r egwyddorion cyffredinol a'r cod cenedlaethol y bydd yn rhaid i holl gynghorau a chynghorwyr Cymru eu llofnodi a'u cefnogi.

Bydd y Mesur yn cyflwyno mecanweithiau gorfodi newydd hefyd, megis pwyllgorau safonau mewn cynghorau. Byddant yn cynnwys mwyafrif o gyfetholedigion annibynnol a fydd yn archwilio honiadau llai difrifol yn erbyn cynghorwyr. Yr wyf wth fy modd bod nifer o gynghorau Cymru wedi cyflwyno pwyllgorau safonau cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth. Diolchaf iddynt a chanmolaf hwy am hynny. Bydd y profiad o'u rhedeg yn goleuo'r rheoliadau a'r arweiniad y bydd y Cynulliad yn eu cynhyrchu i sicrhau cysondeb mewn agweddau allweddol ledled Cymru.

Bydd bwrdd safonau annibynnol yn archwilio'r honiadau mwyaf difrifol. Rhoddir ei ddyletswyddau yng Nghymru i'r Comisiwn Gweinyddiaeth Leol yng Nghymru. Bydd y comisiwn yn plismona pwyllgorau safonau cynghorau, yn pwysu a mesur eu cylch gorchwyl ac yn dosbarthu gwybodaeth am brofiad awdurdodau wrth weithredu'r cod ymddygiad. Ar gais Llywodraeth Cymru, mae'r Llywodraeth

undertaken to extend the commission's remit to enable it to hear complaints from the tenants of registered social landlords, such as housing associations, which are important, and those making allegations against combined fire authorities in Wales. That is long overdue. There will also be an adjudication panel that will adjudicate the commission's investigations and impose appropriate penalties on councillors where breaches of the code are upheld.

Finally, the Bill will enable the National Assembly to issue a code of conduct for local government employees. The code will govern officer-member relations and include a whistle-blowing code to ensure that all councils have provision for their employees, including part-time and agency staff, and staff employed by contractors, to make disclosures under the Public Interest Disclosure Act 1998. That provision is essential to ensure that any wrong-doing of which officers are aware is not allowed to go unchecked for fear of the consequences for the whistleblower. That is an important recommendation of the Waterhouse inquiry.

5:30 p.m.

I am aware that some Welsh councils have already adopted the Confidential Reporting Code produced by the Local Government Management Board in 1998. However, I hope that the new employees' code will strengthen the existing provisions by encouraging councils to require their elected members and staff to report all wrong-doing of which they become aware. However, the new framework should help to create a culture in local government that will not tolerate wrong-doing or corrupt practice. It will establish principles and approaches that should run throughout everything a council does, providing a reference point not only for individual councillors and officers but also for the systems that the authority operates to ensure that the principles of public life, selflessness, integrity, objectivity, accountability, openness, honesty and leadership are observed.

hefyd wedi ymestyn cylch gwaith y comisiwn i'w alluogi i glywed cwynion gan denantiaid landlordiaid cymdeithasol cofrestredig megis cymdeithasau tai, sydd yn bwysig, a'r rheini sydd yn gwneud honiadau yn erbyn awdurdodau tân cyfunol yng Nghymru. Mae'n hen bryd i hynny ddigwydd. Bydd panel beirniaid hefyd yn barnu archwiliadau'r comisiwn ac yn gosod cosbau priodol ar gynghorwyr pan dorrir y cod.

Yn olaf, bydd y mesur yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i gyhoeddi cod ymddygiad ar gyfer gweithwyr llywodraeth leol. Bydd y cod yn rheoli'r berthynas rhwng swyddogion ac aelodau ac yn gynnwys cod codi llais i sicrhau bod gan bob cyngor ddarpariaeth ar gyfer eu gweithwyr, gan gynnwys staff rhan amser a staff asiantaeth, a staff a gyflogir gan gontractwyr, i wneud datgeliadau dan Ddeddf Datgelu Diddordeb Cyhoeddus 1998. Mae'r ddarpariaeth honno'n hanfodol i sicrhau na fydd unrhyw ddrygioni sydd yn hysbys i swyddogion, yn gallu parhau heb gael ei archwilio oherwydd bod y sawl sydd yn codi llais yn ofni'r canlyniadau. Mae hynny'n argymhelliad pwysig yn ymchwiliad Waterhouse.

Gwn fod rhai cynghorau yng Nghymru eisoes wedi mabwysiadu'r Cod Cofnodi Cyfrinachol a gynhyrchwyd gan y Bwrdd Rheoli Llywodraeth Leol yn 1998. Fodd bynnag, gobeithiaf y bydd y cod gweithwyr newydd yn grymuso'r darpariaethau presennol drwy annog cynghorau i fynnu bod eu haelodau etholedig a'u staff yn cofnodi pob drygioni sydd yn hysbys iddynt. Fodd bynnag, dylai'r fframwaith newydd helpu i greu diwylliant mewn llywodraeth leol na fydd yn goddef drygioni nac ymarfer llygredig. Bydd yn sefydlu egwyddorion ac agweddau a ddylai fod ar waith ym mhob elfen o weithgarwch y cyngor, gan ddarparu pwynt cyfeirio i gynghorwyr a swyddogion unigol yn ogystal ag i'r systemau y mae'r awdurdod yn eu dilyn i sicrhau y glynir wrth egwyddorion bywyd cyhoeddus, anhunanoldeb, cywirdeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

I listened carefully to what was said earlier. David Davies's contributions with regard to local authorities are usually littered with abuse and negativity and today was no different. I am used to that, David, and thank you for the usual helping of it. Generally, local authorities in Wales are doing a good job and will do a better job by working in partnership with the Assembly as has been shown on a day-to-day basis as far as we are concerned. There is an opportunity to ensure that the system is not exploited. Serious allegations against councils will be referred to these independent commissions to which I have referred. It cannot be more transparent than that. I cannot comment further on proportional representation other than to say that it is an interesting reflection and without it you would be standing on your own here today. It is a matter for the UK Government: it is not presently in this Bill. We have an opportunity to change the system for the future in the interests of the people of Wales as far as local government is concerned to ensure that we have the highest standards available.

It is useful to remind people—as this debate has also done—that there is an existing code of conduct that applies to councillors. Many councils already have Standards Committees to look into allegations of misconduct. The local government ombudsman has an important and continuing role in investigating circumstances where maladministration and injustice may have occurred. In addition, District Auditors and councils' own internal auditors play an active part in investigating any evidence of impropriety. However, the new ethical framework will bring home to local government and the public that the Assembly expects high standards to be established, maintained and monitored. I listen regularly to comments about scrutiny committees. I come from a local government background. My opinion is that scrutiny committees are a good addition. It is right to be able to scrutinise the Executive. It happens here every week. We know it works and that it would also work in local government. Scrutiny is not effective at present under the

Gwrandewais yn astud ar yr hyn a ddywedwyd yn gynharach. Yng nghyswllt awdurdodau lleol, fel arfer, mae cyfraniadau David Davies yn frith o anfri ac agwedd negyddol, ac nid oedd heddiw'n eithriad. Yr wyf wedi arfer â hynny, David, a diolch ichi am ein cyfran arferol ohono. Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol Cymru yn gwneud gwaith da a byddant yn gwneud yn well drwy weithio mewn partneriaeth â'r Cynulliad fel y gwelwyd yn ddyddiol o'n safbwynt ni. Mae cyfle i sicrhau nad yw'r system yn cael ei hecsbloetio. Cyfeirir honiadau difrifol yn erbyn cynghorau i'r comisiynau annibynnol hyn y cyfeiriais atynt. Ni all fod yn fwy tryloyw na hynny. Y cyfan y gallaf ei ddweud ynghylch cynrychiolaeth gyfrannol yw ei fod yn fyfyrdd diddorol a hebddo, byddech yn sefyll ar eich pen eich hunan yma heddiw. Mae'n fater i Lywodraeth y DU: nid yw yn y Mesur hwn ar hyn o bryd. Mae gennym gyfle i newid y system ar gyfer y dyfodol er budd pobl Cymru gyda golwg ar lywodraeth leol i sicrhau bod gennym y safonau uchaf sydd ar gael.

Mae'n fuddiol atgoffa pobl—fel y mae'r ddadl hon eisoes wedi'i wneud—bod cod ymddygiad yn bodoli sydd yn berthnasol i gynghorwyr. Mae gan sawl cyngor Bwyllgorau Safonau eisoes i archwilio honiadau o gamymddwyn. Mae gan yr ombwdsman llywodraeth leol swyddogaeth bwysig sydd yn parhau drwy archwilio amgylchiadau lle gallai camweinyddu ac anghyfiawnder fod wedi digwydd. Yn ychwanegol at hyn, mae gan Archwilwyr Dosbarth ac archwilwyr mewnol y cynghorau ran weithredol wrth archwilio unrhyw dystiolaeth o anghywirdeb. Fodd bynnag, bydd y fframwaith moesegol newydd yn dangos i lywodraeth leol a'r cyhoedd bod y Cynulliad yn disgwyl gweld bod safonau uchel yn cael eu sefydlu, eu cynnal a'u monitro. Yr wyf yn gwrandao'n rheolaidd ar sylwadau ar bwyllgorau manylu. Mae gennyf gefndir mewn llywodraeth leol. Yn fy marn i, mae pwyllgorau manylu yn ychwanegiad da. Mae'n iawn gallu archwilio'r Weithrediaeth. Mae'n digwydd yma bob wythnos. Gwyddom ei fod yn gweithio ac y byddai'n

old committee system. I look forward to much more openness, accountability and transparency under the new local government structures that we will have.

gweithio mewn llywodraeth leol hefyd. Nid yw archwilio'n effeithiol ar hyn o bryd dan yr hen system pwyllgor. Edrychaf ymlaen at lawer mwy o onestrwydd, atebolrwydd a thryloywder dan y strwythurau llywodraeth leol newydd a fydd gennym.

Pwynt o Drefn Point of Order

John Griffiths: Point of order. I refer to David Davies's earlier remarks. In your ruling earlier today Llywydd, you made it absolutely clear to Peter Black what was permitted in the short debate. During the short debate, David Davies holds up the person responsible—for the decision to which he referred—of being guilty of sleaze in local government. He said that renewing a pavement in an area of my constituency in Newport East, was carried out because the Minister of Parliament for Newport East lived in that part of the street that had the new pavement. There is an obvious inference that somebody has authorised work to be carried out for improper reason. Therefore, it amounts to the sort of assertion against the individual concerned that you warned Peter Black not to make earlier.

John Griffiths: Pwynt o drefn. Cyfeiriaf at sylwadau cynharach David Davies. Yn eich dyfarniad yn gynharach heddiw Lywydd, dywedasoch yn hollol glir wrth Peter Black beth oedd yn cael ei ganiatáu yn y ddadl fer. Yn ystod y ddadl fer, nododd David Davies y person a oedd yn gyfrifol—am y penderfyniad y cyfeiriodd ato—o fod yn euog o lygredd mewn llywodraeth leol. Dywedodd fod palmant mewn ardal yn fy etholaeth i yn Nwyrain Casnewydd, wedi'i adnewyddu oherwydd bod Aelod Seneddol Dwyrain Casnewydd yn byw yn y rhan honno o'r stryd a gafodd y palmant newydd. Mae hwn yn gyfeiriad amlwg bod rhywun wedi awdurdodi gwaith am reswm amhriodol. Felly, mae hwnnw yr un math o honiad yn erbyn yr unigolyn dan sylw y rhybuddioch Peter Black i beidio â'i wneud yn gynharach.

David Davies: I remind Members that I spoke about the coincidences that make it difficult for people to have confidence in local government. I said that many people felt that it was a rather strange coincidence and therefore it was a matter for us to look into.

David Davies: Atgoffaf Aelodau imi siarad am gyd-ddigwyddiadau sydd yn ei gwneud yn anodd i bobl gael hyder mewn llywodraeth leol. Dywedais fod nifer o bobl yn teimlo ei fod yn gyd-ddigwyddiad od braidd a'i fod felly yn fater inni ei ystyried.

The Presiding Officer: David Davies did not mention individuals by name. If he had done so I would have certainly called him to order. However, to make accusations within the context of our debates—as I have already indicated today—is in breach of our new Code of Guidance. Therefore, I ask Members to read what the Assembly approves and understand that we are now operating a much tighter regime than we were previously. I have apologised that I did not operate it sufficiently tightly earlier in the Government of Wales Act 1998 within our Standing Orders. However, I intend to do so in future

Y Llywydd: Ni chyfeiriodd David Davies at unigolion yn ôl eu henw. Pe bai wedi gwneud hynny, byddwn yn sicr wedi'i alw i drefn. Fodd bynnag, mae gwneud cyhuddiadau yng nghyd-destun ein dadleuon—fel yr wyf eisoes wedi nodi heddiw—yn torri ein Cod Arweiniad newydd. Felly gofynnaf i Aelodau ddarllen yr hyn y mae'r Cynulliad yn ei gymeradwyo a deall ein bod bellach yn gweithredu trefn dynnach nag oeddem o'r blaen. Ymddiheurais nad oeddwn yn glynu'n ddigon agos wrtho yn gynharach yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998 yn ein Rheolau Sefydlog. Fodd bynnag, bwriadaf wneud

as you clearly saw this afternoon.

hynny yn y dyfodol fel y gwelsoch yn amlwg
y prynhawn hwn.

Dyna ddiwedd y gweithgareddau am heddiw. That is the end of today's proceedings.
Diolch i bawb a gadwodd mewn trefn. Thank you to everybody who kept in order.

Daeth y cyfarfod i ben am 5:36 p.m.
The session ended at 5:36 p.m.